Cofrestrfa Tir

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2008/9

# Creu hyder mewn eiddo

# Cofrestrfa Tir

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2008/9

Adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor gan y Prif Gofrestrydd Tir a'r Prif Weithredwr ar waith y Gofrestrfa Tir am y flwyddyn 2008/9.

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 101 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 ac adran 4(6)(a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Masnachu'r Llywodraeth 1990.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 14 Gorffennaf 2009.

HC700
Llundain: Y Llyfrfa
£14.35

BUDDSODDWR MEWN POBL

YN GADARN O BLAID · POBL ANABL



©Hawlfraint y Goron 2009

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a logos adrannau ac asiantaethau eraill) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a chofnodi teitl y ddogfen.

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti bydd rhaid i chi geisio caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall o'r deunydd hwn ysgrifennwch at Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus, Tîm Polisi Gwybodaeth, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU neu e-bost: licensing@opsi.gov.uk

ISBN: 9780102961478

# Cynnwys

**Rhagair gan y Prif Gofrestrydd Tir a'r Prif Weithredwr** **4**

**Am Gofrestrfa Tir Ei Mawrhydi** **6**
Pwy ydym ni 6
Beth ydym yn ei wneud 6
Ein strwythur 6
Ein cenhadaeth 6
Ein nod 6
Ein gweledigaeth 6
Ein hamcanion 7

**Golwg ar y flwyddyn hon** **8**

**Ein perfformiad** **10**
Ein targedau dangosydd perfformiad allweddol 2008/9 10
Perfformiad busnes ehangach ar gyfer 2008/9 11
Gwaith a dderbyniwyd ac a gynhyrchwyd 12
Bodlonrwydd cyffredinol cwsmeriaid 12
Effeithlonrwydd 12
Ariannol 12
Cywirdeb 13
Cyflymder 13
Perfformiad yn erbyn amcanion ein meysydd datblygiad strategol 13
Safonau gwasanaeth 14
Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol 14
Deddfwriaeth 15
Y Pwyllgor Rheolau 15
Yr Uned Ryngwladol 15
Cyfrifoldeb corfforaethol 15
Gwybodaeth agored a llawn 16
Yr Adolygydd Cwynion Annibynnol 17
Y Gronfa Indemniad 18
Cefnogi ein cwsmeriaid gydag addysg a hyfforddiant 18
Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol 19
Connect Direct 19
Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Ewropeaidd 19
Y Grŵp Marchnata a Gwerthu 20

**Ein pobl** **22**
Recriwtio a chadw 22
Ffeithiau a ffigurau 22
Amrywiaeth a chyfle cyfartal 23
Datblygu staff 23
Iechyd a diogelwch 25

**Adroddiad y Prif Weithredwr** **26**
Bwrdd y Gofrestrfa Tir 26
Y Pwyllgor Archwilio 27
Archwilwyr 27
Pensiynau 27
Taliadau 27
Prif risgiau ac ansicrwydd y busnes 27
Digwyddiadau cysylltiedig â data personol 28
Adnoddau a rhanddeiliaid 29
Adolygiad Gweithredu ac Ariannol 29

**Cyfrifon 2008/9** **32**

**Cofnod y Trysorlys** **61**

**Atodiadau** **62**
1 Crynodeb o'r gwaith a dderbyniwyd 2007/8 a 2008/9 62
2 Datganiad recriwtio 63

# Rhagair

## Gan y Prif Gofrestrydd Tir a'r Prif Weithredwr

Mae'r Gofrestrfa Tir bob amser wedi chwarae rôl ganolog wrth greu hyder mewn eiddo. Mae system cofrestru tir sefydlog ac effeithiol yn darparu'r conglfaen ar gyfer marchnad iach a gweithredol mewn tir ac adeiladau. Er gwaetha'r pryderon a all fod gan brynwyr a gwerthwyr yn ystod y dirwasgiad presennol, gallant ddibynnu ar gywirdeb a sicrwydd y Gofrestr Tir.

Doedd neb yn deall hynny'n well na Keith Melia, a welodd y farchnad yn dirywio a gwella sawl gwaith yn ystod ei gyfnod o bron 49 mlynedd gyda'r Gofrestrfa Tir. Ym mis Chwefror fe ddywedes i ychydig o eiriau ym mharti ffarwel Keith wrth iddo ymddeol o'i swydd fel Rheolwr Ardal Swyddfa Lytham. Roedd yn bleser talu teyrnged i batrwm o was sifil ac un o hoelion wyth y sefydliad.

Roedd cyfnod gwasanaeth Keith yn anarferol ond nid yn eithriadol o bell ffordd yn y Gofrestrfa Tir. Mae nifer o'n staff wedi treulio eu bywyd gwaith cyfan yma. Mae eu ffyddlondeb a'u hymrwymiad i'w gwaith yn deyrnged iddyn nhw ac i'r sefydliad. Felly gyda thristwch mawr bu'n rhaid i ni ffarwelio â channoedd o weithwyr hir eu gwasanaeth y gwanwyn hwn.

Cyd-destun uniongyrchol eu hymadawiad yw'r dirwasgiad presennol, sydd wedi gweld gostyngiad o hyd at 75 y cant ym maint ein busnes craidd. Y gwir amdani yw bod ein llwyth gwaith a'n hincwm wedi mynd dros y dibyn. Dyma'r cyfnod mwyaf anodd mae'n debyg yn ein hanes hir.

Er mwyn ymdopi â'r ergyd drom hon rydym yn cwtogi ar wario, yn codi ein ffioedd ac yn defnyddio ein cronfeydd wrth gefn. Mae ein mesurau arbed arian yn amrywio o ddefnyddio post ail ddosbarth i gau'r bwytai ym mhob un o'n swyddfeydd. Ond yr un mwyaf arwyddocaol yw'r cynllun gadael swydd yn gynnar o wirfodd.

Mae staff sy'n agos at oedran ymddeol, yn ein dwy radd weinyddol ac yn y swyddfeydd sy'n uno, i gyd wedi cael cyfle i adael yn gynharach na'r disgwyl. Mae mwy na 1,000 wedi achub ar y cyfle hwn. Roedd rhai oedd eisiau aros yn y Gwasanaeth Sifil wedi trosglwyddo i adrannau eraill o'r llywodraeth.

Roedd llawer iawn ohonynt wedi bwriadu aros llawer hwy - fel Keith, am eu bywyd gwaith cyfan. Fel y dywedodd un aelod staff oedd yn gadael Swyddfa Caerloyw: "Rwy'n aelod o'r Gofrestrfa Tir ac yn falch o'r hyn dwi'n ei wneud. Rwy'n teimlo'n siomedig oherwydd roeddwn i'n meddwl y byddwn i yma nes i mi ymddeol."

Rydym ni'n rhannu eu siom oherwydd dyn ni ddim yn hoffi colli staff ymrwymedig a medrus. Ond os yw eu cydweithwyr sy'n aros yn parhau i deimlo'r balchder a'r ymroddiad hwnnw - ac rwy'n hyderus y byddant - yna bydd dyfodol disglair i'r Gofrestrfa Tir. Mae hyn yn fy arwain at gyd-destun yr ymadawiadau yn y tymor hwy.


Mae Glasbrint gennym ar gyfer dyfodol y Gofrestrfa Tir sy'n rhagweld sefydliad llai o faint a chulach sy'n canolbwyntio mwy ar gwsmeriaid, yn delio â nifer o geisiadau trwy ddulliau electronig, ac sy'n darparu amrywiaeth estynedig o gynhyrchion a gwasanaethau i'n cwsmeriaid. Mae'n llwybr roeddem yn teithio arno cyn y wasgfa gredyd. Ac yn hytrach na chael ein bwrw o'r llwybr, mae'r argyfwng economaidd wedi cyflymu'r daith.

Trwy'r dirwasgiad rydym wedi parhau i gyrraedd pob un o'n targedau anariannol, heblaw ein targed effeithlonrwydd, gan weithredu ar y newidiadau i'r sefydliad sy'n ofynnol yn ôl y Glasbrint. Byddwn yn barod ar gyfer adfywiad yn y farchnad eiddo ac yn barod i weithio'n fwyfwy agos â'n cwsmeriaid i ddarparu'r cynhyrchion a'r gwasanaethau y bydd eu hangen arnynt yn y farchnad newydd sy'n debygol o ddod i'r amlwg.

Rydym yn sefydliad sy'n newid ac mae ymadawiad cynifer o weithwyr yn ganlyniad ac yn gatalydd. Ond bydd rhai pethau'n aros yr un fath, yn arbennig ein gallu a'n hangen i elwa ar y priodoleddau y mae pobl fel Keith Melia bob amser wedi'u cynnig i'r Gofrestrfa Tir.



**Peter Collis CB HonRICS CCMI**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
Gorffennaf 2009



# Am Gofrestrfa Tir Ei Mawrhydi

## Pwy ydym ni

Mae Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi (Cofrestrfa Tir), a sefydlwyd yn 1862, yn adran o'r llywodraeth yn ei rhinwedd ei hun, yn asiantaeth weithredol ac yn gronfa fasnachu ac nid yw'n defnyddio unrhyw arian a ddyfarnwyd gan y Senedd. Yn ôl statud, mae'n ofynnol i ni sicrhau bod ein hincwm o ffioedd yn cwmpasu ein holl wariant o dan amodau gweithredu arferol.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn cynnwys yr Adran Cofrestru Teitl, sy'n delio â'n prif fusnes, a'r Adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol sy'n llawer llai. Mae'r adroddiad hwn yn delio â'r adrannau ar wahân ond mae'r cyfrifon wedi'u rhoi ar gyfer y Gofrestrfa Tir gyfan.

Mae swyddogaethau'r Gofrestrfa Tir yn statudol yn llwyr. Nid oes unrhyw bwerau rhagorfreiniol gennym. Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi'r grym i'r Gofrestrfa Tir ddelio â'r "busnes o gofrestru o dan y Ddeddf hon" a dyma'r prif statud sy'n llywodraethu'r Gofrestrfa Tir. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor yw'r gweinidog sy'n gyfrifol am y Gofrestrfa Tir.

Y Prif Gofrestrydd Tir yw pennaeth y Gofrestrfa Tir, wedi'i benodi o dan statud gan yr Arglwydd Ganghellor. Mae'r Prif Gofrestrydd Tir hefyd yn Brif Weithredwr y Gofrestrfa Tir a'r Swyddog Cyfrifyddu. Y Prif Weithredwr yn unig sy'n gyfrifol am reoli'r Gofrestrfa Tir yn effeithiol ac yn effeithlon o ddydd i ddydd, yn amodol ar baramedrau ariannol a deddfwriaethol. Rhoddir manylion llawn rolau a chyfrifoldebau'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif Gofrestrydd Tir yn ein *Dogfen Fframwaith 2008.*

## Beth ydym yn ei wneud

Ein prif bwrpas yw cofrestru perchnogaeth tir yng Nghymru a Lloegr a chofnodi deliadau â thir pan gaiff ei gofrestru.

Gwasanaethwn boblogaeth o 54 miliwn a hwyluswn un o'r marchnadoedd eiddo a morgeisiau mwyaf gweithredol yn y byd. Mae'r Gofrestr Tir yn cynnwys mwy na 22 miliwn o deitlau, ac mae mwy na 10 miliwn hectar - neu 69.4 y cant - o'r tir yng Nghymru a Lloegr wedi'i gofrestru erbyn hyn.

## Ein strwythur

Mae'r Gofrestrfa Tir yn cynnwys yr Adran Cofrestru Teitl, sy'n delio â'n prif fusnes, a'r adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol sy'n llawer llai.

Yn ystod 2008/9, roedd y Gofrestrfa Tir yn gweithredu trwy 21 swyddfa a dwy is-swyddfa wedi'u lleoli ar hyd a lled Cymru a Lloegr (gweler y map ar dudalen 64), Prif Swyddfa yn Llundain a swyddfeydd yn Plymouth lle y lleolir yr adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol a'n Cyfarwyddiaeth Systemau Gwybodaeth.

Fodd bynnag, fel rhan o gynlluniau'r Gofrestrfa Tir i resymoli ei swyddfeydd a sicrhau arbedion yn y tymor hir, bwriadwn gau swyddfeydd Caerefrog a Harrow yn 2010, a lle mae gennym ddwy swyddfa ym Mhenbedw, Durham, Lytham, Nottingham ac Abertawe, mae'r swyddfeydd yn cael eu huno a'u disodli gan un swyddfa. Ar 31 Mawrth 2009 fe gaeodd Boldon House yn Durham a chwblhawyd y broses o symud staff i Durham Southfield House erbyn 6 Mawrth 2009. Ar ddydd Mercher 1 Ebrill 2009 daeth Gorchymyn Swyddfa Briodol newydd i rym gan uno swyddfeydd Lytham a Chaerhirfryn a'u galluogi i weithredu fel un uned busnes o'r enw Swyddfa Fylde y Gofrestrfa Tir. Yn ystod 2009/10, mae'r Bwrdd yn bwriadu sefydlu un swyddfa ym Mhenbedw yn Rosebrae Court erbyn 1 Hydref 2009; un swyddfa yn Nottingham yn Chalfont Drive erbyn 1 Hydref 2009; un swyddfa yng Nghymru yn Nhŷ Cwm Tawe, Abertawe erbyn 1 Hydref 2010 ac un swyddfa Fylde yn Wrea Brook Court erbyn Ebrill 2010.

Fe welwch fanylion cyswllt ar gyfer swyddfeydd y Gofrestrfa Tir ar ein gwefan www.cofrestrfatir.gov.uk

## Ein cenhadaeth

Darparu'r gwasanaeth gorau yn y byd ar gyfer cofrestru perchnogaeth tir yn ddiogel a hwyluso trafodion eiddo.

## Ein nod

Wrth gyflawni ein cenhadaeth, prif amcanion y Gofrestrfa Tir yw:

- cynnal a datblygu system cofrestru tir sefydlog ac effeithiol yng Nghymru a Lloegr, gan ddarparu'r conglfaen ar gyfer creu buddion mewn tir a symudiad rhydd y buddion hynny
- darparu gwarant â chefnogaeth y wladwriaeth ar gyfer teitl i ystadau cofrestredig a buddion mewn tir ar gyfer Cymru a Lloegr cyfan
- darparu mynediad rhwydd i'r wybodaeth ddiweddaraf a gwarantedig am dir, gan alluogi deliadau hyderus mewn eiddo a gwarantu teitl
- cwrdd â thargedau perfformiad sy'n gwella'n gynyddol wedi'u gosod gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor, er mwyn darparu gwasanaethau o safon uchel, cost-effeithiol yn brydlon i'n cwsmeriaid.

## Ein gweledigaeth

Gwneud trafodion eiddo yn haws i bawb.

## Ein hamcanion

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth, mae ein strategaeth yn ceisio datblygu neu wella gwasanaethau sy'n bod yn ogystal â chyflwyno gwasanaethau newydd i'n cwsmeriaid.

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi nodi pedwar maes allweddol i'w datblygu: gwasanaeth cwsmeriaid, cofrestru tir, darparu gwasanaeth electronig a datblygu busnes. Yn ystod 2008/9, roedd ein hamcanion strategol mwy tymor hir o fewn pob un o'r meysydd hyn fel a ganlyn.

**Gwasanaeth cwsmeriaid**

— Parhau i wneud gwelliannau i ddarparu gwasanaethau i bob rhanddeiliad.

**Cofrestru tir**

— Cyflwyno deddfwriaeth eilaidd amserol ac effeithiol ar gyfer cofrestru tir.
— Creu Cofrestr Tir gynhwysfawr ar gyfer Cymru a Lloegr.

**Darparu gwasanaeth electronig**

— Cyflwyno system trawsgludo electronig ar gyfer cyflawni'r rhan fwyaf o drafodion eiddo.

**Datblygu busnes**

— Datblygu amrywiaeth ehangach o wasanaethau i weithwyr proffesiynol eiddo, y cyhoedd ac eraill.

Ym mis Chwefror 2009, roedd y Bwrdd Gweithredol wedi cymeradwyo dwy strategaeth newydd ar gyfer ymgysylltu â'n cwsmeriaid. Bydd y rhain yn gwireddu dyheadau Glasbrint y Gofrestrfa Tir i fod yn sefydliad 'unedig' cyflawn sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid a fydd yn ateb anghenion cwsmeriaid a nodau strategol y Gofrestrfa Tir, gan felly cynnig buddion allweddol i'r ddau. Mae'r strategaeth gyntaf yn canolbwyntio ar weithredu strwythur Rheoli Ymgysylltu â Chwsmeriaid. Bydd y strwythur newydd hwn yn sicrhau bod ein cynhyrchion statudol ac anstatudol, gwasanaethau a gweithgareddau sianel yn cael eu datblygu a'u mireinio yn seiliedig ar anghenion ac ymddygiad cwsmeriaid. Caiff hyn ei gefnogi ymhellach gan strategaeth Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, a fydd yn darparu safbwyntiau manwl cwsmeriaid ac offer i greu a rheoli cysylltiadau cwsmeriaid yn well ar draws pob sianel cwsmeriaid. O ganlyniad i'r strategaethau newydd hyn, mae nifer o'n meysydd allweddol i'w datblygu ac amcanion strategol mwy tymor hir wedi newid o 2009/10 ymlaen fel a ganlyn.

**Ymgysylltu â chwsmeriaid a gwasanaeth cwsmeriaid**

— Parhau i wella'r gwasanaethau a ddarperir i'n cwsmeriaid trwy adnabod eu hanghenion a'u hymddygiad.

**Darparu gwasanaeth electronig**

— Cyflwyno gwasanaethau electronig pellach ar gyfer cyflawni nifer cynyddol o drafodion eiddo.

**Datblygu cwsmeriaid a busnes**

— Datblygu amrywiaeth ehangach o gynhyrchion a gwasanaethau statudol ac anstatudol 'gwerth ychwanegol' sy'n ateb anghenion ein cwsmeriaid.

Er mwyn sicrhau ein bod yn llwyddo'n flynyddol yn erbyn ein hamcanion strategol mwy tymor hir, bydd targed perfformiad yn cael ei osod ar gyfer y Gofrestrfa Tir ar gyfer pob un o'n meysydd datblygu. Mae'r targedau ar gyfer 2008/9 a'n perfformiad yn eu herbyn i'w gweld ar y tabl ar dudalen 10 o dan yr adran *Meysydd datblygiad strategol.*

# Golwg ar y flwyddyn hon

## Cyrraedd ein targedau

Roedd y wasgfa gredyd yn ergyd drom i fusnes y Gofrestrfa Tir, gyda'r dirwasgiad yn y farchnad eiddo yn lleihau ein trafodion craidd gan hyd at 75 y cant. Roedd hyn yn golygu ein bod heb gyrraedd ein dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer cost yr uned ac enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd. Ond ni fu ein gwasanaethau i'n cwsmeriaid erioed mor gyflym nac mor gywir. Cyrhaeddwyd pob un o'n targedau eraill a gwnaethpwyd cynnydd ar amrywiaeth o brosiectau a mentrau a fydd yn llunio dyfodol y sefydliad a thrawsgludo. Aethpwyd heibio un garreg filltir bwysig yn yr hydref wrth i nifer y teitlau cofrestredig gyrraedd 22 miliwn, ac o'r rhain mae 17.7 miliwn yn deitlau rhydd-ddaliad.

## Lleihau costau

Roedd gostyngiad mewn incwm yn golygu bod rhaid i ni leihau ein costau lle bynnag y bo'n bosibl. Cafodd rhaglen bresennol y Gofrestrfa Tir o uno a chau swyddfeydd ei chyflymu i leihau nifer yr adeiladau sydd gennym. Cynigiwyd pecynnau gadael swydd yn gynnar o wirfodd i staff yn y swyddfeydd sy'n uno, ynghyd ag eraill oedd yn agos at oedran ymddeol ac ar raddau gweinyddol. Roedd mwy na 1,000 wedi manteisio ar y telerau a chafodd 120 pellach eu trosglwyddo i'r Adran Gwaith a Phensiynau. Sefydlwyd Tasglu Gwerth am Arian i geisio cael hyd i ffyrdd o gwtogi ar wario ac mae hyn wedi helpu arbed miliynau o bunnoedd.

## E-drawsgludo

Eleni dechreuodd e-drawsgludo fynd yn fyw ar-lein. Bu'r Gofrestrfa Tir yn datblygu system electronig o drawsgludo i wneud y broses o werthu a phrynu cartrefi yn haws i bawb. Elfennau allweddol system weithredol gyflawn fydd arwystlon electronig (morgeisiau), rhyddhadau (dileu morgais o'r gofrestr) a throsglwyddiadau (newid perchnogaeth). Mae'r ddau cyntaf ar gael erbyn hyn i drawsgludwyr, rhoddwyr benthyg a'u cwsmeriaid. Trwy ei gwaith datblygu cynnyrch arloesol enillodd y Gofrestrfa Tir fedal yn adran rhagoriaeth sefydliadol Gwobrau Diwydiant TG Cymdeithas Cyfrifiaduron Prydain.

## Datblygu'r gofrestr

Roedd yr ymgyrch i annog perchnogion eiddo digofrestredig i gael eu cynnwys ar y Gofrestr Tir o'u gwirfodd yn parhau i fod yn llwyddiannus. Cyrhaeddwyd targed eleni sef cofrestru 325,000 hectar trwy gofrestru gwirfoddol fisoedd cyn diwedd y flwyddyn. Roedd cyflymder y gwaith a chyflwr y farchnad eiddo yn golygu am y tro cyntaf erioed yn ei hanes bod y Gofrestrfa Tir yn prosesu mwy o gofrestriadau gwirfoddol na chofrestriadau cyntaf gorfodol. Aeth timau mewn sawl swyddfa Cofrestrfa Tir ati i fapio patrymau perchnogaeth cymhleth yr Asiantaeth Priffyrdd a chofrestrwyd adeiladau hanesyddol megis Eglwys Gadeiriol Henffordd am y tro cyntaf. Mae digwyddiadau amaethyddol a chefn gwald yn darparu cyfleoedd amhrisiadwy i hybu'r neges cofrestru gwirfoddol ac eleni enillodd trelar arbennig y Gofrestrfa Tir ganmoliaeth yn Sioe y Tair Sir.

## Diwygiadau i'r rheolau

Ar ôl ymarfer ymgynghori helaeth, cyflwynodd y Gofrestrfa Tir newidiadau arwyddocaol i'r Rheolau Cofrestru Tir ym mis Tachwedd. Y nod oedd lleihau'r baich gweinyddol ar gwsmeriaid a'r risg o dwyll gan wella effeithlonrwydd gweithredol. Gwnaethpwyd newidiadau i ddyluniad y ffurflenni cais, a diwyg y cyfyngiadau, a chyflwynwyd datganiadau o wirionedd fel ffordd newydd o gyflwyno tystiolaeth o deitl. Cyflwynwyd gofynion newydd ar gadarnhau hunaniaeth fel mesur i ddiogelu yn erbyn twyll. Croesawyd y newidiadau yn gyffredinol gan ymarferwyr, a thynnwyd sylw atynt yn yr ymgyrch cyfathrebu a oedd yn cynnwys post-dafliadau, erthyglau a dolenni gwefan.

## Cynhyrchion a hyfforddiant cwsmeriaid

Bu'r Gofrestrfa Tir yn creu ac yn marchnata amrywiaeth o gynhyrchion i ateb anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid sy'n newid yn gyson. Maent yn cynnwys adroddiadau cais a chanslo i drawsgludwyr, cyfateb data i'r sector rheoli dyledion a dilysu arwystlon i roddwyr benthyg a'u hasiantau. Mae'r cynhyrchion hyn yn creu incwm ychwanegol i'r sefydliad a hefyd yn cynorthwyo gweithrediad effeithlon y broses drawsgludo. Cânt eu marchnata i gwsmeriaid gan dimau o weithredwyr cyfrifon sy'n cael eu recriwtio o'r tu mewn a'r tu allan i'r Gofrestrfa Tir. Mae sioeau ac arddangosfeydd eiddo a chysylltiedig â'r gyfraith yn darparu cyfleoedd ychwanegol i arddangos y cynhyrchion hyn a'n rhaglen hyfforddi cwsmeriaid.

## Cywirdeb data

Mae gwella ansawdd y data sydd gennym yn flaenoriaeth gyson i'r Gofrestrfa Tir. Mae mentrau amrywiol ar droed, gan gynnwys y prosiect Llinell Lif Gwella Ansawdd i wella cyflwr y map mynegai y caiff pob cynllun cofrestru ei dynnu ohono. Gyda'r dirwasgiad yn y farchnad eiddo yn rhoi cyfle i ni neilltuo adnoddau sylweddol i'r gwaith, aeth timau'r prosiect heibio'r nod o brosesu 2 miliwn polygon - sef ffigurau amlochrog sy'n cael eu creu'n electronig ac yn cynrychioli stent cofrestredig teitl ar y map mynegai. Yn y pen draw bydd hyn yn cynnig modd cyhoeddi'r map mynegai ar-lein.

## Partneriaid a chydweithredu

Prin yw'r prosiectau sy'n datblygu heb gymorth, cefnogaeth a dealltwriaeth cwsmeriaid a phartneriaid eraill. Mae'r Gofrestrfa Tir yn sicrhau ei bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf trwy ymgynghori ag amrywiaeth o grwpiau defnyddwyr yn gyson. Bu bob amser ddimensiwn rhyngwladol cryf i'n gwaith ac rydym yn parhau i gydweithio â chofrestrfeydd tir o bob cwr o'r byd, gan gynnwys helpu gwledydd sy'n datblygu i wella eu systemau cofrestru, a chymryd rhan yn y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Ewropeaidd. Mae ein cyflenwyr corfforaethol ymysg ein partneriaid masnachol pwysicaf, nid lleiaf yn ystod argyfwng economaidd, a buom yn ceisio hybu perthynas fwy rhagweithiol. Llofnodwyd contract mawr, pum mlynedd, newydd sy'n werth £50 miliwn gyda'r cwmni TG Steria i ddarparu ein gwasanaethau TG wedi'u dosbarthu, sy'n cynnwys byrddau gwaith, argraffwyr, allrwyd a rhwydweithiau.

## Lles y gweithlu

Mae strwythur adnoddau dynol (AD) sy'n seiliedig ar dimau personél ym mhob swyddfa leol yn cael ei ddisodli gan system sy'n rhoi mwy o gyfrifoldeb i reolwyr llinell, gyda chefnogaeth tîm canolog o arbenigwyr AD. Bydd y rhaglen, Gweddnewid TG, yn cynnig dull modern, hyblyg ac ymatebol i'r Gofrestrfa Tir reoli ei staff. Mae'r newid wedi golygu rhoi hyfforddiant dwys i reolwyr llinell a threialu'r system mewn un swyddfa cyn ei chyflwyno'n raddol ar draws y sefydliad. Mae staff wedi parhau i elwa o ymgyrchoedd iechyd a lles rheolaidd, megis annog pawb i fynd allan o'r swyddfa i fynd am dro.

## Chwaraeon a chymdeithasol

Y ddau ddigwyddiad arbennig yng nghalendr chwaraeon a chymdeithasol y Gofrestrfa Tir yw'r ras gyfnewid a'r diwrnod chwaraeon. Mae'r ras gyfnewid yn ddigwyddiad cerdded, rhedeg a beicio sy'n dwyn ynghyd pobl ar draws y sefydliad mewn rhan ddeniadol o Gymru a Lloegr - Wal Hadrian yn yr achos hwn. Cynhaliwyd y diwrnod chwaraeon yng Nghaerefrog, gyda diwrnod o gystadlaethau chwaraeon a pharti gyda'r hwyr. Roedd y cwis cenedlaethol wedi denu tuag 20 o dimau i Blackpool a chynhaliwyd cystadlaethau'r celfyddydau a ffotograffiaeth gan Swyddfa Penbedw. Daeth aelodau oes - cyn-aelodau staff sydd wedi cadw cysylltiad uniongyrchol â'r Gofrestrfa Tir - ynghyd ym mis Mehefin ar gyfer eu cinio blynyddol yn y Brif Swyddfa.

# Ein perfformiad

## Ein dangosyddion perfformiad allweddol

Yn ogystal â gosod y targedau perfformiad allweddol ar gyfer ein meysydd datblygu, bob blwyddyn bydd yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn gosod targedau i'r Gofrestrfa Tir ar gyfer ein dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) er mwyn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn parhau i gael gwasanaeth cofrestru tir rhagorol.

Mae cynnydd tuag at gyflawni'r targedau DPA hyn yn cael ei fonitro drwy'r flwyddyn gan system rheoli gwybodaeth gadarn, a chyhoeddir gwybodaeth am berfformiad mewn gwahanol fformatau yn rheolaidd.

Mae ein perfformiad yn erbyn y targedau DPA a'r mesurau perfformiad busnes ehangach ar gyfer 2008/9 i'w weld yn y tablau canlynol.

## Ein perfformiad yn erbyn ein targedau dangosydd perfformiad allweddol 2008/9

| | Targed 2008/9 | Cyflawnwyd 2008/9 |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth cwsmeriaid** | | |
| ***Cyflymder*** | | |
| Canran y ceisiadau am gopi swyddogol a chwiliad swyddogol a broseswyd cyn pen dau ddiwrnod gwaith | 98 | 98 |
| Canran yr holl gofrestriadau a broseswyd cyn pen 18 diwrnod gwaith | 80 | 91.7 |
| ***Cywirdeb*** | | |
| Canran y cofrestriadau a broseswyd heb unrhyw gamgymeriadau | 98.5 | 98.9 |
| ***Bodlonrwydd cyffredinol*** | | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio'r gwasanaeth cyffredinol a gafwyd gan y Gofrestrfa Tir yn ardderchog, da iawn neu dda | Yn well na 95 | 96.8 |
| **Ariannol** | | |
| Canran enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd[1] | 3.5 | 0 |
| **Effeithlonrwydd** | | |
| Cost yr uned mewn termau arian parod[2] *(termau real[3])* | £29.98 *(£20.07)* | £30.68 *(£20.54)* |
| **Meysydd datblygiad strategol** | | |
| ***Gwasanaeth cwsmeriaid*** | | |
| Sefydlu canolfan cyswllt cwsmeriaid i gefnogi defnyddwyr y porthol ac e-drawsgludo | | Cyflawnwyd - canolfan yn weithredol Awst 2008 |
| ***Cofrestru tir*** | | |
| Trwy gofrestru gwirfoddol, ychwanegu 325,000 hectar arall o dir i gyfanswm arwynebedd y tir rhydd-ddaliad cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | | Cyflawnwyd 633,316 hectar |
| ***Darparu gwasanaeth electronig*** | | |
| Cyflwyno prototeip o'r gwasanaeth cofrestru e-arwystlon (ein e-weithred gyntaf - arwystl electronig mewn ffurf safonol (e-CSF)) | | Cyflawnwyd ar 24 Mawrth 2009 |
| ***Datblygiad busnes arall*** | | |
| Sicrhau cyfraniad o werthiannau Gwasanaethau Masnachol, ar ôl ystyried costau uniongyrchol a chostau datblygu cynnyrch, o 8 y cant o'r incwm | | Cyflawnwyd 42.9% |

[1] Gweler nodyn 27 (tudalen 59)
[2] Yn seiliedig ar y datchwyddwr Cynnyrch Domestig Gros a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ar 24 Ebrill 2009 (blwyddyn sylfaen 1992/3).
[3] Cost yr uned mewn termau real yn y flwyddyn sylfaen 1992/3 oedd £30.65.

# Ein perfformiad busnes ehangach ar gyfer 2008/9

| | Cyflawnwyd 2007/8 | Cyflawnwyd 2008/9 |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth cwsmeriaid** | | |
| ***Cyflymder*** | | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio cyflymder gwasanaeth ceisiadau am gopi swyddogol a chwiliad swyddogol yn ardderchog, da iawn neu dda | 99.0 | 98.2 |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio cyflymder gwasanaethau cofrestriadau yn ardderchog, da iawn neu dda | 91.6 | 96.3 |
| Nifer y diwrnodau a gymerwyd i brosesu: | | |
| cofrestriadau cyntaf | 12 | 5 |
| prydlesi gwaredol | 12 | 5 |
| trosglwyddiadau o ran | 12 | 6 |
| deliadau â'r cyfan | 5 | 3 |
| copïau swyddogol | 2 | 2 |
| chwiliadau swyddogol | 1 | 1 |
| Canran yr ohebiaeth gyffredinol (llythyrau, ffacsys ac e-byst) sy'n cael ymateb cyn pen pum niwrnod gwaith | 96 | 97 |
| ***Cywirdeb*** | | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio cywirdeb ac ansawdd cofrestriadau yn ardderchog, da iawn neu dda | 94.2 | 95.3 |
| ***Bodlonrwydd cyffredinol*** | | |
| Canran y cwsmeriaid sy'n graddio gwasanaeth cyffredinol y Gofrestrfa Tir yn ardderchog neu dda iawn | 84.4 | 83.3 |
| **Pobl** | | |
| Nifer cyfartalog o ddiwrnodau hyfforddi y pen | 8.59 | 5.30 |
| Absenoldeb salwch cyfartalog y pen (diwrnodau) | 10.60 | 8.80 |
| **Strategol** | | |
| Nifer y teitlau cofrestredig (miliynau) | 21.626 | 22.154 |
| Canran arwynebedd tir rhydd-ddaliad a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr[1] | 63.99 | 69.4 |
| Nifer y cofrestriadau: | | |
| cofrestriadau cyntaf | 246,742 | 319,152 |
| rhyddhadau | 2,541,679 | 1,708,175 |
| morgeisiau | 2,592,905 | 1,651,336 |
| trosglwyddiadau am werth | 1,401,520 | 734,224 |
| prydlesi | 228,988 | 185,616 |


[1] Yn seiliedig ar fynegeion

## Gwaith a dderbyniwyd ac a gynhyrchwyd

Yn ystod 2008/9 gwelwyd arafu mawr yn y farchnad eiddo, gyda phrisiau tai yn gostwng, sefydliadau ariannol yn tynnu'n ôl neu'n cyfyngu'n sylweddol ar forgeisiau a thrafodion eiddo a morgais yn crebachu. O ganlyniad fe leihaodd ein llwyth gwaith ac roedd y gostyngiad yn y gwaith a dderbyniwyd wedi cael effaith ddifrifol ar ein sefyllfa ariannol. Dangosir y gostyngiad yn ein gwaith sylfaenol yn y graff (i'r dde), sy'n dangos cymhariaeth fisol â'r gwaith a dderbyniwyd yn 2007/8 ar gyfer deliadau a cheisiadau am ryddhad/trosglwyddiad/arwystl.

Yn gyffredinol fe ostyngodd y gwaith a dderbyniwyd gan 26.3 y cant yn erbyn y gwaith a dderbyniwyd ar gyfer 2007/8. Derbyniwyd 26,732,720 o geisiadau yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn hafal i uned a gwblhawyd ar gyfer 2008/9 o 12,085,533, o'i gymharu â'r rhagolwg cyllideb sef 13,521,375. Ar 11,528,763, mae nifer y ceisiadau am wasanaethau cychwynnol a dderbyniwyd wedi gostwng gan 21.7 y cant o'i gymharu â cheisiadau'r flwyddyn flaenorol, sef 14,718,097 o geisiadau. Y gwaith a gynhyrchwyd am y flwyddyn oedd 26,790,052 o geisiadau, sef 26.2 y cant yn llai na'r hyn a gyflawnwyd ar gyfer 2007/8. Dangosir manylion llawn ein llwyth gwaith y flwyddyn hon yn Atodiad 1.

### Effaith y wasgfa gredyd ar ryddhadau, trosglwyddiadau ac arwystlon




## Bodlonrwydd cyffredinol cwsmeriaid

Mae canlyniadau ein cyfweliadau ffôn bodlonrwydd cwsmeriaid yn dangos ymateb cadarnhaol iawn i'r Gofrestrfa Tir gyda 96.8 y cant yn graddio ein gwasanaeth cyffredinol yn ardderchog, da iawn neu dda yn erbyn ein targed DPA sef yn well na 95 y cant. Mae hyn yn gyfwerth â'r radd bodlonrwydd a gafwyd yn 2007/8, sef 97.2 y cant. Hefyd roedd 90.3 y cant wedi graddio'r Gofrestrfa Tir ar sail gwerth am arian cyffredinol yn ardderchog, da iawn neu dda, ac roedd 82 y cant yn cytuno'n gryf â'r datganiad bod y Gofrestrfa Tir yn wasanaeth cyhoeddus proffesiynol, effeithlon a chwrtais.

Yn ogystal, dangosodd ein harolwg bod staff y Gofrestrfa Tir wedi derbyn graddfeydd uwch na'r cyfartaledd (ardderchog neu dda iawn) ar draws pob gwasanaeth o ran darparu gwybodaeth ac arweiniad, yn enwedig cymwynasgarwch a chwrteisi (79.4 y cant) a gwybodaeth a chymhwysedd (70.3 y cant).

## Effeithlonrwydd

Nid oeddem wedi cyrraedd ein targed cost yr uned arian parod, a'r ffigur ar ddiwedd y flwyddyn oedd £30.68 yn erbyn targed o £29.98.

## Ariannol

Nid oeddem wedi cwrdd â'n targed ar gyfer Enillion ar Gyfalaf Cyfartalog a Ddefnyddiwyd sef 3.5 y cant

gydag alldro o 0 y cant. Yn unol ag egwyddorion y gronfa fasnachu sef 'cymryd un flwyddyn gyda'r llall', yr enillion ar y cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd dros bum mlynedd, gan gynnwys y colled presennol, oedd 8.7 y cant. Fe welwch fanylion pellach am ein hincwm a'n gwariant ar dudalen 29.

## Cywirdeb

Cyrhaeddwyd ein DPA ar gyfer cywirdeb gwaith achos. Proseswyd 98.9 y cant o'r holl achosion heb unrhyw gamgymeriadau yn erbyn y targed o 98.5 y cant (cyflawnwyd 98.9 y cant yn 2007/8).

Roedd canlyniadau ein harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid yn dangos bod 95.3 y cant o gwsmeriaid yn graddio cywirdeb ac ansawdd gwaith achos yn 2008/9 yn ardderchog, da iawn neu dda o'i gymharu â 94.2 y cant y flwyddyn flaenorol.

Canran y cwsmeriaid oedd wedi graddio cywirdeb ac ansawdd cofrestriadau wedi'u cwblhau yn ardderchog (26.4 y cant) neu'n dda iawn (46.3 y cant) oedd 72.7 y cant o'i gymharu â 65.4 y cant y flwyddyn ddiwethaf.

## Cyflymder

Hefyd cyrhaeddwyd ein DPA o brosesu 80 y cant o'r holl gofrestriadau cyn pen 18 diwrnod gwaith, gyda 91.7 y cant wedi'u cwblhau o fewn y targed ac 87.6 y cant wedi'u cwblhau cyn pen 15 diwrnod. Yn ystod 2007/8, y canlyniadau oedd 88.1 y cant cyn pen 18 diwrnod ac 84.4 y cant cyn pen 15 diwrnod.

Rydym yn ceisio prosesu deliadau â'r cyfan (lle nad oes angen diwygio'r cynllun teitl) ar 'yr un diwrnod'. Y flwyddyn hon, yn ddyddiol, cwblhawyd mwy na 69.5 y cant o geisiadau o'r fath ar y diwrnod y cawsant eu derbyn (o'i gymharu â ffigur y flwyddyn ddiwethaf sef 61 y cant). Fel arfer roedd y rhai na fu modd i ni eu cwblhau yn aros am gadarnhad gan roddwyr benthyg bod morgais wedi cael ei ryddhau.

Dangosodd canlyniadau ein harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid fod 96.3 y cant o gwsmeriaid yn graddio ein cyflymder gwasanaeth ar waith achos sylweddol ar gyfer 2008/9 yn ardderchog, da iawn neu dda, ac roedd 98.2 y cant yn graddio cyflymder gwasanaethau rhagarweiniol yn ardderchog, da iawn neu dda. Ar gyfer 2007/8 y ffigurau oedd 91.6 y cant a 99 y cant yr un.

## Perfformiad yn erbyn amcanion ein meysydd datblygiad strategol

**Darparu gwasanaeth electronig**. Fe ddathlodd y Gofrestrfa Tir garreg filltir yn ei hanes pan gofrestrodd y morgais cyntaf i'w lofnodi'n electronig. Cafodd y morgais, neu'r e-arwystl, o blaid Cymdeithas Adeiladu Coventry, ei lofnodi'n electronig gan y rhoddwr benthyg a'i gofrestru am 11.20am ar 24 Mawrth 2009. Mae'r achlysur cofiadwy hwn yn gam pwysig yn rhaglen y Gofrestrfa Tir o gyflwyno gwasanaethau electronig newydd ac yn helpu i wneud trafodion eiddo yn haws i bawb.

**Cofrestru tir**. Mae creu cofrestr tir gynhwysfawr yng Nghymru a Lloegr yn hollbwysig i'r Gofrestrfa Tir. Bydd yn golygu bod gan bob tirfeddiannwr cofrestredig y diogelwch cyfreithiol gorau posibl a bod prynwyr yn cael mynediad i wybodaeth dda am deitlau, gan wneud prynu a gwerthu eiddo yn haws i bawb. Yn 2008/9, ychwanegwyd 839,207 hectar arall (neu 5.5 y cant) o dir rhydd-ddaliad yng Nghymru a Lloegr at y gofrestr, sy'n golygu bod tua 69.4 y cant wedi'i gofrestru ar hyn o bryd.

Trwy 2008/9, roedd swm y gwaith gwirfoddol a broseswyd yn arwyddocaol. Yn erbyn ein targed o ychwanegu 325,000 hectar pellach o dir i gyfanswm arwynebedd y tir rhydd-ddaliad cofrestredig yng Nghymru a Lloegr trwy gofrestru gwirfoddol, cyrhaeddwyd ffigur o 633,316 hectar gyda chymorth rhai cofrestriadau nodedig, sef Lincoln's Inn, Temple Balsall (pencadlys Marchogion y Deml Warwig yn y 12fed ganrif), Eglwys Gadeiriol Henffordd (cartref un o fapiau hynaf Prydain) ac Ironbridge. Yn ogystal, mae cofrestru safle Gemau Olympaidd 2012 yn mynd rhagddo'n dda. Mae'r gweithgaredd cynyddol hwn ar ddatblygu cofrestru yn ymateb cadarnhaol i'r gostyngiad yn y gwaith a dderbyniwyd, gyda'n cwsmeriaid newydd yn cael eu darbwyllo o fanteision cofrestru er gwaetha'r hinsawdd economaidd ansicr.

**Gwasanaeth cwsmeriaid**. O ddydd Llun 15 Medi 2008, bu modd i'n timau Marchnata a Gwerthu gofrestru cwsmeriaid i ddefnyddio gwasanaeth porthol y Gofrestrfa Tir. Mae'r porthol yn llwybr i'n cenhedlaeth newydd o e-wasanaethau, gan gynnwys e-arwystlon, e-ryddhadau ac e-ddogfennau, ac mae'n gam pwysig ymlaen yn y gwaith o gyflwyno system trawsgludo electronig gyflawn.

Mae'r porthol yn borth electronig wedi'i gysylltu â gwasanaethau gwybodaeth electronig, y gellir ei gyrchu gan gwsmeriaid sydd wedi cofrestru. Yn dibynnu ar gytundeb o ddewis y cwsmer, mae'n bosibl y byddant hefyd yn gallu ymgymryd â swyddogaethau rhoddwr benthyg fel rhyddhadau ac arwystlon electronig. Bydd trawsgludwyr yn gallu cyflwyno dogfennau sy'n cynnwys llofnodion electronig trwy ddulliau electronig maes o law.

Cafodd ein porthol ei lansio i gychwyn i nifer cyfyngedig o gwsmeriaid peilot, gan ddisodli'r Gofrestrfa Tir Uniongyrchol, a lluniwyd prosiect mudo i drosglwyddo'r holl gwsmeriaid presennol i'r porthol. Er mwyn trin ceisiadau ac ymholiadau am wasanaethau'r porthol, sefydlwyd canolfan cyswllt cwsmeriaid i gefnogi defnyddwyr porthol ac e-drawslgudo yn swyddfa Cymru oedd yn weithredol o Awst 2008. Yn ystod Chwefror 2009, sefydlwyd cyfleusterau canolfan cyswllt cwsmeriaid wrth gefn yn swyddfeydd Plymouth a Chaerloyw, gan felly creu canolfan cyswllt cwsmeriaid rhithwir.

## Safonau gwasanaeth

Cyhoeddir ein targedau safonau gwasanaeth, a'n llwyddiant yn erbyn y safonau ar ein gwefan www.cofrestrfatir.gov.uk yn ogystal â chael eu harddangos yn ein canolfannau gwybodaeth cwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr.

Rhoddir gwybodaeth reolaidd i bwyllgorau ymgynghorol ymarferwyr hefyd. Mae gwybodaeth am ein perfformiad yn erbyn y targedau hyn yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan. Mae ein cynllun busnes blynyddol yn cynnwys manylion llawn ein dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau ac fe'u cyhoeddir ar ein gwefan.

## Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol

Mae'r Adran Pridiannau Tir yn gweithredu o dan awdurdod Deddf Pridiannau Tir 1972. Mae'r adran yn cadw cofrestri o Bridiannau Tir, gweithrediadau sy'n aros, gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill sydd wedi'u cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo sydd heb eu cofrestru o dan y Deddfau Cofrestru Tir.

Mae'r Adran Credydau Amaethyddol yn gyfrifol am gadw cofrestr o fenthyciadau tymor byr gan fanciau o dan Ran II o Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928. Gwarentir y pridiannau hyn ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill y ffermwr.

Cyfanswm cyfunedig y ceisiadau a gafodd eu trin gan yr adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol y flwyddyn hon oedd 3,039,947, sy'n cynrychioli gostyngiad o 37.2 y cant o'i gymharu â'r cyfansymiau ar gyfer 2007/8.

Cyfanswm y chwiliadau a broseswyd oedd 2,757,907, sy'n ostyngiad o 39.6 y cant.

Cynyddodd gyfran y ceisiadau am chwiliad swyddogol a chopi swyddogol a dderbyniwyd dros y ffôn, mynediad uniongyrchol a'r ffacs i 88.9 y cant o gyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd y flwyddyn hon, o'i gymharu ag 87 y cant yn 2007/8, gyda 91.8 y cant o geisiadau am gopi swyddogol yn cael eu cyflwyno fel hyn. Erbyn hyn mae wyth deg y cant o chwiliadau Pridiannau Tir yn cael eu prosesu trwy'r Gofrestrfa Tir Uniongyrchol a'r Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol. Gostyngodd ganran y chwiliadau ffôn a gwblhawyd fel cyfran o gyfanswm y ceisiadau am chwiliadau i 8.7 y cant o'i gymharu ag 13 y cant y flwyddyn flaenorol.

### Yr Adran Credydau Amaethyddol

| Blwyddyn | Cofrestriadau newydd | Dileadau a chywiriadau | Chwiliadau |
|---|---|---|---|
| 2006/7 | 1,250 | 860 | 4,356 |
| 2007/8 | 1,267 | 808 | 4,269 |
| 2008/9 | 1,159 | 917 | 4,120 |

### Yr Adran Pridiannau Tir

| Math o gais | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2008/9 | Canran yr amrywiad o'i gymharu â 2007/8 |
|---|---|---|
| Cofrestriadau newydd, cywiriadau ac adnewyddiadau | 190,403 | +11 |
| Dileadau | 19,910 | -20 |
| Chwiliadau swyddogol: | | |
| — Chwiliadau llawn | 515,495 | -19.8 |
| — Chwiliadau wedi'u cyfyngu i fethdaliad | 2,242,412 | -42.8 |
| Copïau swyddogol | 65,531 | -13.6 |
| **Cyfanswm** | **3,033,751** | **-37.3** |

## Deddfwriaeth

Daeth Rheolau Cofrestru Tir (Diwygiad) 2008 i rym ar ddydd Llun 10 Tachwedd 2008 yn dilyn ymgynghoriad â chwsmeriaid o Hydref 2007 i Ionawr 2008.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus i gynnig bod dau ddigwyddiad newydd (penodi ymddiriedolwyr tir newydd a rhannu tir ymysg buddiolwyr ymddiriedolaeth) yn sbardunau sy'n gofyn am gofrestriad cyntaf y tir a effeithir gan y digwyddiadau hynny. Cyflwynwyd cynnig i'r Gweinidog a daeth Gorchymyn o dan adran 5(1) o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i rym ar 6 Ebrill 2009.

## Y Pwyllgor Rheolau

Ailgyfansoddwyd y Pwyllgor Rheolau o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu cyngor a chymorth i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor o ran llunio rheolau newydd neu ddiwygiedig o dan y Ddeddf. Mae barnwr yr Uchel Lys yn ei gadeirio ac mae ei aelodau yn cynnwys y Prif Gofrestrydd Tir, cynrychiolwyr o'r proffesiwn cyfreithiol, rhoddwyr benthyg morgeisiau a syrfewyr ynghyd ag unigolyn sydd wedi'i benodi ar sail ei brofiad o faterion defnyddwyr. Nid yw'r cadeirydd na'r aelodau yn cael eu talu am eu gwaith ar y pwyllgor. Mae'r pwyllgor yn cwrdd fel y bo angen i ystyried rheolau newydd neu ddiwygiedig.

Nid oedd unrhyw newidiadau i aelodaeth y pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Roedd y Pwyllgor Rheolau wedi cwrdd am ddau ddiwrnod ym Mai 2008 i ystyried y Rheolau Cofrestru Tir (Diwygiad) drafft 2008. Ym Mawrth 2009, roedd y pwyllgor wedi ystyried, trwy ohebiaeth, Orchymyn Ffioedd Cofrestru Tir drafft.

## Yr Uned Ryngwladol

Mae ein Huned Ryngwladol yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio'n effeithiol â'n rhwydwaith rhanddeiliaid dramor, ein bod yn cael ein cynrychioli ar fforymau rhyngwladol perthnasol a'n bod yn cyfrannu lle bo'n briodol at nodau strategol ehangach y Llywodraeth, gan gynnwys darparu arbenigedd y DU i wledydd sy'n datblygu ac yn trawsnewid.

Yn ystod 2008/9, rhoddwyd cymorth i'r awdurdod cofrestru tir yn Columbia, ar gais Llysgenhadaeth Prydain yn Bogotá. Hefyd gwnaethpwyd diweddariad pellach i system cofrestru tir Alderney, ac roeddem wedi parhau i roi cymorth i raglen Diogelwch, Cyfiawnder a Thwf Cyngor Prydain yn Nigeria, wedi'i chyllido gan yr Adran dros Ddatblygiad Rhyngwladol.

Rydym wedi cynnal ein cysylltiadau cryf â'n cymheiriaid dramor ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf buom yn gyfranogwyr gweithgar ar Weithgor Gweinyddu Tir Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (UNECE). Mae Pennaeth yr Uned Ryngwladol yn ein cynrychioli ar Fiwrô'r Gweithgor, ac yn ystod y cyfnod hwn fe gymerodd ran mewn cenhadaeth UNECE i adolygu rheoli a gweinyddu tir yn Kyrgyzstan. Rydym wedi parhau i fod yn aelodau gweithgar o Gymdeithas Cofrestrfa Tir Ewrop, gan ystyried materion o bryder rhyngwladol megis Papur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar Integreiddio Marchnadoedd Credyd Morgais yr UE, ac rydym wedi cymryd drosodd gynrychiolaeth ffurfiol y DU ar y Pwyllgor Parhaol ar Stentiau yn yr Undeb Ewropeaidd, rôl a gafodd ei chyflawni cyn hyn gan yr Arolwg Ordnans.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i groesawu nifer fawr o ymwelwyr o dramor, gan ddarparu rhaglenni astudio pwrpasol i ateb eu meysydd diddordeb arbennig, megis gwasanaeth cwsmeriaid ac e-drawsgludo. Mae ymweliadau o'r fath yn rhoi cyfle i ni rannu profiad ac arbenigedd, a meithrin perthynas â chydweithwyr o dramor sy'n gweithio yn yr un maes. Y flwyddyn hon rydym wedi croesawu ymweliadau astudio gan ein cymheiriaid a sefydliadau eraill yn Albania, Awstralia, Bangladesh, Bostwana, Tsiena, Cyprus, Gambia, Ghana, Seland Newydd, Nigeria, Portiwgal, Saudi Arabia, Swaziland a Gwlad Thai.

## Cyfrifoldeb corfforaethol

Mae'r Gofrestrfa Tir yn ymrwymedig i arfer da o ran cyfrifoldeb corfforaethol, sy'n ein helpu ni i ddeall yr effaith a gânt ar y bobl rydym yn gweithio â nhw, ein rhanddeiliaid, y cymunedau lle rydym yn gweithredu a'r amgylchedd rydym yn byw ac yn gweithio ynddo.

Mae ein haelodaeth o Fusnes yn y Gymuned wedi cyfrannu at ddiweddaru ein cynllun gweithredu cyfrifoldeb corfforaethol. Mae ein grŵp llywio yn hybu ac yn annog ymddygiad busnes sy'n gymdeithasol gyfrifol, gan ganolbwyntio ar gyflawni ein cyfrifoldeb corfforaethol a rhwymedigaethau datblygiad cynaliadwy yn llwyddiannus.

Mae ein polisi gwirfoddoli newydd yn rhoi persbectif newydd ac yn cael ei dreialu mewn dwy swyddfa. Mae staff yn cael cyfle i wella eu datblygiad personol trwy weithgareddau gwirfoddoli a chynyddu eu hymwybyddiaeth o faterion cymunedol trwy weithio mewn amgylchedd hollol newydd, cwrdd â gweithio gyda phobl newydd.

Rydym wedi cwblhau adolygiad o'n Cynllun Gweithredu Datblygiad

Cynaliadwy ac yn gwneud cynnydd da o ran plannu cynaliadwyedd yn unol â gofynion y Comisiwn Datblygiad Cynaliadwy. Hefyd rydym wedi mabwysiadu fframwaith hyblyg y llywodraeth ar gyfer caffael cynaliadwy ac yn ymrwymedig i ofynion y Strategaeth TGCh Gwneud y Llywodraeth yn fwy Gwyrdd yng Ngorffennaf 2008.

Rydym wedi parhau ag archwiliadau allanol o'n hachrediad i'r Safon Amgylcheddol ISO14001, gan ddangos effeithiolrwydd ein System Rheoli Amgylcheddol a pharhau i gael ardystiad.

Rydym yn symud ymlaen yn dda yn y rhan fwyaf o feysydd tuag at gyrraedd y targedau a osodwyd ar gyfer gweithrediadau cynaliadwy ar ystad y llywodraeth, ond mae rhywfaint o waith gennym i'w wneud o hyd ar leihau allyriadau carbon o gerbydau ffordd, sy'n parhau i fod yn darged heriol i ni.

| Disgrifiad | Targed y llywodraeth | Cyflawniad ar 31 Mawrth 2009 |
|---|---|---|
| Allyriadau carbon o swyddfeydd | Lleihau allyriadau carbon gan 12.5% erbyn 2010/11, o'i gymharu â lefelau 1999/2000 | Gwelliant presennol 19.1% |
| Allyriadau carbon o gerbydau ffordd | Lleihau allyriadau carbon o gerbydau ffordd a ddefnyddir ar gyfer gweithrediadau gweinyddol y llywodraeth gan 15% erbyn 2010/11, o'i gymharu â lefelau 2005/6 | Cynnydd o 12.1% |
| Effeithlonrwydd ynni | Adrannau i gynyddu eu heffeithlonrwydd ynni y $m^2$ gan 15% erbyn 2010 o'i gymharu â lefelau 1999/2000 | Gwelliant o 14.5% |
| Ailgylchu | Adrannau i gynyddu eu ffigurau ailgylchu i 40% o'u gwastraff erbyn 2010 | 86.1% yn cael ei ailgylchu |
| Defnyddio dŵr | Lleihau'r dŵr a ddefnyddir gan 25% ar yr ystad gyda a heb swyddfeydd erbyn 2020 o'i gymharu â lefelau 2004/5 | Lleihad o 10.1% |

## Gwybodaeth agored a chyflawn

Mae amrywiaeth gynhwysfawr o wybodaeth ymarferol am ein gwasanaethau a'n gweithdrefnau ar gael o bob canolfan gwybodaeth cwsmeriaid. Mae pob cyhoeddiad a ffurflen cofrestru tir ar gael i'w llwytho i lawr yn rhad ac am ddim o'n gwefan (www.cofrestrfatir.gov.uk) a hefyd yr holl ffurflenni swyddogol sydd eu hangen i gyflwyno ceisiadau cofrestru tir. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys tudalen wedi'i neilltuo i ateb cwestiynau cyffredin.

Yn ystod 2008/9, roedd y Gofrestrfa Tir wedi adnabod 95 cais ysgrifenedig am wybodaeth wedi'u cyflwyno o dan ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

**Hygyrchedd a hybu dewis**
Mae ein prif gwsmeriaid yn tueddu i ddod o'r proffesiwn cyfreithiol neu sefydliadau ariannol, ond rydym yn derbyn ceisiadau ac ymholiadau gan amrywiaeth o gyrff eraill ac yn uniongyrchol gan y cyhoedd. Cydnabyddwn fod ein cwsmeriaid yn cynnwys pawb sy'n cael eu heffeithio gan ein gwaith.

Gall cwsmeriaid gysylltu â ni eu hunain, neu dros y ffôn, ffacs, e-bost a thrwy'r post. Gall cwsmeriaid proffesiynol sydd â chyfrifon credyd/debyd uniongyrchol amrywiol gyrchu ein gwasanaethau'n electronig trwy'r Gofrestrfa Tir Uniongyrchol/porthol a thrwy Wasanaethau Ffôn, sy'n darparu dull cyflym, cyfleus a syml o wneud cais am nifer o'n gwasanaethau.

Mae Gwasanaethau Ffôn Cymru yn arbenigo mewn enwau Cymraeg ac yn cynnig gwasanaeth Cymraeg.

Gall y cyhoedd gyrchu ein gwybodaeth yn electronig trwy ddefnyddio ein gwasanaeth 'Chwilio am Eiddo'. Mae hyn yn cynnig modd i unrhyw un sydd â mynediad i'r rhyngrwyd i lwytho i lawr cofrestri teitl a chynlluniau teitl a thalu gyda cherdyn credyd neu gerdyn debyd.

Mae ein holl ganolfannau gwybodaeth cwsmeriaid yn cael eu harchwilio ar sail eu hygyrchedd ac mae mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ar gael. Mae staff yn y canolfannau hyn yn cael eu hyfforddi ar ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid o safon i gwsmeriaid anabl a'r rhai sydd ag anghenion arbennig. Rydym yn cadw rhestr o

aelodau staff sy'n gallu defnyddio Iaith Arwyddion Prydain gyda chwsmeriaid. Darparwn gyfleuster ffôn testun ar rif di-dâl ac yn croesawu galwadau trwy Typetalk. Gwasanaethau i gwsmeriaid sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw yw'r rhain.

Gallwn ddarparu dogfennau a chyfarwyddyd mewn amryw o fformatau, ar gais. Mae rheolwyr gwasanaeth cwsmeriaid ym mhob un o'n swyddfeydd wedi cael pecyn gwybodaeth sy'n cynnwys canllawiau ymarferol ar anghenion cwsmeriaid anabl.

Defnyddiwn ein holiadur adborth cwsmeriaid, *Gwerthfawrogwn eich sylwadau,* i asesu'r galw am wybodaeth mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg. Rydym hefyd yn cadw cronfa ddata o staff sy'n gallu siarad ieithoedd eraill i helpu cwsmeriaid sydd ag anghenion iaith arbennig.

**Gwasanaeth Cymraeg**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a bydd yn gohebu â chi yn eich dewis iaith. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i lythyrau a dderbynnir yn Gymraeg ac yn cwrdd â'r un targedau cyflymder gwasanaeth ar gyfer gohebiaeth. Mae gohebiaeth drwy'r ffacs neu ddulliau electronig yn cael ei thrin yn yr un modd. Mae ein gwefan yn ddwyieithog, a gellir cyrchu'r safle Cymraeg drwy www.cofrestrfatir.gov.uk.

Cynigiwn wasanaeth Cymraeg dros y ffôn ac mewn rhai canolfannau gwybodaeth cwsmeriaid a gwasanaeth ffôn. Ein nod yw darparu'r un safon gwasanaeth o ansawdd uchel yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae pob templed cofrestr sy'n cael ei gynhyrchu yn Swyddfa Cymru yn cael ei argraffu'n ddwyieithog. Mae pob pennawd a gwybodaeth safonol ar gofrestri teitl yng Nghymru yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae cofnodion unigol yn ymddangos yn iaith y ddogfen wreiddiol y maent wedi'u seilio arni. I gael mwy o wybodaeth am y gwasanaethau Cymraeg a ddarparwn cysylltwch â:
Cydlynydd yr Iaith Gymraeg, Swyddfa Cymru, Cofrestrfa Tir, Tŷ Cwm Tawe, Ffordd y Ffenics, Llansamlet, Abertawe SA7 9FQ

**Unioni pethau**
Sylweddolwn y gall camgymeriadau fod yn boen, ond weithiau gall pethau mynd o'i le ac mae'n bosibl na fyddwn yn cael pethau'n iawn y tro cyntaf. Croesawn gwynion a darparwn amryw o ddulliau i'w gwneud hi'n bosibl i bobl gwyno. Mae ein taflen gwyno *Unioni pethau* yn esbonio'r drefn ac mae'n cynnwys manylion cyswllt llawn, gan ei gwneud hi'n haws i bobl gwyno yn bersonol, dros y ffôn neu drwy ysgrifennu (gan gynnwys ffacs ac e-bost). Mae ein gwefan yn cynnig modd i gwsmeriaid gwyno ar-lein ac mae hefyd yn cynnwys manylion cyswllt llawn. Hefyd mae rhif rhadffôn i gwsmeriaid sydd am ffonio Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid y Gofrestrfa Tir.

Mae cwynion yn agwedd bwysig ar adborth cwsmeriaid oherwydd gallant amlygu bylchau neu ddiffygion yn y gwasanaeth ac arwain at welliannau. Mae cwsmeriaid yn cael gwybod am y gwelliannau a wneir mewn ymateb i gwynion naill ai'n uniongyrchol neu drwy ein cylchlythyr cwsmeriaid, *Landnet*.

Yn 2008/9, derbyniwyd 2,389 o gwynion (o'i gymharu â 3,037 yn 2007/8), ac o'r rhain ymatebwyd i 92 y cant o fewn ein targed o bum niwrnod (88 y cant yn 2007/8).

## Yr Adolygydd Cwynion Annibynnol

Mae'r Adolygydd Cwynion Annibynnol (ACA) yn cynnal ymchwiliadau diduedd i gwynion gan gwsmeriaid sy'n anfodlon â'r gwasanaeth a gawsant gan y Gofrestrfa Tir ac sydd heb gael eu bodloni gan ein trefn gwyno fewnol. Ym mis Mawrth 2008, roedd yr ACA Jodi Berg wedi ymddeol ar ôl 10 blynedd o wasanaeth ac fe'i holynwyd gan Elizabeth Derrington, cyn-ddirprwy ACA. Mae Ms Derrington yn gyfreithiwr ac yn gyfryngwr cymwysedig gyda phrofiad helaeth ym maes datrys cwynion. Mae hefyd yn Adolygydd Cwynion Annibynnol ar gyfer Asiantaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gogledd Iwerddon.

Mae nifer yr achosion a gyfeiriwyd sy'n arwain at ymchwiliadau ffurfiol gan yr ACA yn parhau ar lefel isel, a dim ond nifer fach o'r gyfran o faterion cwyno unigol sy'n cael ei chynnal.

Mae'r feirniadaeth adeiladol yn yr adroddiadau ar y cwynion hyn yn cael eu hystyried ac mae Tîm Gwerthuso ac Astudio'r ACA yn gweithredu arnynt, tîm a sefydlwyd yn benodol i ystyried argymhellion yr ACA. Mae gwybodaeth am ei gyfarfodydd a'r camau a gymerwyd ar benderfyniadau'r ACA ar gael i holl staff y Gofrestrfa Tir ar ein mewnrwyd.

Mae manylion pellach i'w gweld yn adroddiad blynyddol yr ACA, sydd ar gael ar-lein yn www.icrev.org.uk.

Dim ond un ymateb ffurfiol gafodd ei roi yn ystod y flwyddyn, sef ymateb ffurfiol byr y Gofrestrfa Tir i adroddiad blynyddol yr ACA, yn cymeradwyo'r adroddiad hwnnw, a oedd yn canmol y Gofrestrfa Tir am ei hymateb rhagweithiol parhaus i gwynion.

## Y Gronfa Indemniad

Yn 2008/9, talwyd £10,058,945.39 ar gyfer 1,364 o geisiadau, o'i gymharu â £9,110,218.85 ar gyfer 1,072 o geisiadau yn 2007/8.

Gwelwyd cynnydd yn nifer y ceisiadau a'r swm a dalwyd o ganlyniad i dwyll, megis cofrestru trosglwyddiadau ac arwystlon twyllodrus. Talwyd £5,072,113.43 ar gyfer 62 o geisiadau, cynnydd o £3,953,378.02 ar gyfer 60 o geisiadau yn 2007/8. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi adolygu ein gweithdrefnau atal twyll ac wedi cyflwyno mesurau newydd sy'n bwriadu atal twyll ym maes cofrestru.

Adenillwyd £89,235 o dan ein hawliau digolledu statudol, o'i gymharu â £72,535.89 y flwyddyn ddiwethaf.

### Hawliadau indemniad ar gyfer 2008/9

| **Natur yr hawliad** | **Nifer yr hawliadau** | **Colled sylweddol (£)** | **Costau (£)** | **Canran y cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Stent teitlau cofrestredig | 431 | 1,018,056.69 | 713,363.13 | 17.2 |
| Camgymeriadau/ hepgoriadau o gofnodion cofrestri | 175 | 1,994,887.52 | 433,617.33 | 24.1 |
| Camgymeriadau mewn cynlluniau amrywiol | 45 | 340,128.92 | 46,290.67 | 3.8 |
| Twyll a ffugio | 62 | 4,257,074.48 | 815,038.95 | 50.4 |
| Archwiliadau swyddogol o gynlluniau teitl | 18 | 13,358 | 19,851.29 | 0.3 |
| Camgymeriadau methdaliad | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Chwiliadau swyddogol | 14 | 431.94 | 4,218.95 | 0.05 |
| Copïau swyddogol | 22 | 707.85 | 15,785.28 | 0.2 |
| Camgymeriadau mewn chwiliadau o'r map mynegai | 40 | 74,399.53 | 38,376.27 | 1.1 |
| Camgymeriadau mewn darnau wedi'u ffeilio | 62 | 12,380.83 | 19,250.39 | 0.3 |
| Dogfennau a gollwyd/ camgymeriadau gweinyddol | 495 | 125,434.63 | 116,292.74 | 2.4 |
| Camgymeriadau Pridiannau Tir | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,364** | **7,836,860.39** | **2,222,085** | |
| Taliad gros | | | 10,058,945.39 | |
| Llai'r symiau a adenillwyd o dan hawliau digolledu statudol y Gofrestrfa Tir | | | 89,235 | |
| Indemniad net | | | 9,969,710.39 | |

## Cefnogi ein cwsmeriaid gydag addysg a hyfforddiant

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 wedi cael ei phlannu bellach ac mae hyfforddiant y Gofrestrfa Tir yn ei swyddfeydd dros y blynyddoedd diwethaf wedi cwmpasu'r prif feysydd pwnc o dan y drefn newydd, rydym wedi symud i ffwrdd o'r hyfforddiant wyneb-yn-wyneb torfol rhad ac am ddim ar gyfer ein cwsmeriaid trawsgludo. Yn hytrach, buom yn datblygu rhaglen o hyfforddiant y codir tâl amdani, ond sy'n cynnig mwy o ddewis i'n cwsmeriaid. Mae digwyddiadau hyfforddi wedi'u targedu wedi cael eu cynnal ar hyd a lled y wlad sy'n cynnig dewis o feysydd pwnc i gwsmeriaid trawsgludo ac mae'r un deunyddiau wedi cael eu cynnig fel digwyddiadau hyfforddi mewnol ar gyfer sefydliadau i hyfforddi grwpiau mwy o staff ar yr un pryd. Cynhaliwyd digwyddiadau a sesiynau mewnol ar gyfer cleientiaid preifat ac ymarferwyr y gyfraith teulu yn ogystal â thrawsgludwyr.

Rydym wedi datblygu pecynnau hyfforddi wedi'u hanelu at y rhai nad ydynt yn gyfreithwyr o fewn cwmni cyfreithiol a hefyd i sefydliadau eraill y mae angen iddynt ddeall ein cofrestri ond sydd heb fod yn rhan o'r broses trawsgludo ei hun. Yn ystod y flwyddyn hon, mae gwerthu dysgu'n seiliedig ar CD-ROM wedi bod yn llwyddiannus hefyd, ac rydym wedi dechrau defnyddio seminarau'r we. Bwriadwn ddatblygu'r ddau ymhellach yn y flwyddyn i ddod.

Mae ein Grŵp Addysg a Hyfforddiant yn monitro newidiadau i'r gyfraith ac arferion yn gyson oherwydd mae'n newid y ffordd rydym yn gweithio â'n cwsmeriaid ac mae'n cynnig cymorth wrth i'r newidiadau hynny gael eu cyflwyno. Er enghraifft,

cafodd trawsgludwyr lyfryn gweithredu i esbonio'r newidiadau sydd wedi cael eu cyflwyno gan Reolau Cofrestru Tir (Diwygiad) 2008 fis Tachwedd diwethaf, sy'n cynnwys ffurflenni anodedig a chanllawiau eraill i gyd-fynd â'r llyfrgell o gyfarwyddiadau ymarfer. Roedd yr ysgogiadau newydd a gafodd eu cyflwyno ar 6 Ebrill 2009 wedi newid y ffordd y mae angen i ymddiriedolwyr ymddiriedolaethau tir weithredu mewn rhai amgylchiadau, ac mae cyfarwyddwyd ar gael ar ein gwefan i'w cefnogi pan fydd y sefyllfaoedd hynny'n codi.

Mae'r grŵp wedi parhau i gefnogi cyflwyno e-wasanaethau trwy ddarparu llawlyfrau, nodiadau canllaw a modiwlau hyfforddi ar gyfer cwmnïau sydd eisiau cael cymorth gyda'r penderfyniad neu'r broses gofrestru a chefnogi eu defnyddwyr pan fyddant yn defnyddio'r gwasanaethau o ddydd i ddydd. Bydd y gwaith hwnnw'n parhau wrth i ni ehangu'r sylfaen cwsmeriaid gan ddefnyddio'r gwasanaethau hynny a gwella'r gwasanaethau sydd ar gael ar-lein.

## Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol (GGTC) yn wasanaeth masnachol gyda thair sianel sy'n cynnig chwiliadau ar-lein ac ymholiadau i gyfreithwyr a thrawsgludwyr trwyddedig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r sianeli yn cystadlu yn y farchnadle ac yn gwahaniaethu eu gwasanaethau trwy becynnu a chyflwyno'r wybodaeth i weddu i'w cynulleidfa darged.

Mae chwiliadau'n cael eu hanfon yn electronig ac mae canlyniadau'n cael eu derbyn trwy foth GGTC, sy'n gweithredu fel porth ar gyfer gwybodaeth a gwasanaethau gan nifer o ddarparwyr data.

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi cefnogi'r GGTC o'r cychwyn cyntaf ac rydym yn parhau i fod yn brif ddarparwr data, ochr yn ochr â chyrff eraill megis awdurdodau lleol a chwmnïau cyfleustodau.

Yn unol â gwasanaethau eraill y Gofrestrfa Tir gwelwyd gostyngiad yn nifer y ceisiadau. Mae sianeli'r GGTC yn cynhyrchu incwm ffioedd o fwy na £280,000 bob mis i'r Gofrestrfa Tir ar hyn o bryd.

## Connect Direct

Mae Connect Direct, a gafodd ei lansio yn 2006, yn darparu cysylltiadau busnes i fusnes ac mae wedi'i anelu at gwmnïau chwilio eiddo, gan ddefnyddio sgema XML dros rwydwaith preifat rhithwir. Mae'r gwasanaeth yn apelio at gwmnïau chwilio sy'n gweithredu yn yr un farchnad â'r sianelu GGTC ond nid oes trwydded GGTC ganddynt.

Mae chwiliadau'n cael eu hanfon yn electronig ac mae canlyniadau'n cael eu dychwelyd yn uniongyrchol i'r cwsmer. Mae nifer o'r ceisiadau hyn wedi'u hawtomeiddio'n llawn.

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi gweld gostyngiad yn nifer y sefydliadau sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn oherwydd atgyfnerthu yn y farchnad chwilio eiddo. Fodd bynnag, mae incwm ffioedd wedi cynyddu y flwyddyn hon ac ar hyn o bryd mae'r tri sefydliad sy'n defnyddio Connect Direct yn cyflwyno ceisiadau sy'n cynhyrchu incwm ffioedd o fwy na £200,000 y mis.

## Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Ewropeaidd (GGTE)

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi parhau i gymryd rhan yn natblygiad y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Ewropeaidd (GGTE). Roeddem ymhlith y grŵp cyntaf o awdurdodau cofrestru tir i fynd yn fyw gyda'r gwasanaeth pan gafodd ei lansio'n swyddogol yn Nhachwedd 2006.

O ganlyniad, mae gwasanaethau gwybodaeth tir cenedlaethol Cymru a Lloegr, Lithwania, yr Iseldiroedd, Norwy, Sweden a Gweriniaeth Iwerddon wedi'u cysylltu â'i gilydd ar-lein erbyn hyn, drwy borthol GGTE. Yn amodol ar gysylltiad mae Awstria, yr Eidal (Agenzia del Territorio a Provincia Autonoma di Trento e Bolzano, Servizio Libro Fondiario), yr Alban a'r Ffindir. Mae nifer o wledydd eraill yn trafod a/neu'n cyfrannu at y wefan gan gynnwys Gwlad Belg, Latfia, Slofenia, y Weriniaeth Dsiec, Sbaen a Phortiwgal.

Gweledigaeth GGTE yw bod y man cyswllt cyntaf ar gyfer gwybodaeth tir ac eiddo Ewropeaidd. Mae GGTE yn darparu mynediad uniongyrchol ar-lein i gofrestri swyddogol gwybodaeth tir ac eiddo Ewropeaidd. Yn ogystal mae'n cynnig gwybodaeth gyfeirio werthfawr i gwsmeriaid tanysgrifenedig cofrestrfeydd tir ar weithdrefnau ac arferion cofrestru tir lleol. Mae'r rhestr termau yn hwyluso dealltwriaeth o derminoleg ac yn rhoi cyfieithiadau.

Nod GGTE yn y tymor hir yw darparu mynediad byd-eang rhwydd i wybodaeth tir ac eiddo electronig Ewropeaidd er mwyn hybu benthyca ar draws ffiniau. O 2001 i 2004 cafodd y gwasanaeth ei ddatblygu trwy gymorth cyllid gan raglen eGynnwys y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae'r cynulleidfaoedd targed ar gyfer GGTE yn cynnwys banciau, rhoddwyr benthyg, asiantaethau credyd, cyfreithwyr, gweithwyr proffesiynol cyfreithiol, gwerthwyr tai, yr heddlu, adrannau'r

llywodraeth ac asiantaethau gorfodi. Gall y farchnad amrywiol ddefnyddio'r gwasanaeth at ddibenion gwahanol megis ail chwiliadau eiddo, asesu risg, gwiriadau credyd neu gaffael busnes. Bydd defnyddwyr yn mewngofnodi yn ôl yr arfer i'w darparwr gwybodaeth cofrestru tir cenedlaethol presennol er mwyn cyrchu porthol GGTE a chânt eu bilio fel arfer. Mae'r cyfleuster hwn yn agor marchnad newydd ar gyfer gwybodaeth tir ac eiddo, oherwydd bydd cwsmeriaid y gwasanaethau cysylltiedig yn gallu cael mynediad uniongyrchol bellach i wybodaeth tir o wasanaethau tebyg mewn gwledydd eraill.

## Y Grŵp Marchnata a Gwerthu

Mae'r Grŵp Marchnata a Gwerthu yn cynnwys pedwar maes allweddol: Datblygu Busnes, Datblygu Cynnyrch, Rheoli Cynnyrch a Gwasanaethau Marchnata, pob un dan arweiniad pennaeth adran i gyflawni a datblygu eu swyddogaethau, amcanion a nodau arbennig.

Nod cyffredinol y Grŵp Marchnata a Gwerthu yw:

— hybu gwasanaethau presennol, cynhyrchion a gwasanaethau statudol a 'gwerth ychwanegol'
— adnabod cyfleoedd ar gyfer cynhyrchion a gwasanaeth newydd, 'gwerth ychwanegol' a mireinio cynhyrchion a gwasanaethau presennol i ateb anghenion cwsmeriaid
— adnabod cwsmeriaid a fyddai'n elwa ar fanteision cynnyrch a gwasanaeth 'gwerth ychwanegol' a'u hybu yn unol â hynny
— meithrin perthynas â chwsmeriaid trwy gynyddu mewnwelediad cwsmeriaid, ymgysylltu a chyrraedd grwpiau cwsmeriaid
— darparu cyllid cynyddrannol i'r Gofrestrfa Tir.

Yn ystod 2008/9 ailstrwythurwyd ein timau gwerthu er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa well i feithrin perthynas agosach â chwsmeriaid, adnabod strategaethau ar gyfer twf, cynyddu'r nifer rydym yn ei gyrraedd ac yn ei dreiddio. Yn arbennig, penderfynwyd canolbwyntio ar gwsmeriaid yn hytrach na sectorau'r farchnad. Mae'r adran wedi cael ei hail-frandio fel 'Datblygu Busnes' a phenodwyd Pennaeth Datblygu Busnes.

Penodwyd Cyfarwyddwr Masnachol i gyfeirio'r Grŵp Marchnata a Gwerthu a hefyd cynorthwyo wrth gyflawni dyheadau Glasbrint y Gofrestrfa Tir i fod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid hollol 'unedig' sy'n ateb anghenion cwsmeriaid a nodau strategol y Gofrestrfa Tir heddiw ac yn y dyfodol.

O ganlyniad, mae ein strwythur Rheoli Ymgysylltu â Chwsmeriaid canolog wedi cael ei ddylunio i ateb anghenion ac ymddygiad ein cwsmeriaid. Bydd yn ysgogi datblygiad y busnes cyfan, a hefyd yn helpu ysgogi effeithlonrwydd, darparu refeniw proffidiol cynyddol a chysondeb o ran profiadau cwsmeriaid ar draws mannau cyswllt cwsmeriaid.

Bydd ein strwythur Rheoli Ymgysylltu â Chwsmeriaid yn cael ei gefnogi ymhellach gan ein strategaeth Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, a fydd yn elwa o gael barn cwsmeriaid ar lefel fwy manwl er mwyn sicrhau y gall y Gofrestrfa Tir gynnal a gwella cysylltiadau cwsmeriaid mewn ffordd effeithiol, effeithlon a chyson.

Byddwn hefyd yn adnabod cyfleoedd i'r Gofrestrfa Tir gydweithio'n agosach ag adrannau eraill o'r llywodraeth i adnabod cyfleoedd ar y cyd sy'n cynnig budd i'n cwsmeriaid a'r llywodraeth.

**Perfformiad gwerthu 2008/9 'gwerth ychwanegol' Datblygu Busnes**

Er gwaetha'r amodau masnachu anodd roedd refeniw cynyddol gros o werthiannau 'gwerth ychwanegol' wedi cynyddu 20 y cant yn y 12 mis hyd at Fawrth 2009. Yn ystod 2008/9 roeddem wedi canolbwyntio ar gynhyrchion a gwasanaethau 'gwerth ychwanegol' a oedd wedi llywio effeithlonrwydd mewnol ar gyfer ein cwsmeriaid, megis Dilysu Arwystlon a Syncroneiddio Data.

**E-drawsgludo**

Mae ein timau Datblygu Busnes wrthi'n meithrin cysylltiadau â chwsmeriaid i gyfleu buddiannau gwasanaethau e-drawsgludo, gan ddarparu cymorth un-i-un ar gyfer ein cwsmeriaid wrth iddynt fudo i sianeli a gwasanaethau newydd.

Ein nod yw sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu gwneud y gwasanaethau newydd yn rhan arferol o'u busnes cyn gynted â phosibl yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon i gynnig manteision i'w hunain ac i'r Gofrestrfa Tir.



# Ein pobl

Fel cyflogwr, ceisiwn fod yn sefydliad sy'n batrwm i eraill ac rydym yn falch o'r cyfraniad y mae ein pobl yn ei wneud at lwyddiant y Gofrestrfa Tir. Mae ein diwylliant yn un o gydraddoldeb a bod yn agored. Mae'r Gofrestrfa Tir yn ymrwymedig i drin pobl fel unigolion, gan ddarparu cyfle cyfartal i bob un o'n gweithwyr a thrin ein cwsmeriaid yn gyfartal. Buddsoddwn yn ein pobl er mwyn datblygu'r sgiliau, gallu, cymhelliad ac amgylchedd gwaith cadarnhaol a fydd yn rhoi'r gallu i ni lunio ein dyfodol yn llwyddiannus. Mae achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl llawn gan y Gofrestrfa Tir.

Mae'r newidiadau sy'n codi o'n Glasbrint sefydliadol i strwythur, swyddi, sgiliau ac ystad y Gofrestrfa Tir wedi parhau i gael effaith arwyddocaol ar ein pobl. Mae'r dirywiad yn y farchnad dai wedi arwain at benderfyniad y Gofrestrfa Tir i gyflymu cynlluniau i symleiddio ein hystad a rheoli lleihad mewn lefelau staffio. Yn ystod y flwyddyn, mae'r tîm Adnoddau Dynol (AD) wedi bod yn allweddol o ran helpu aelodau staff y Gofrestrfa Tir i wynebu, cynllunio a pharatoi ar gyfer cau neu uno rhai o'n swyddfeydd yn gynharach na'r disgwyl. Mae'r Gofrestrfa Tir hefyd wedi cynnig cynlluniau gadael swydd yn gynnar o wirfodd i grwpiau arbennig o staff ar draws y sefydliad, gan roi cyfle iddynt adael y Gofrestrfa Tir trwy ymddiswyddo gwirfoddol. Yn achos cau swyddfeydd a'r rhaglen uno a'r cynlluniau gadael swydd yn gynnar o wirfodd, mae AD wedi chwarae rôl hanfodol o ran cyfathrebu â staff gyda thact a sensitifrwydd, gan ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl i alluogi staff i wneud penderfyniad gwybodus am eu dyfodol. Os yw aelodau staff wedi dewis gadael y Gofrestrfa Tir trwy ymddiswyddo gwirfoddol neu drwy drosglwyddo i adrannau eraill o'r llywodraeth, mae AD wedi eu helpu trwy'r broses, er mwyn gwneud eu hymadawiad mor hawdd â phosibl mewn amgylchiadau sydd yn aml yn anodd ac yn emosiynol.

Fel rhan o adolygiad y Gofrestrfa Tir o'i strwythur busnes a phrosesau o dan y Rhaglen Effeithlonrwydd Gweithredol, buom yn rhedeg prosiect i ddatblygu model busnes at y dyfodol i'r Gofrestrfa Tir o'r enw'r Model Gweithredu Targed, a fydd yn rhoi siâp y sefydliad i ni o ran prosesau, strwythurau, proffil staff a sgiliau. Mae'r gwaith hwn yn allweddol i lwyddiant y Gofrestrfa Tir yn y dyfodol a bydd yn darparu cyfeiriad teithio clir wrth i'r Gofrestrfa Tir symud ymlaen.

Newid a her arbennig i AD fu lansio Gweddnewid AD, ochr yn ochr â datblygu a darparu'r systemau a thechnoleg TG hanfodol na allai Gweddnewid AD fod yn weithredol ac yn effeithiol hebddynt. O dan y strwythur AD newydd hwn, mae gan y Gofrestrfa Tir un Ganolfan Gwasanaeth AD ganolog bellach yn Nottingham lle mae desg gwasanaeth yn darparu cyngor a chanllawiau i staff a rheolwyr ar faterion AD, a lle mae'r ymgynghorwyr achos AD yn darparu cymorth i reolwyr llinell ar faterion cymhleth neu heriol. Yn ogystal, mae partneriaid busnes AD ac uwch bartneriaid busnes yn gweithio gydag aelodau bwrdd ac uwch reolwyr i helpu cynllunio ac ateb anghenion pobl yn y dyfodol. I helpu paratoi'r sefydliad ar gyfer y datblygiad arwyddocaol hwn, mae AD wedi darparu cyfres o ymarferion cyfathrebu i bob aelod staff, i hybu ac esbonio'r strwythur newydd a'r hyn y mae'n ei olygu iddyn nhw. Yn ogystal, mae AD wedi darparu rhaglen hyfforddiant i bob rheolwr llinell ar draws y Gofrestrfa Tir, sef Datblygu Gallu Rheolwyr, i'w paratoi ar gyfer y strwythur AD newydd.

Mae'r gwasanaeth AD newydd, wedi'i symleiddio yn adlewyrchu'r newidiadau rydym yn eu gwneud ar draws ein busnes ac mae'n darparu cymorth arbenigol proffesiynol i'n rheolwyr sydd â mwy o gyfrifoldebau rheoli pobl erbyn hyn. Yn y pen draw, bydd Gweddnewid AD yn darparu gwasanaeth AD gwell, mwy cost-effeithlon a bydd yn darparu lefel well o gymorth AD ar gyfer newid busnes.

## Recriwtio a chadw


Ar 1 Ebrill 2009, roedd y Gofrestrfa Tir yn cyflogi 7,737 o bobl, neu 6,953 o staff cyfwerth ag amser llawn (gan gynnwys staff cyfnod penodol a dros dro).

## Ffeithiau a ffigurau

— Mae gweithwyr rhan-amser yn ffurfio 33 y cant o'r staff.
— Mae chwe deg dau y cant o'n staff yn fenywod, gan gynnwys dau o'r chwe chyfarwyddwr sy'n atebol i'r Prif Gofrestrydd Tir.
— Mae chwech y cant yn nodi bod anabledd ganddynt ac mae 5 y cant yn nodi eu bod yn dod o leiafrifoedd ethnig.
— Y flwyddyn ddiwethaf, dechreuodd 171 o bobl swyddi parhaol newydd gyda'r Gofrestrfa Tir - roedd 137 o'r rhain yn staff presennol a gafodd eu dyrchafu i swyddi newydd ac roedd 34 wedi ymuno â'r Gofrestrfa Tir am y tro cyntaf.
— Y trosiant ar gyfer staff parhaol am y flwyddyn ddiwethaf oedd 5.5 y cant o'i gymharu â 3.5 y cant y flwyddyn flaenorol.

Mae ein datganiad recriwtio i'w weld yn Atodiad 2.

## Niferoedd staff ers 1999 (cyfwerth ag amser llawn)




# Amrywiaeth a chyfle cyfartal

Mae cynllun cydraddoldeb sengl y Gofrestrfa Tir wedi bod yn weithredol ers dwy flynedd ac rydym yn hapus â'n cynnydd hyd yma. Mae meysydd datblygu allweddol yn cynnwys plannu asesiadau effaith cydraddoldeb ar draws y sefydliad, datblygu ffurflen fonitro newydd i gael ystadegau amrywiaeth ar ein proffil cwsmeriaid a gwaith parhaus i sicrhau bod ein gwefan yn hygyrch, gan gynnwys asesiad allanol gan RNIB. Bu ein tîm newid cofrestru yn cydweithio'n agos â'r is-grŵp trawsrywiol i ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer delio ag ymholiadau a cheisiadau. Bydd gwaith yn y dyfodol yn cynnwys lansio ein Strategaeth Amrywiaeth newydd a'r Cynllun Cyflawni Amrywiaeth.

Mae hyrwyddwyr amrywiaeth wedi cael eu penodi ar lefel Bwrdd a lefel Tîm Uwch Reolwyr mewn swyddfeydd lleol. Bydd hyrwyddwyr amrywiaeth yn ymgymryd â rôl arweinyddiaeth weithgar a gweledol, gan sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei brif ffrydio ym mhob agwedd ar y busnes trwy enghreifftio ymddygiad cynhwysol.

Mae creu gweithlu mwy amrywiol yn bwysig i ni. Mae monitro amrywiaeth wedi cael ei adolygu ac mae monitro mwy effeithiol wedi cael ei sefydlu. Mae gwaith i adolygu targedau amrywiaeth wedi digwydd a bydd targedau newydd yn cael eu gosod o dan ein strategaeth amrywiaeth. Mae'r grŵp ffocws pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn datblygu rhaglen fentora ar gyfer staff lleiafrifoedd ethnig. Bydd y gwaith hwn yn integreiddio â ffrwd waith rheoli dawn y strategaeth amrywiaeth. Ein nod yw estyn y rhaglen i gynnwys grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn y Gofrestrfa Tir.

Cynhaliodd y Tîm Amrywiaeth ei Gynhadledd Amrywiaeth gyntaf, gan ddwyn ynghyd aelodau o'r grwpiau ffocws anabledd, lesbiaidd hoyw a deurywiol a thrawsrywiol a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Roedd y gynhadledd yn gyfle gwych i'r tri grŵp ffocws ryngweithio a rhannu arferion gorau. Mae pob un o'r tri grŵp wedi sefydlu cynlluniau gweithredu a fydd yn cysylltu â'r amcanion perthnasol o dan y cynllun darparu amrywiaeth.

Cawsom ein cynnwys yn 100 Cyflogwr Gorau Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewell am yr ail flwyddyn yn olynol, gan gyrraedd safle 68. Yn ogystal, cefnogwyd Cynghrair yr Enfys y Gwasanaeth Sifil a noddwyd fflôt London Gay Pride, a oedd yn cynnwys enw a logo'r Gofrestrfa Tir.

# Datblygu staff

Mae buddsoddi yn ein pobl yn hanfodol i'n gallu i gyflawni ein hamcanion.

**Cymwysterau mewn Cyfraith ac Arferion Cofrestru Tir**

Mae'r Cymwysterau mewn Cyfraith ac Arferion Cofrestru Tir yn cael eu rhedeg mewn partneriaeth â Choleg y Gyfraith ac erbyn hyn maent yn gyrsiau datblygu gyrfa sefydledig i staff y Gofrestrfa Tir a myfyrwyr allanol.

Mae dau gymhwyster: y dystysgrif, sy'n gwrs sylfaen un flwyddyn ar lefel Safon Uwch, a'r diploma lefel gradd, sef cwrs dwy flynedd sy'n cynnig ystyriaeth gynhwysfawr a manwl o'r gyfraith eiddo, gan gynnwys cyfraith ac arferion cofrestru tir.

Mae'r cymwysterau wedi bod ar gael i ymgeiswyr allanol ers 2003, ac wedi cael eu hybu'n allanol ers 2005.

Yn ystod 2008, roedd 151 o fyfyrwyr (96 mewnol, 55 allanol) wedi cwblhau'r dystysgrif, ac roedd 77 o fyfyrwyr (61 mewnol, 16 allanol) wedi graddio gyda'r diploma. Hyd yma, mae 1,806 o dystysgrifau (1,640 mewnol, 166 allanol) a 592 o ddiplomâu (549 mewnol, 43 allanol) wedi cael eu dyfarnu.

**Aelodau cyswllt o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (AssocRICS TechRICS gynt)**

Bu hon yn flwyddyn brysur i staff sy'n dilyn rhaglen y Gofrestrfa Tir i ennill AssocRICS. Mae ein hyfforddeion wedi mynychu digwyddiadau sefydlu a datblygu ynghyd â pharatoi eu hasesiadau terfynol i'w cyflwyno. Mae'r rhaglen wedi gweld 21 aelod staff yn ennill aelodaeth lawn ac ar hyn o bryd mae 49 aelod staff arall yn gweithio tuag at ei ennill.

Mae'r Gofrestrfa Tir hefyd wedi chwarae rôl arweiniol gan weithio gyda RICS i ddatblygu'r model corfforaethol gan ganiatáu i sefydliadau eraill ddilyn llwyddiant ein rhaglen ein hunain.

**Arweinwyr y Dyfodol**

Wedi'i chyflwyno ym mis Medi 2005, mae Arweinwyr y Dyfodol yn rhaglen fewnol y Gofrestrfa Tir ar gyfer meithrin potensial staff drwy gymysgedd o aseiniadau, secondiadau a hyfforddiant. Mae dau brif linyn - y Modiwl Carlam Lleol seiliedig mewn swyddfa leol sy'n para blwyddyn (MCLl) a'r Modiwl Carlam Canolog (MCC) a drefnir yn ganolog sy'n para tair blynedd, sy'n cael ei gynnig mewn partneriaeth ag Ysgol Genedlaethol y Llywodraeth a Choleg Rheolaeth Henley.

Yn 2008, cynhaliwyd adolygiad o'r rhaglen Arweinwyr y Dyfodol. Yn sgîl anghenion newidiol y busnes ac er mwyn adlewyrchu'r hinsawdd economaidd sydd ohoni gwnaethpwyd cyfres o newidiadau. Yn unol â'n gofyniad strategol i gynyddu lefel sgiliau rheolwyr, rydym yn cynllunio cyfres o newidiadau i raglen MCLl i alluogi rheolwyr lleol i fod yn fwy cyfrifol am eu staff ar y rhaglen. Bydd rheolwyr lleol yn adnabod cyfleoedd datblygu ac yn dewis y bobl a fydd yn gwneud y mwyaf ohonynt.

Yn Hydref 2008, roedd y garfan gyntaf o raglen MCC wedi 'graddio' ar ôl cwblhau tair blynedd o astudio'n seiliedig ar waith a phrofiad. Un o storïau llwyddiant allweddol y rhaglen yw bod cyn-gyfranogwr MCC wedi cael dyrchafiad i swydd Rheolwr Ardal. Mae myfyrwyr eraill o MCLl a MCC wedi cael dyrchafiad neu ehangu eu profiad o fewn y Gofrestrfa Tir.

Mae costau ariannol y rhaglen hyd yma yn cynrychioli cyfran fach o'r gyllideb hyfforddi gyfan flwyddyn ar ôl blwyddyn ac mae'n darparu'r pecyn hyfforddiant mwyaf cynhwysfawr o fewn y Gofrestrfa Tir.

Bydd y rhaglen MCC ddiwygiedig yn gweld mwy o strwythur i gydrannau gorfodol y rhaglen gan ddarparu gwybodaeth a datblygiad arweinyddiaeth wedi'u targedu yn seiliedig ar brofiad cyfredol y dysgwr.

Ar hyn o bryd mae 53 o bobl yn cymryd rhan yn MCLl ac 14 ar MCC.

**Datblygu Gallu Rheolwyr**

Fel rhan o'r strategaeth hirdymor ar gyfer gweddnewid AD yn y Gofrestrfa Tir, roedd y tîm Dysgu a Datblygu yn gyfrifol am greu rhaglen fewnol newydd i wella gallu rheolwyr.

Yn 2008, ar ôl treialu llwyddiannus yn Tunbridge Wells a Durham, cafodd dau fodiwl craidd cyntaf y rhaglen Datblygu Gallu Rheolwyr eu darparu i reolwyr ar draws y sefydliad, gan gyrraedd tua 96 y cant o'r rheolwyr.

Y nod oedd helpu rheolwyr i baratoi ar gyfer y newidiadau arfaethedig yn eu cyfrifoldebau sy'n deillio o gyflwyno Gweddnewid AD yn 2009. Yn ogystal â darparu llawer o adeiladu tîm rhyngweithiol, mae'r modiwlau wedi rhoi sylfaen i reolwyr o arferion da mewn sgiliau pobl, rheoli perfformiad a gweithredu polisïau AD yn effeithiol.

Cafwyd adborth cadarnhaol gan reolwyr sydd wedi mynychu'r cwrs. Mae modiwlau ychwanegol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i wella sgiliau rheolwyr ymhellach a'u helpu i addasu i anghenion newidiol y Gofrestrfa Tir.

**Hyfforddiant mewnol**

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Grŵp Addysg a Hyfforddiant wedi cynhyrchu deunyddiau hyfforddi i gefnogi staff trwy'r newidiadau i'n gweithdrefnau, megis y newidiadau i'r rheolau a gyflwynwyd yn Nhachwedd 2008, a datblygu ymhellach eu sgiliau, yn enwedig mewn perthynas â chynlluniau cofrestru tir. Mae'r grŵp hefyd wedi chwarae rhan wrth gynorthwyo swyddfeydd gyda'r gwaith o weithredu eu cynlluniau hyfforddi eu hunain, hyfforddi staff yn y timau cwsmeriaid newydd sy'n cefnogi e-wasanaethau a chwrdd â gofynion hyfforddi ehangach y llywodraeth. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar y sgiliau hyfforddi sy'n bodoli mewn swyddfeydd lleol i ddarparu hyfforddiant sy'n cael ei ddatblygu'n ganolog ac ar fecanweithiau olrhain sydd ar gael i sicrhau bod cyrsiau hyfforddi ar-lein yn cael eu dilyn a'u deall yn iawn, gan arwain at effeithlonrwydd gwell yn y maes hwn.

| Agwedd | Diwrnodau hyfforddeion |
|---|---|
| Sefydlu | 612 |
| Galwedigaethol (cofrestru tir) | 26,145 |
| Rheoli | 5,879 |
| Allanol | 4,486 |
| **Cyfanswm** | **37,122** |

Roedd y cyfanswm gwariant ar yr holl hyfforddiant yn cynrychioli 6.5 y cant o'r bil cyflogau.

## Iechyd a diogelwch

Roedd adolygiad o'r risgiau iechyd a diogelwch sylweddol y mae'r Gofrestrfa Tir yn eu hwynebu wedi adnabod pedwar maes allweddol: gyrru; gweithio y tu allan i'r swyddfa; gwaith adeiladu a chynnal a chadw; a llithro, baglu a chwympo. Ym mhob maes cafodd mesurau diogelu eu harchwilio a lle bo angen rhoddwyd mesurau pellach angenrheidiol yn eu lle. Roedd y risgiau yn gysylltiedig â gwaith gyrru wedi cael sylw arbennig ac yn deillio o hyn mae polisi a chanllawiau gyrru newydd wedi cael eu cyhoeddi.

Cwblhawyd y rhaglen archwiliad iechyd a diogelwch blynyddol yn ôl yr amserlen. Erbyn hyn mae'r rhaglen archwiliad yn cwmpasu holl adeiladau'r Gofrestrfa Tir dros gyfnod o ddwy flynedd, wedi'i diwygio o raglen tair blynedd y llynedd. Gweithredwyd ar bob argymhelliad am welliant. Mae'r tîm Archwilio Mewnol wedi adolygu'r broses sicrwydd iechyd a diogelwch ei hun gydag un argymhelliad wedi'i wneud a'i weithredu arno.

Buddsoddwyd yn helaeth mewn iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â hyfforddiant trwy gyrsiau mewnol ac allanol. Mae aelodau'r Bwrdd Gweithredol wedi mynychu hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n darparu arweinyddiaeth strategol. Mae hyfforddiant ar gyfer staff cyfleusterau wedi cael ei ddarparu ar gyfer rheoli risgiau ffordd, iechyd a diogelwch cyffredinol a hefyd mae nifer o aelodau staff wedi ennill amrywiaeth o gymwysterau iechyd a diogelwch priodol.

Mae nifer y damweiniau a gofnodwyd wedi codi ychydig o 5.9 y flwyddyn ddiwethaf i 6.1 gyda llithro, baglu a chwympo yn parhau i ffurfio'r categori mwyaf o ddamweiniau. Mae 28 damwain wedi cael eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan reoliadau adrodd am anafiadau.

# Adroddiad y Prif Weithredwr

## Bwrdd y Gofrestrfa Tir

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn cynorthwyo'r Prif Gofrestrydd Tir a'r Prif Weithredwr yn ei gyfrifoldeb ac atebolrwydd pennaf sef llywodraethu a pherfformiad da y Gofrestrfa Tir. Mae aelodau'r Bwrdd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Peter Collis CB** | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr |
| **Joe Timothy** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir |
| **Andy Howarth** | Cyfarwyddwr Gweithrediadau[1] |
| **Heather Foster** | Cyfarwyddwr Cyllid |
| **John Wright** | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth |
| **Annette Davies-Govett** | Cyfarwyddwr Masnachol[1] |
| **Malcolm Dawson OBE** | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol |
| **David Rigney** | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| **Mike Cutt** | Cyfarwyddwr Anweithredol (hyd at 31 Mawrth 2009) |
| **Catherine Raines** | Cyfarwyddwr Anweithredol (o 28 Ionawr 2009) |

Roedd aelodau blaenorol o'r Bwrdd a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn.

| | |
|---|---|
| **Ted Beardsall CBE** | Dirprwy Brif Weithredwr (o 1 Ebrill 2008 i 31 Gorffennaf 2008) |

Roedd Bwrdd y Gofrestrfa Tir wedi cwrdd naw gwaith yn ystod y flwyddyn. Fe welwch fanylion tâl aelodau Bwrdd y Gofrestrfa Tir a wasanaethodd yn ystod 2008/9 yn yr adroddiad tâl. Nid oedd gan unrhyw aelod o'r Bwrdd unrhyw swydd cyfarwyddwr neu fudd arwyddocaol arall a oedd yn gwrthdaro â'u cyfrifoldebau fel aelod o Fwrdd y Gofrestrfa Tir.

Mae'r Bwrdd Gweithredol, sydd â'r un aelodaeth â Bwrdd y Gofrestrfa Tir ond heb gynnwys y cyfarwyddwyr anweithredol, yn cyflwyno cynllun busnes blynyddol y Gofrestrfa Tir ac yn gyfrifol am reoli'r Gofrestrfa Tir o ddydd i ddydd. Roedd wedi cyfarfod 16 gwaith yn ystod y flwyddyn.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Bwrdd Gweithredol yn cael eu cynorthwyo gan nifer o is-fyrddau, sydd naill ai'n arolygu agweddau penodol ar weithrediadau'r Gofrestrfa Tir neu sy'n darparu sicrwydd. Yn ystod y flwyddyn, bu dau newid i'r strwythur llywodraethu hwn. Yn gyntaf, yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol ar gyfer ein strwythur Rheoli Ymgysylltu â Chwsmeriaid newydd, cafodd y Bwrdd Datblygu Busnes ei ddiddymu. Yn ail, er mwyn hwyluso swyddogaeth sicrwydd mewn perthynas â rheoli gwybodaeth a diogelwch, sefydlwyd Bwrdd Rheoli Gwybodaeth i ddatblygu a chefnogi polisïau gwybodaeth y Gofrestrfa Tir, ac i ddarparu cyfeiriad i'n Gwasanaethau Cyfreithiol Corfforaethol a Phennaeth yr Uned Rheoli Gwybodaeth Gorfforaethol pan fydd materion cymhleth neu strategol yn codi.

[1] I blannu ein strwythur Rheoli Ymgysylltu â Chwsmeriaid newydd a'n strategaeth Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid o fis Mawrth 2009 roedd y Cyfarwyddwr Masnachol wedi ymgymryd â rôl Cyfarwyddwr y Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid ac roedd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau wedi ymgymryd â rôl Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gwasanaeth Cwsmeriaid.

## Pwyllgor Archwilio'r Gofrestrfa Tir

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod gweithgareddau'r Gofrestrfa Tir yn cael eu cyflawni yn unol â safonau atebolrwydd cyhoeddus priodol. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi cwrdd pedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid, Pennaeth Archwilio Mewnol a'n harchwilwyr allanol yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor yn rheolaidd. Mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **David Rigney** | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd |
| **Mike Cutt** | Cyfarwyddwr Anweithredol (hyd at 31 Mawrth 2009) |
| **Catherine Raines** | Cyfarwyddwr Anweithredol (o 28 Ionawr 2009) |
| **Vaughan Williams** | Aelod annibynnol |
| **John Wright** | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth |
| **David Cleasby** | Rheolwr Ardal Swyddfa Portsmouth |

Nid oedd gan unrhyw aelod o'r Pwyllgor Archwilio unrhyw swydd cyfarwyddwr neu fudd arwyddocaol arall sy'n gwrthdaro â'i gyfrifoldebau fel aelod o Bwyllgor Archwilio'r Gofrestrfa Tir.

## Archwilwyr

Mae'r cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan y Rheolydd ac Archwiliwr Cyffredinol (RhAC). Cost y gwaith archwilio hwn ar gyfer 2008/9 oedd £70,000 (2007/8: £70,000). Mae'r gost ar gyfer gwasanaethau archwilio sy'n ymwneud â'r archwiliad statudol. Y gwaith ychwanegol a gyflawnwyd gan RhAC yn ystod y flwyddyn oedd archwilio cyflwyniad sbardun dau Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol y Gofrestrfa Tir i'r Trysorlys. Cost y gwaith hwn oedd £8,000 (2007/8: dim).

Cyn belled ag y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Gofrestrfa Tir yn ymwybodol ohoni.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'i gymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Pensiynau

Fe welwch fanylion ynghylch sut mae costau a rhwymedigaethau pensiwn yn cael eu trin yn y cyfrifon yn nodyn 1.5 ar y cyfrifon, ac mae gwybodaeth bellach sy'n ymwneud â phensiynau wedi'i chynnwys yn nodyn 4.1 ar y cyfrifon ac yn yr adroddiad tâl.

## Taliadau

Rydym yn cydymffurfio â Deddf Hwyr-dalu Dyledion Masnach (Llogau) 1998 a'r Cod Arferion Talu Gwell. Yn ystod y flwyddyn talwyd 96 y cant o anfonebau a dderbyniwyd gan gyflenwyr cyn pen 30 diwrnod (neu'r telerau a gytunwyd o dan y contract os pennwyd fel arall). Nid yw'r ganran hon yn cynnwys anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch.

## Prif risgiau ac ansicrwydd y busnes

Mae'r Gofrestrfa Tir yn wynebu sialensiau a risgiau i gyflawni ei hamcanion busnes strategol. Mae risgiau strategol cyfredol allweddol yn ymwneud â chymorth rhanddeiliaid ar gyfer e-drawsgludo; twyll cofrestru; methiant ein cyfleusterau cyfrifiadurol; cywirdeb ein cofrestr; a chael digon o staff sy'n meddu ar y sgiliau, y gallu a'r diwylliant sydd eu hangen i wireddu ein hamcanion sefydliadol a busnes. Mae strategaeth rheoli risg yn ei lle ar bob lefel yn y sefydliad i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol. Yn arbennig, mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn ystyried risgiau strategol arwyddocaol i'r sefydliad, ac mae'r Cyfarwyddwr Cyllid, fel hyrwyddwr risg y Bwrdd, yn cadeirio'r Bwrdd Risg Busnes, sy'n sicrhau bod risgiau busnes allweddol yn cael eu hadnabod a'u rheoli.

# Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Yn ystod 2008/9, cafodd dau ddigwyddiad cysylltiedig â data personol eu hadrodd yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Tabl 1).

## Tabl 1: Crynodeb o'r digwyddiadau cysylltiedig â data personol a gafodd eu hadrodd yn ffurfiol i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2008/9

| Dyddiad y digwyddiad (mis) | Natur y digwyddiad | Natur y data dan sylw | Nifer y bobl a allai gael eu heffeithio | Camau hysbysu |
|---|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2008 | Colli dros dro[1] tâp data wrth gefn gan gludwr DX o Swyddfa Cymru | Busnes swyddfa, gan gynnwys cofnodion AD, gohebiaeth a dogfennau cysylltiedig â gwaith achos | 370 staff | Unigolion wedi'u hysbysu gan y rheolwr swyddfa mewn cyfarfod staff. Yr heddlu wedi'i hysbysu |
| Chwefror 2009 | Colli tâp data wrth gefn wrth gael ei gludo gan gludwr DX o Swyddfa Stevenage | Busnes swyddfa, gan gynnwys cofnodion AD, gohebiaeth a dogfennau cysylltiedig â gwaith achos | 270 staff | Unigolion wedi'u hysbysu gan y reolwr swyddfa mewn cyfarfod staff. Yr heddlu wedi'i hysbysu |
| Gweithredu pellach ar wybodaeth risg | Bydd y Gofrestrfa Tir yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth yn dilyn y digwyddiadau uchod, er mwyn adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a sicrhau gwelliant parhaus i'w systemau. Ar gyfer y flwyddyn i ddod bwriedir atgoffa pob aelod staff o bwysigrwydd dilyn y strwythurau sydd yn eu lle ar gyfer adrodd am dorri rheolau, a gweithredu proses adrodd ddiwygiedig, gyflymach. Yn ogystal, penderfynwyd cadw tapiau data wrth gefn ar y safle ym mhob un o'r swyddfeydd lleol. | | | |

Yn ogystal, roedd saith digwyddiad cysylltiedig â data personol wedi'u diogelu a'u cofnodi'n ganolog oedd heb gael eu hadrodd yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Tabl 2).

## Tabl 2: Crynodeb o ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol wedi'u diogelu eraill yn 2008/9

Mae'r digwyddiadau y mae'r Rheolwr Data wedi penderfynu nad ydynt wedi'u cynnwys o fewn y meini prawf ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ond sydd wedi'u cofnodi'n ganolog o fewn y Gofrestrfa Tir wedi'u nodi yn y tabl isod. Nid yw digwyddiadau bach, cyfyngedig yn cael eu cofnodi'n ganolog ac ni chânt eu dyfynnu yn y ffigurau hyn.

| Categori | Natur y digwyddiad | Cyfanswm |
|---|---|---|
| I | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur sydd heb eu diogelu'n ddigonol o safle diogel y llywodraeth | 1 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol o'r tu allan i safle diogel y llywodraeth | 3 |
| III | Gwaredu'n anniogel offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur sydd heb eu diogelu'n ddigonol | Dim |
| IV | Datgelu heb awdurdod | 1 |
| V | Arall | 2 |

[1] Daethpwyd o hyd i'r tâp gan aelod o'r cyhoedd a'i roi i'r heddlu. Fe'i dychwelwyd heb i unrhyw un ymyrryd ag ef.

## Adnoddau a rhanddeiliaid

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi gweithredu fel adran ar wahân o'r llywodraeth ers 1862, fel asiantaeth weithredol ers Gorffennaf 1990 ac fel cronfa fasnachu am 16 o flynyddoedd. Yn ôl statud, mae'n ofynnol iddi sicrhau bod ei hincwm o ffioedd yn cwmpasu ei holl wariant o dan amodau gweithredu arferol.

Mae ei sefyllfa gyfreithiol a'i statws fel adran anweinidogol o'r llywodraeth wedi'i bennu yn ei Dogfen Fframwaith a ddaeth i rym ym Mehefin 2008. Mae'r fframwaith hwn yn amlinellu rôl a chyfrifoldebau'r Prif Gofrestrydd Tir a'r Prif Weithredwr a rhai'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder.

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi dadansoddi ei sylfaen cyflenwyr ac adnabod y cyflenwyr hynny sy'n allweddol i'w llwyddiant busnes. Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu yn unol â hynny ac mae strategaethau wedi cael eu datblygu i ddarparu dulliau rheoli contract effeithiol gan gynnwys risgiau cysylltiedig. Mae proses gadarn wedi cael ei datblygu, gan greu cofrestri risg ar y cyd ar gyfer ein cyflenwyr allweddol, proses monitro a galw cynyddol newydd ac adroddiadau rheolaidd i Fwrdd Risg Busnes y Gofrestrfa Tir. Mae hyn wedi esgor ar well lywodraethu a chyfathrebu. Mae mentrau gwerth am arian yn cael eu dilyn trwy brofi'r farchnad, adolygu gofynion, cynllunio gwireddu buddion a dangosyddion perfformiad allweddol. Mae cyflenwyr mwyaf hanfodol y Gofrestrfa Tir yn cael eu cynnwys mewn rhaglen rheoli perthynas â chyflenwyr, gan ddefnyddio ymagwedd helaethach a mwy soffistigedig at reoli contractau.

## Adolygiad Gweithredu ac Ariannol

**Incwm a gwariant**

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi gweld cwymp sylweddol yn ein busnes craidd gan hyd at 75 y cant mewn maint o ganlyniad i'r anawsterau yn y sector gwasanaethau ariannol ac yn arbennig argaeledd morgeisiau ac ail-forgeisiau. Roedd incwm ffioedd am y flwyddyn yn £308 miliwn o'i gymharu â £482.9 miliwn yn 2007/8.

Mewn ymateb i'r diffyg gweithredu yn y farchnad eiddo, cafodd nifer o ymarferion eu cynnal i leihau'r gwariant arfaethedig ac adolygu'r contractau ym mhob maes busnes. Gwnaethpwyd arbedion yn ystod y flwyddyn o £57.9 miliwn. Hefyd gwnaethpwyd adolygiad o'r Gronfa Indemniad a phrisiad 'bwrdd gwaith' o dir ac adeiladau.

Roedd yr adolygiad o'r Gronfa Indemniad wedi argymell cynnydd i £23 miliwn o £15.4 miliwn, sef gwahaniaeth o £7.6 miliwn. Hefyd mae'r Gofrestrfa Tir yn ymgymryd â phrisiad eiddo proffesiynol llawn bob tair blynedd. Y prisiad mwyaf diweddar oedd yn Ionawr 2008. Ar gyfer y blynyddoedd rhyngddynt, mae prisiad 'bwrdd gwaith' yn cael ei gwblhau gan y Swyddfa Brisio. Y lleihad yng ngwerth yr eiddo, ar ôl ystyried y gronfa wrth gefn ailbrisio, oedd £3 miliwn. O dan Arferion Cyfrifyddu Cymeradwy Cyffredinol y DU mae'r swm hwn, a ddisgrifir fel dirywiad parhaol mewn gwerth, yn cael ei ddileu yn ystod y flwyddyn pan fydd yn codi. Roedd yr addasiad i'r Gronfa Indemniad a'r gwerthoedd eiddo gyda'i gilydd yn rhoi cyfanswm o £10.6 miliwn ac mae wedi cael eu codi i'r cyfrif incwm a gwariant.

Mae gwaith wedi parhau i adnabod arbedion am y blynyddoedd nesaf a'r blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd arbedion cyfredol ar gontractau wedi'u hail-drafod yn £76.4 miliwn.

Mae costau staff yn cynrychioli'r mwyafrif o wariant y Gofrestrfa Tir. Cynigiwyd nifer o gynlluniau yn ystod y flwyddyn i leihau nifer y staff gan gynnwys ymddiswyddo gwirfoddol, ymddeoliad cynnar a throsglwyddiadau i adrannau eraill o'r llywodraeth. Cyfanswm cost y cynlluniau hyn fydd £50.3 miliwn, sydd wedi cael eu dangos fel darpariaeth yn y cyfrifon. Mae'r niferoedd staff wedi cael eu lleihau gan fwy na 1,000 yn ystod 2008/9 a dechrau 2009/10 o ganlyniad i'r ymarferion hyn. Fodd bynnag, ni fydd yr arbedion ariannol o hyn yn dechrau cael effaith tan 2009/10. Mae'r amserlen ar gyfer y rhesymoli arfaethedig o'r ystad, a gyhoeddwyd cyn hyn, wedi cael ei chwtogi. Ni fydd yr arbedion ariannol a'r incwm o werthu eiddo yn dechrau tan y flwyddyn ariannol nesaf.

Y cyfanswm gwariant oedd £380.2 miliwn yn erbyn £400.1 miliwn ar gyfer 2007/8. Gwnaeth y Gofrestrfa Tir golled yn ystod y flwyddyn o £129.9 miliwn, sy'n cynnwys cost ymddiswyddo gwirfoddol a chynlluniau ymddeoliad cynnar, y cyfeiriwyd atynt yn y paragraff blaenorol, yn erbyn gwarged o £70.7 miliwn ar gyfer 2007/8.

Ac eithrio marchnad eiddo araf yn y flwyddyn ariannol nesaf, mae gwaith ar leihau ein staff, ein hystad a chostau gorbenion eraill, fel y nodwyd uchod, yn parhau. Rhoddwyd Gorchymyn Ffioedd newydd gerbron y Senedd ym mis Ebrill ac fe ddaw i rym o 6 Gorffennaf 2009, a fydd yn cynyddu incwm.

O ganlyniad i wneud colled nid oeddem wedi cwrdd â'n targedau perfformiad allweddol effeithlonrwydd neu ariannol. Roedd ein taged cost arian parod yr uned ar

ddiwedd y flwyddyn yn £30.68 yn erbyn targed o £29.98. Roedd ein henillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn 0 y cant yn erbyn targed o 3.5 y cant.

Yn unol ag egwyddorion y gronfa fasnachu o 'gymryd un flwyddyn gyda'r llall', roedd yr enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd dros bum mlynedd, gan gynnwys y colled cyfredol, yn 8.7 y cant.

Yn unol â chytundeb gyda Thrysorlys EM, mae difidend o £18.6 miliwn am y flwyddyn ariannol yn seiliedig ar ein cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn daladwy i'r Gronfa Gyfunedig (2007/8: £19.7 miliwn).

**Asedau sefydlog**
Fel y nodwyd uchod, roedd prisiad bwrdd gwaith blynyddol yr ystad gan y Swyddfa Brisio yn adlewyrchu newidiadau ym marchnad y swyddfa fasnachol yn ystod y flwyddyn gydag ailbrisiad ar i lawr cyffredinol o £20.7 miliwn ar draws yr ystad. Yn unol â'r cynllun rhesymoli'r ystad mae eiddo wrthi'n cael ei farchnata. Mae lle gwag mewn adeiladau eraill yn cael ei osod neu ei farchnata i'w osod er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r ystad.

Gwnaethpwyd cyfanswm gwariant o £24.1 miliwn yn ystod y flwyddyn, ac roedd £11.8 miliwn o hyn ar ddatblygu gwasanaethau newydd ar gyfer e-drawsgludo.

**Peter Collis**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
6 Gorffennaf 2009



# Cyfrifon 2008/9

## Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol Dau Dŷ'r Senedd

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Gofrestrfa Tir am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfrif incwm a gwariant, y fantolen, y datganiad llif arian a'r datganiad o gyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a nodwyd ynddynt. Hefyd rwyf wedi archwilio'r wybodaeth yn yr adroddiad tâl a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel adroddiad sydd wedi'i archwilio.

**Cyfrifoldebau priodol y Gofrestrfa Tir, y Prif Weithredwr / Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwiliwr**

Mae'r Gofrestrfa Tir a'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr adroddiad tâl, a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed o dan y Ddeddf honno ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u hamlinellu yn y datganiad o gyfrifoldebau'r gronfa fasnachu a'r Prif Weithredwr/Swyddog Cyfrifyddu.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w archwilio yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio perthnasol, ac yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU ac Iwerddon).

Adroddaf fy marn i chi ar y datganiadau ariannol ac a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed o dan y Ddeddf honno. Adroddaf i chi a yw, yn fy marn i, yr wybodaeth sy'n cynnwys yr adrannau Pwy Ydym Ni, Targedau Dangosydd Perfformiad Allweddol, Cyfrifoldeb Corfforaethol, Ein Pobl ac Adroddiad y Prif Weithredwr, sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, yn cyfateb â'r datganiadau ariannol. Adroddaf hefyd a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob agwedd berthnasol, wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Hefyd, adroddaf i chi os nad yw'r Gofrestrfa Tir wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad, neu os yw'r wybodaeth a bennwyd gan y Trysorlys ynghylch tâl a thrafodion eraill heb ei datgelu.

Adolygaf a yw'r datganiad ar reolaeth fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth y Gofrestrfa Tir â chanllawiau'r Trysorlys, ac adroddaf os nad yw'n gwneud hynny. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried a yw'r datganiad hwn yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau, na ffurfio barn ynghylch effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Gofrestrfa Tir na'i gweithdrefnau risg a rheolaeth.

Darllenaf yr wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, gan ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys y rhannau sy'n weddill o'r Adroddiad Blynyddol a'r rhan heb ei harchwilio o'r adroddiad tâl. Ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad os wyf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

**Sail barnau'r archwiliad**

Mae fy archwiliad yn dilyn Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra trafodion ariannol sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesu'r prif amcangyfrifon a barnau a wnaed gan y Gofrestrfa Tir a'r Prif Weithredwr/Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac ystyried a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Gofrestrfa Tir, yn cael eu dilyn yn gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr oedd eu hangen, yn fy marn i, i roi tystiolaeth ddigonol er mwyn gallu rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio yn rhydd o unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed drwy gamgymeriad neu drwy dwyll, ac ym mhob agwedd berthnasol fod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn, yr wyf hefyd wedi gwerthuso a yw'r wybodaeth a roddwyd yn y datganiadau ariannol

a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio yn ddigonol yn gyffredinol.

**Barnau**
Yn fy marn i:
- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg, yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a'r cyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf gan y Trysorlys, o gyflwr busnes y Gofrestrfa Tir ar 31 Mawrth 2009 a'i diffyg, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifoedd arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wnaed o dan y Ddeddf honno
- mae'r wybodaeth, sy'n cynnwys yr adrannau Pwy Ydym Ni, Targedau Dangosydd Perfformiad Allweddol, Cyfrifoldeb Corfforaethol, Ein Pobl ac Adroddiad y Prif Weithredwr, sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, yn cyfateb â'r datganiadau ariannol.

**Barn ar reoleidd-dra**
Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Adroddiad**
Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Amyas C E Morse
Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
151 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SWIW 9SS
8 Gorffennaf 2009

# Datganiad o gyfrifoldebau'r gronfa fasnachu a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 4(6) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973, mae'r Trysorlys wedi cyfarwyddo'r Gofrestrfa Tir i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon y cyfeirir ato yn nodyn 1.1 ar dudalen 47. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y Gofrestrfa Tir a'i hincwm a'i gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifoedd arian parod am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn arbennig:

— dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
— llunio barnau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol
— datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel a bennwyd yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, a
— pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Weithredwr y Gofrestrfa Tir fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y gronfa fasnachu. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau'r Gofrestrfa Tir, i'w gweld ym *Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu* sy'n cael ei baratoi gan y Trysorlys a'i gyhoeddi yn *Rheoli Arian Cyhoeddus*.

# Datganiad ar reolaeth fewnol 2008/9

**1 Hyd a lled cyfrifoldeb**
Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n gymorth i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Gofrestrfa Tir a osodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor, ac ar yr un pryd ddiogelu'r cronfeydd cyhoeddus a'r asedau adrannol rwyf i'n bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn *Rheoli Arian Cyhoeddus*.

Rwyf yn adrodd ar berfformiad y Gofrestrfa Tir ac unrhyw faterion sydd i'w hystyried yn y dyfodol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor bob chwe mis. Ar ôl pob adroddiad ysgrifenedig rwy'n cwrdd â'r Gweinidog Gwladol (Cyfiawnder) sy'n arwain ar y Gofrestrfa Tir ar ran yr Arglwydd Ganghellor.

Mae'r broses monitro perfformiad yn cynnwys asesiad o unrhyw bryder ynghylch cyflawni amcanion strategol y Gofrestrfa Tir fel y manylir yn ei chynllun busnes blynyddol. Os yw unrhyw fater a allai newid yn sylweddol asesiad risg y Gofrestrfa Tir o gyflawni unrhyw un o'i hamcanion strategol yn dod i'r amlwg rhwng yr adroddiadau dwyflynyddol hyn, byddai cyflwyniad yn cael ei wneud i'r Gweinidog Gwladol (Cyfiawnder) yn y lle cyntaf.

**2 Pwrpas y system rheolaeth fewnol**
Pwrpas y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n ceisio adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion adrannol, gwerthuso a yw'r risgiau hynny yn debygol o gael eu gwireddu a'r effaith y byddent yn ei chael os cânt eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod yn weithredol yn y Gofrestrfa Tir ers y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon yma, ac mae'n dilyn cyfarwyddyd y Trysorlys.

**3 Gallu i drin risg**
Fel Swyddog Cyfrifyddu, cydnabyddaf fy mod yn bennaf gyfrifol am reoli risgiau yn effeithiol trwy'r Gofrestrfa Tir. Fodd bynnag, fel cyfrifoldeb rheoli, rwy'n dirprwyo'n ffurfiol y cyfrifoldeb dros reolaeth fewnol a digonolrwydd trefniadau sicrwydd, ar gyfer llywodraethu corfforaethol cyfan, i Gyfarwyddwyr unigol y Gofrestrfa Tir; ac maent yn cyflwyno'n flynyddol ddatganiad i mi sy'n cadarnhau bod system effeithiol o reolaeth fewnol ar gyfer rheoli risg mewn lle ac yn gweithio o fewn eu maes cyfrifoldeb.

Mae risgiau strategol arwyddocaol i'r sefydliad yn cael eu hystyried gan Fwrdd y Gofrestrfa Tir, sy'n cynnwys dau gyfarwyddwr anweithredol. Fel hyrwyddwr risg y Bwrdd, mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cadeirio'r Bwrdd Risg Busnes, sy'n sicrhau bod risgiau busnes allweddol yn cael eu hadnabod a'u rheoli.

Cafodd polisi rheoli risg y Gofrestrfa Tir ei adolygu a'i ddiweddaru yn ystod Mai 2008, ac fe gymeradwyodd y Bwrdd broses rheoli risg cyfarwyddiaeth newydd yn ystod Chwefror 2009. Mae nodiadau canllaw ymarferol yn ategu'r polisi ac ar gael i bob aelod staff yn electronig ar fewnrwyd y Gofrestrfa Tir.

Mae Grŵp Rheoli Risg bach o fewn y Gyfarwyddiaeth Gyllid yn rhoi cymorth ac arweiniad ar bob mater sy'n gysylltiedig â risg ac adroddiadau cryno rheolaidd ar gyfer y Bwrdd Risg Busnes. Mae hefyd yn darparu gweithdai a chyflwyniadau ad hoc i swyddfeydd y Gofrestrfa Tir.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd prawf adfer mewn argyfwng llawn ar ein seilwaith TG canolog ac wedi'i ddosbarthu. Roedd y prawf yn cynnwys colli ein safle cyfleuster TG yn Plymouth a gallu swyddfeydd lleol i gyrchu pob gwasanaeth yn dilyn symud i'r cyfleuster wrth gefn yng Nghaerloyw. Roedd y prawf yn llwyddiant ysgubol; a hefyd y rhaglen Ymarfer Parhad Busnes a gafodd ei rhedeg trwy'r flwyddyn, sy'n profi effeithiolrwydd cynlluniau wrth gefn swyddfeydd lleol.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn adolygu ei gweithdrefnau i fynd i'r afael â thwyll yn gyson, a gydnabyddir gan y Bwrdd Gweithredol fel un o brif flaenoriaethau'r sefydliad. Ym mis Medi 2008, ailwampiwyd ein strategaeth atal twyll tri llinyn, a gafodd ei mabwysiadu'n wreiddiol yng Ngorffennaf 2007. Mae'r llinyn atal cyntaf yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth staff, cyhoeddi dau ganllaw cyhoeddus i gwsmeriaid, adnabod a diogelu teitlau agored i niwed, sefydlu systemau gwell ar gyfer casglu cudd-wybodaeth ar dwyll, a chydgysylltu â chyrff perthnasol megis yr Awdurdod Twyll Cenedlaethol, yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu Metropolitan. Dylai'r

gwiriadau hunaniaeth gwell a gyflwynwyd ar 10 Tachwedd gan y Rheolau Cofrestru Tir (Diwygiad) hefyd gyfrannu at atal twyll. Mae'r ail linyn yn cynnwys canfod ac ymchwilio, gan gynnwys gwell lefelau o fetio trafodion gan weithwyr achos sydd wedi'u hyfforddi i adnabod dangosyddion cyffredin o anonestrwydd. Y trydydd llinyn yw rheoli ac adfer achosion, sy'n ceisio sicrhau bod ceisiadau cywiro a hawliadau indemniad gan gwsmeriaid sydd wedi cael eu twyllo yn cael eu trin yn ddidrafferth, ac ar yr un pryd mynd ar ôl unrhyw gronfeydd sy'n aros yn nwylo'r twyllwyr a cheisio cyfraniadau priodol gan roddwyr benthyg, trawsgludwyr neu weithwyr proffesiynol eraill y mae'n bosibl bod eu hesgeulustod wedi hwyluso'r twyll.

O ganlyniad i gyflwyno Deddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladd Corfforaethol 2007, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2008, mae'r Gofrestrfa Tir wedi adolygu ei system rheoli iechyd a diogelwch yn erbyn canllawiau a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Iechyd a Diogelwch gyda Sefydliad y Cyfarwyddwyr. O ganlyniad i'r dadansoddiad bwlch lefel uchel hwn, tynnwyd sylw at nifer o feysydd a allai beri'r risg mwyaf o farwolaeth neu anaf difrifol i staff ac eraill, yn enwedig gyrru a gweithio y tu allan i'r swyddfa. Yn unol â hynny, mae camau wedi'u cymryd i leihau'r risgiau i staff sy'n codi o'r gweithgareddau risg uchel hyn yn y gweithle, yn arbennig, cydnabod bod gyrru yn weithgaredd peryglus a allai achosi niwed neu farwolaeth i staff ac i aelodau'r cyhoedd a systemau gweithredu diogel. Mae canllawiau ar ddiogelwch a hyfforddi staff wedi cael eu datblygu i ddileu neu leihau'r risg i'r lefel ymarferol isaf bob amser pan fydd rhaid i staff yrru fel rhan o'u gwaith. Yn benodol, mae asesiad risg generig wedi cael ei gwblhau, mae ein polisi gyrru wedi cael ei ddiwygio ac mae canllawiau cynhwysfawr i yrwyr wedi cael eu cyhoeddi. At hynny, mae ein Tîm Iechyd a Diogelwch Adrannol wedi llunio a chyhoeddi llawlyfr iechyd a diogelwch *Gweithio y tu allan i'r swyddfa,* fel dogfen ganllaw i staff sydd â dyletswyddau sy'n gofyn iddynt weithio y tu allan i'r swyddfa a'u rheolwyr. Mae'r llawlyfr yn darparu canllawiau iechyd a diogelwch i'r grwpiau hyn er mwyn cadw'r risg i staff mor isel ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Trwy ei raglen archwiliol flynyddol, mae Grŵp Sicrwydd Technegol yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod ein harferion a phrosesau cofrestru technegol yn cydymffurfio â deddfwriaeth cofrestru tir. Yn ystod 2008, rhoddwyd sêl bendith i'r Adran Pridiannau Tir gan y Grŵp Sicrwydd Technegol. Yn ogystal, sefydlwyd timau sicrwydd cofrestru ym mhob swyddfa'r Gofrestrfa Tir i roi sicrwydd i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau, cofrestryddion tir, rheolwyr ardal a'r uwch dimau rheoli bod arferion a phrosesau cofrestru technegol lleol yn cydymffurfio â deddfwriaeth, safonau mapio technegol, ac arferion a gweithdrefnau'r Gofrestrfa Tir.

Yn dilyn adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG) ar reolaeth y llywodraeth ganol o gontractau gwasanaeth[1], er mwyn sicrhau gwerth am arian gwell a lleihau risg i gontractau, mae'r Gofrestrfa Tir wedi meincnodi ei threfniadau ar gyfer rheoli contractau yn erbyn fframwaith arferion da SAG. Os yw bylchau wedi'u nodi, mae camau wedi'u cymryd neu wedi'u cynllunio i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.

Yn unol ag arferion gorau a argymhellwyd gan SAG, mae perchnogaeth o faterion rheoli contractau holl-Gofrestrfa Tir wedi'i aseinio i un unigolyn, sef ein Prif Swyddog Caffael, sydd â chylch gwaith clir i wella rheoli contractau a'r awdurdod i gyflawni newid, ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod cynlluniau rheoli contractau a threfniadau llywodraethu priodol yn eu lle ar gyfer pob un o'n prif gontractau. Yn ogystal, mae'r Gofrestrfa Tir wedi adolygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'n prif gontractau gwasanaeth gydag adroddiadau rheolaidd ar risgiau hanfodol i fusnes ar lefel Bwrdd. Lle'n bosibl, mae camau lliniaru wedi cael eu cynllunio a'u gweithredu.

Yn dilyn cyhoeddi canllaw Swyddfa'r Cabinet ym mis Chwefror 2008 ar weithdrefnau trin data mewn llywodraeth, roedd y Gofrestrfa Tir wedi cynnal adolygiad trylwyr o'i rheolaethau mewnol ar gyfer rheoli risg i wybodaeth, a chymryd camau i sicrhau ei bod yn cydymffurfio'n llawn â'r mesurau lleiaf penodol i ddiogelu gwybodaeth bersonol. Fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y Gofrestrfa Tir, mae'r Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth yn rhoi cyngor ysgrifenedig i mi yn rhinwedd fy swydd fel Swyddog Cyfrifyddu ar ddigonolrwydd rheolaethau mewnol sy'n ymwneud â risg i wybodaeth, gan gynnwys cadarnhau ein hardystiad fel sefydliad sy'n cydymffurfio ag ISO 27001. Gallaf gadarnhau'r canlynol:

- Mae polisi risg gwybodaeth gan y Gofrestrfa Tir, a gwmpasir gan ein polisi rheoli diogelwch, diogelwch TG a pholisïau ategol eraill.
- Mae risgiau i gyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd gwybodaeth yn y gadwyn

1 Rheolaeth y llywodraeth ganol o gontractau gwasanaeth, ADRODDIAD GAN Y RHEOLWR A'R ARCHWILIWR CYFFREDINOL | HC 65 Sesiwn 2008-2009 | 19 Rhagfyr 2008.

gyflwyno yn cael eu hasesu'n gyson trwy gyfarfodydd rheolaidd ein Bwrdd Rheoli SG, Bwrdd Rheoli Gwybodaeth (newydd 2008/9) a'r Bwrdd Risg Busnes.

- Mae effeithiolrwydd rheoli'r risgiau hyn yn cael eu hasesu'n gyson gan ein swyddogaeth Archwilio Mewnol ac yn cael ei adrodd i'n Pwyllgor Archwilio.
- Mae ein systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu wedi cael eu hachredu gan ymgynghorydd Cynllun Ymgynghorwyr Rhestredig (CLAS)[1] y Grŵp Diogelwch Electroneg Cyfathrebu (CESG)[2].
- Mae ein hasedau gwybodaeth wedi adnabod perchnogion ac asesiadau risg.
- Mae ein systemau rheoli rheolaethau mynediad yn darparu mynediad seiliedig ar rôl i wybodaeth. Bydd unigolion yn cael rolau sy'n briodol i angen busnes.
- Mae mentrau rhannu data, y tu allan i'r Gofrestrfa Tir, yn cael eu cymeradwyo, eu monitro a'u hadolygu gan ein Bwrdd Rheoli Gwybodaeth.
- Mae adrodd am ddigwyddiadau risg gwybodaeth yn unol â pholisi'r Llywodraeth wedi'i gynnwys o fewn ein polisïau a chyfarwyddiadau penodol o fewn gweithdrefnau gweithredu diogelwch systemau perthnasol.
- Rheolir digwyddiadau diogelwch TG gan ein staff SG medrus a'u monitro gan ein Pwyllgor Diogelwch TG, sy'n adrodd i'n Bwrdd Risg Busnes.
- Mae data personol wedi cael eu hadnabod a'u cofnodi gyda'n Swyddfa Diogelu Data.
- Mae data personol yn cael eu dal mewn ystafelloedd gweinydd diogel o fewn adeiladau diogel, heb fod unrhyw ofyniad am fynediad o bell. Mae'r gallu i dreiddio diogelwch yn cael ei brofi gan arbenigwyr annibynnol.

**4 Y fframwaith risg a rheolaeth**
Mae cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr eraill y Gofrestrfa Tir yn arwain rheolaeth risg yn eu meysydd. Yn arbennig, maent yn gyfrifol am roi mewn lle system rheolaeth ar gyfer adnabod yn systematig, asesu a rheoli'r risgiau i gyflawni eu gwaith a'u targedau allweddol. Mae risgiau'n cael eu hadnabod a'u gwerthuso yng nghyd-destun eu heffaith bosibl ar gyflawni amcanion ac yn cael eu rheoli ar y lefel y mae gan staff yr awdurdod, y cyfrifoldeb a'r adnoddau i weithredu arni. Mae'n ofynnol i staff a rheolwyr adnabod risgiau a chyfleoedd newydd neu gynyddol fel rhan o'u proses adrodd am berfformiad arferol.

Mae rheoli risg yn rhan annatod o raglen a rheoli prosiectau'r Gofrestrfa Tir, ac mae'r cyfrifoldeb amdano wedi'i freinio mewn uwch berchnogion sy'n gyfrifol. Rheolir rhaglenni a phrosiectau yn unol â chanllawiau Swyddfa Masnach y Llywodraeth ac fe'u hadolygir o dan broses Porth y llywodraeth.

Mae risgiau'n cael eu hadolygu, mae effeithiolrwydd mesurau rheoli risg a'u heffaith ar risg gweddilliol yn cael ei fonitro, ac mae newidiadau'n cael eu hadnabod a'u gwerthuso trwy gydol y flwyddyn fel rhan o weithgarwch rheoli arferol. Mae perchnogion risg yn cynnwys adroddiadau ar ymdrin â risg gweithredol fel rhan o'u hadroddiadau stiwardiaeth ehangach. Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn dyrannu'r gwaith o reoli risgiau strategol i gyfarwyddwyr enwebedig sy'n adrodd yn ôl fel y bo'n briodol trwy gydol y flwyddyn.

Er bod archwaeth risg y Gofrestrfa Tir yn amrywio yn ôl pwysigrwydd tybiedig y risgiau a'u hamseriad, bydd yr holl risgiau sy'n cael effaith fawr ar ein perfformiad; stiwardiaeth o'n cofrestr, cronfeydd cyhoeddus a'r amgylchedd, neu ein henw da neu enw da'r llywodraeth yn gyffredinol yn cael sylw rheolaeth canolbwyntiedig, cost wedi'i chyfiawnhau. Lle y bo'n briodol bydd camau pellach yn cael eu cymryd trwy gadwyn o reolaeth i'r Gweinidog Cyfiawnder a gweinidogion.

Fel y disgrifiwyd uchod rwy'n cynnal cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn â'r Gweinidog Gwladol (Cyfiawnder) lle mae risgiau gweithredol yn cael eu trafod. Mae'n derbyn adroddiadau ar risgiau i gyflawni targedau dangosyddion perfformiad allweddol ac amcanion strategol trwy adroddiadau ddwywaith y flwyddyn.

Rwy'n ymwybodol iawn bod risgiau i randdeiliaid cyhoeddus yn codi o sawl agwedd ar ddatblygu a gweithredu gwasanaethau electronig newydd. Wrth ddatblygu mentrau newid newydd yn y dyfodol bydd y Gofrestrfa Tir yn cynnwys y cyhoedd mewn rheolaeth risg trwy'r broses ymgynghori arferol. Bydd fy aelodau staff uwch a minnau yn cwrdd â grwpiau o randdeiliaid ac yn ystyried eu barn ar risgiau i'w buddion yn y cyfarfodydd hyn. Mae'r risgiau o gamddefnyddio ein cofrestr ar-lein a'i chyrchu'n anghyfreithlon yn cael eu rheoli trwy'r strategaeth atal twyll a ddisgrifiwyd uchod yn seiliedig ar farnau nifer o'n rhanddeiliaid.

1 Mae CLAS yn bartneriaeth sy'n cysylltu gwybodaeth SG unigryw CESG gydag arbenigedd ac adnoddau'r sector preifat.
2 CESG yw braich Sicrwydd Gwybodaeth (SG) GCHQ a dyma Awdurdod Technegol Cenedlaethol y Llywodraeth ar gyfer sicrwydd gwybodaeth gan alluogi rhannu gwybodaeth yn ddiogel a chyda sicrwydd, sy'n helpu ei gwsmeriaid i gyflawni eu nodau.

**5 Adolygu effeithiolrwydd**
Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn y Gofrestrfa Tir sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheolaeth fewnol a sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Mae Datganiad Sicrwydd blynyddol gan bob cyfarwyddwr y Gofrestrfa Tir, sy'n datgan bod system effeithiol o reolaeth fewnol ar gyfer rheoli risg mewn lle ac yn gweithio, hefyd wedi llywio fy adolygiad.

Yn ogystal, mae rhaglen dreigl o adroddiadau sicrwydd sy'n cwmpasu diogelwch systemau ffisegol a gwybodaeth, iechyd a diogelwch, ynni a'r amgylchedd, amrywiaeth a pharhad busnes yn llywio fy adolygiad.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Risg Busnes wedi fy nghynghori ynghylch goblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Mae mesurau i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus i'r system mewn lle.

Mae fy Mhennaeth Archwilio Mewnol yn darparu adroddiadau rheolaidd ar y materion risg a rheolaeth allweddol, i safonau sydd wedi'u diffinio yn Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth, ac yn rhoi barn annibynnol flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system y Gofrestrfa Tir o reolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Mae adroddiadau Archwilio Mewnol Unigol yn cael eu dosbarthu i Fwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Pwyllgor Archwilio.

Barn Pennaeth Archwilio Mewnol am y flwyddyn 2008/9 yw bod effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Gofrestrfa Tir yn foddhaol. Yn ei farn ef, nid oes unrhyw wendidau arwyddocaol sydd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y materion y dylid eu hadrodd yn y Datganiad ar Reolaeth Fewnol.

At ei gilydd, rwyf yn fodlon ag effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn y Gofrestrfa Tir.

**Peter Collis**
Prif Gofrestrydd Tir
a Phrif Weithredwr
6 Gorffennaf 200

# Adroddiad tâl

## Polisi tâl i uwch weision sifil

Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei bennu gan y Prif Weinidog yn dilyn cyngor annibynnol gan Gorff Adolygu Cyflogau Uwch. Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sy'n meddu ar y gallu a'r cymwysterau addas i gyflawni eu cyfrifoldebau amrywiol
- amrywiadau rhanbarthol/lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff
- polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad i adrannau gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol
- y cronfeydd sydd ar gael i adrannau fel y pennwyd yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth
- targed chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r corff adolygu yn ystyried y dystiolaeth a dderbynnir am ystyriaethau economaidd ehangach ac a yw ei argymhellion yn fforddiadwy.

Mae mwy o wybodaeth am waith y corff adolygu i'w gweld yn www.ome.uk.com.

Mae dau Bwyllgor Tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil (UWS), sy'n gweithredu ar awdurdod Bwrdd y Gofrestrfa Tir, yn ystyried yr argymhellion tâl a ddarperir gan y rheolwyr llinell, ac yn penderfynu sut y caiff bonysau eu dosbarthu yn yr adolygiad tâl blynyddol ar gyfer staff y Gofrestrfa Tir yn yr UWS, yn unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet.

Mae'r tâl sylfaenol a'r bonysau yn dibynnu ar berfformiad, sy'n cael ei asesu trwy system arfarnu flynyddol i uwch weision sifil, ac mae mwy o fanylion i'w gweld yn www.civilservice.gov.uk

Yn ystod y flwyddyn, aelodau'r Pwyllgor Tâl sy'n delio â band tâl 1 UWS oedd: Mike Cutt (Cadeirydd), Andy Howarth a Joe Timothy, ac ar gyfer y pwyllgor tâl sy'n delio â band tâl 2 UWS: Mike Cutt (Cadeirydd), David Rigney a Peter Collis.

## Polisi tâl i weision sifil eraill

Mae tâl staff y Gofrestrfa Tir nad ydynt ar raddau UWS yn cael ei bennu o dan delerau'r Cytundeb Tâl, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 1995. O dan y cytundeb hwn, mae tâl yn cael ei bennu bob blwyddyn yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori rhwng y Gofrestrfa Tir a'r undebau, ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth y Trysorlys.

Yn 2008/9, i berfformwyr boddhaol a fu ar y radd am flwyddyn, roedd y codiad cyflog yn cynnwys dilyniant gwarantedig o un cam i fyny'r band tâl ac adbrisio'r band tâl. I berfformwyr boddhaol gyda llai nag un flwyddyn o wasanaeth ar y radd roedd y codiad cyflog yn cynnwys adbrisio tâl. Hefyd, roedd bonws anghyfunol cysylltiedig â pherfformiad i bob aelod staff oedd yn derbyn y marciau arfarnu uchaf.

## Contractau gwasanaeth

Mae penodiadau Gwasanaeth Sifil yn cael eu gwneud yn unol â Chod Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i benodi ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored.

Mae pob un o'r cyfarwyddwyr a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yn cael ei benodi am gyfnod penagored nes eu bod yn cyrraedd oedran ymddeol arferol sef 65 oed. Byddai terfynu'r contract yn gynnar, heblaw ar sail camymddwyn, yn golygu bod yr unigolyn yn cael ei ddigolledu fel y pennir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

I gael mwy o wybodaeth am waith Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, ewch i www.civilservicecommissioners.gov.uk

# Hawliau cyflog a phensiwn[1]

| | Cyflog, gan gynnwys tâl perfformiad | | Cynnydd real mewn pensiwn a chyfandaliad yn 60 oed | | Cyfanswm cronedig ar 31 Mawrth 2009 | | Gwerth trosglwyddo arian parod cyfatebol (GTAPC) ar 31 Mawrth | | Cynnydd real mewn GTAPC ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau mewn ffactorau buddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Pensiwn | Cyfandaliad | Pensiwn | Cyfandaliad | | | |
| | 2009 £'000 | 2008 £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | 2008 £'000 | 2009 £'000 | £'000 |
| **Bwrdd y Gofrestrfa Tir** | | | | | | | | | |
| Peter Collis<br>Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | 175-180 | 155-160 | 0-2.5 | 2.5-5 | 60-65 | 185-190 | 1,201 | 1,314 | 15 |
| Ted Beardsall (tan 31 Gorffennaf 2008)<br>Cyflog blynyddol cyfatebol<br>Dirprwy Brif Weithredwr | 40-45<br>(115-120) | 110-115 | (0-2.5) | (0-2.5) | 60-65 | 180-185 | 1,386 | 1,371 | (12) |
| Andy Howarth<br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau | 130-135 | 125-130 | (0-2.5) | (0-2.5) | 55-60 | 175-180 | 1,320 | 1,400 | (2) |
| Joe Timothy<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 130-135 | 125-130 | 0-2.5 | 0-2.5 | 40-45 | 130-135 | 880 | 967 | 6 |
| Malcolm Dawson<br>Cyflog blynyddol cyfatebol<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 100-105 | 20-25<br>(85-90) | 0-2.5 | 2.5-5 | 25-30 | 85-90 | 427 | 478 | 17 |
| Heather Foster<br>Cyfarwyddwr Cyllid | 95-100 | 100-105 | 0-2.5 | 0-2.5 | 30-35 | 90-95 | 568 | 636 | 15 |
| John Wright<br>Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth | 105-110 | 100-105 | 0-2.5 | - | 5-10 | - | 52 | 77 | 18 |
| Annette Davies-Govett<br>Cyflog blynyddol cyfatebol<br>Cyfarwyddwr Masnachol | 90-95 | 0-5<br>(90-95) | 0-2.5 | - | 0-5 | - | - | 21 | 18 |
| Mike Cutt (tan 31 Mawrth 2009)<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 15-20 | 15-20 | - | - | - | - | - | - | - |
| David Rigney<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 15-20 | 15-20 | - | - | - | - | - | - | - |
| Catherine Raines (o 28 Ionawr 2009)<br>Cyflog blynyddol cyfatebol<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 0-5<br>(15-20) | - | - | - | - | - | - | - | - |

Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd tâl digolledu i un unigolyn, a oedd am y rhan honno o'r flwyddyn gyfrifyddu yn aelod o'r bwrdd. Mae wedi gwrthod rhoi ei ganiatâd i ddatgelu telerau'r taliad.

Mae'r holl gyfarwyddwyr gweithredol yn eistedd ar y Bwrdd Gweithredol.

[1] Mae'r tabl hwn yn amodol ar archwiliad

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, tâl perfformiad neu fonysau, goramser, lwfans Llundain, lwfansau recriwtio a chadw ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau eu bod yn ddarostyngedig i drethiant y DU. Ni dderbyniodd y cyfarwyddwyr unrhyw fuddion o fath arall yn ystod y flwyddyn. Mae'r tabl uchod yn seiliedig ar daliadau a wnaed gan y Gofrestrfa Tir ac felly wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Hydref 2002, gall gweision sifil ymuno ag un o bedwar cynllun budd diffiniedig; naill ai cynllun 'cyflog terfynol' (clasurol, premiwm a chlasurol plws); neu gynllun 'gyrfa gyfan' (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol wedi'u cyllido ac mae cost buddion yn cael ei thalu gydag arian a ddyfarnwyd gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau clasurol, premiwm, clasurol plws a nuvos yn cael eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Adwerthu (MPA). Gall y rhai sy'n ymuno ar ôl 1 Hydref 2002 ymuno â'r cynllun budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'pwrcasu arian' o ansawdd da gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr wedi'u gosod ar gyfradd o 1.5 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer cynllun clasurol a 3.5 y cant ar gyfer cynlluniau premiwm a chlasurol plws. Bydd buddion yn y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy pan fydd gweithwyr yn

ymddeol. Ar gyfer cynllun premiwm, bydd buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig (ond gall aelodau ildio (cymudo) peth o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad). Mae'r cynllun clasurol plws yn amrywiad o'r cynllun premiwm, ond gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â'r cynllun clasurol. Mewn cynllun nuvos mae aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn y flwyddyn cynllun honno ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â'r MPA. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Ar gyfer 2008/9, talodd y Gofrestrfa Tir gyfraniadau cyflogwr o £36.8 miliwn (2007/8: £36.4 miliwn) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 17.1 y cant i 25.5 y cant (2007/8: 17.1 y cant i 25.5 y cant) o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. O 2008/9 bydd bandiau cyflog yn cael eu hadolygu ond bydd y cyfraddau'n parhau yr un fath. (Bydd y cyfraddau yn newid o Ebrill 2009). Mae'r cyfraddau cyfraniad wedi'u gosod i gwrdd â chost buddion sy'n cronni yn ystod 2008/9 sydd i'w talu pan fydd aelod yn ymddeol, a'r buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn gynllun pensiwn rhanddeiliaid. Mae'r Gofrestrfa Tir yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i un o dri chynnyrch pensiwn rhanddeiliaid cymeradwy. Ar gyfer 2008/9 y cyfraniad oedd £56,587 (2007/8: £52,420). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond os yw'n cyfrannu bydd y cyflogwr yn cyfateb hyn hyd at derfyn o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r Gofrestrfa Tir hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o gyflog pensiynadwy, sef £4,280 yn 2008/9 (2007/8: £3,955) i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod ei dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n union pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes yn oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn yw 60 oed ar gyfer aelodau cynllun clasurol, premiwm a chlasurol plws a 65 oed i aelodau cynllun nuvos.

Roedd un deg naw unigolyn wedi ymddeol yn gynnar yn ystod y flwyddyn ar sail afiechyd. Cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn y flwyddyn oedd £34,977.

I gael manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ewch i'r wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

## Gwerthoedd trosglwyddo arian parod cyfatebol

Gwerth trosglwyddo arian parod cyfatebol (GTAPC) yw gwerth cyfalafol wedi'i asesu'n actiwaraidd y buddion cynllun pensiwn sydd wedi cronni gan aelod ar adeg arbennig. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTAPC yn daliad sy'n cael ei wneud gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion y mae'r unigolyn wedi cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae dadleniad yn gymwys iddi. Mae'r ffigurau GTAPC, ac o 2003/4 y manylion pensiwn eraill, yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac mae CS Vote wedi derbyn taliad trosglwyddo sy'n gymesur â'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol sy'n cael eu cymryd. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad iddo brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun. Cyfrifir GTAPC o fewn y canllawiau a'r fframwaith a bennir gan yr Institute and Faculty of Actuaries ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion sy'n deillio o dreth lwfans am oes, a all fod yn daladwy pan fydd buddion pensiwn yn cael eu tynnu.

## Cynnydd real mewn GTAPC

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTAPC a gyllidir gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant a'r cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**Peter Collis**
Prif Gofrestrydd Tir
a Phrif Weithredwr
6 Gorffennaf 2009

# Cyfrif incwm a gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009

| | Nodiadau | 2009<br>£'000 | 2008<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm ffioedd - gweithrediadau parhaus | 2 | 308,050 | 482,944 |
| Cost y gwasanaeth | 2 | (366,204) | (390,565) |
| (Diffig)/gwarged gros | | (58,154) | 92,379 |
| Costau gweinyddol | 2 | (15,181) | (20,790) |
| **(Diffyg)/gwarged gweithredu** | 2 | (73,335) | 71,589 |
| Colled ar werthu asedau sefydlog | | (14) | (36) |
| Llog i'w dderbyn | | 12,315 | 18,896 |
| Llog i'w dalu a thaliadau tebyg | 5 | (32) | (32) |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | 3.2 | (50,253) | 0 |
| **(Diffyg)/gwarged am y flwyddyn ariannol** | | (111,319) | 90,417 |
| Difidend i'w dalu | 6 | (18,572) | (19,709) |
| **(Diffyg)/gwarged a gadwyd am y flwyddyn ariannol** | 21 | (129,891) | 70,708 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 47 i 60 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o gyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009

| | Nodiadau | 2009<br>£'000 | 2008<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| (Diffyg)/gwarged am y flwyddyn ariannol | | (111,319) | 90,417 |
| (Diffyg)/gwarged heb ei realeiddio wrth ailbrisio Grant Wrth Gefn y Llywodraeth | 19 | 14 | (713) |
| (Diffyg)/gwarged heb ei realeiddio ar ailbrisio | 20 | (17,420) | 7,582 |
| **Cyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig am y flwyddyn ariannol** | | (128,725) | 97,286 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 47 i 60 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Cysoni symudiadau yng nghronfeydd y llywodraeth am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009

| | Nodiadau | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|---|
| (Diffyg)/gwarged am y flwyddyn ariannol | | (111,319) | 90,417 |
| Difidend i'w dalu | 6 | (18,572) | (19,709) |
| | | (129,891) | 70,708 |
| (Diffyg)/gwarged ar ailbrisio | 20 | (17,420) | 7,582 |
| Cynnydd yn y Gronfa Indemniad | 17 | 7,600 | 242 |
| Gostyngiad yn Grant Wrth Gefn y Llywodraeth | 19 | (1,881) | (751) |
| **(Gostyngiad)/Cynnydd net yng nghronfeydd y llywodraeth** | | (141,592) | 77,781 |
| Cronfeydd y llywodraeth wrth agor | | 592,156 | 514,375 |
| **Cronfeydd y llywodraeth wrth gau** | | 450,564 | 592,156 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 47 i 60 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Mantolen ar 31 Mawrth 2009

| | | 2009 | | 2008 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodiadau** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 7 | | 217,685 | | 249,110 |
| **Asedau anniriaethol** | | | | | |
| Ymchwil a datblygu | 8 | | 39,266 | | 27,452 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stociau | 9 | 1,144 | | 1,653 | |
| Dyledwyr | 10 | 17,836 | | 21,742 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 11, 24.2 | 280,329 | | 380,331 | |
| | | 299,309 | | 403,726 | |
| **Credydwyr - symiau'n ddyledus cyn pen blwyddyn** | 12.1 | (48,773) | | (74,646) | |
| **Asedau cyfredol net** | | | 250,536 | | 329,080 |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | 507,487 | | 605,642 |
| **Credydwyr - symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | 12.2 | | (11,562) | | (12,051) |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau** | 16 | | (45,361) | | (1,435) |
| **Asedau net** | | | 450,564 | | 592,156 |
| **Cronfa Indemniad** | 17 | | 23,000 | | 15,400 |
| **Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn** | | | | | |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | 18 | | 61,545 | | 61,545 |
| Grant Wrth Gefn y Llywodraeth | 19 | | 6,718 | | 8,599 |
| Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio | 20 | | 65,564 | | 82,984 |
| Cyfrif incwm a gwariant | 21 | | 293,737 | | 423,628 |
| | | | 450,564 | | 592,156 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 47 i 60 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

**Peter Collis**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
Dyddiad: 6 Gorffennaf 2009

# Datganiad llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

| | Nodiadau | 2009<br>£'000 | 2008<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Llif arian net (allan)/i mewn o weithgareddau gweithredu | 24.1 | (66,521) | 111,773 |
| **Enillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | 13,818 | 18,505 |
| Elfen llog taliadau prydles ariannol | 5 | (32) | (32) |
| | | 13,786 | 18,473 |
| **Gwariant cyfalaf** | | | |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | | (14,858) | (22,919) |
| Ymchwil a datblygu | | (12,249) | (16,860) |
| Gwerthu asedau sefydlog diriaethol | | 38 | 98 |
| **Llif arian parod net allan o wariant cyfalaf** | | (27,069) | (39,681) |
| Difidend wedi'i dalu ar Gyfalaf Difidend Cyhoeddus | | (19,709) | (16,548) |
| **Llif arian parod net (allan)/i mewn cyn ariannu** | | (99,513) | 74,017 |
| **Ariannu** | | | |
| Elfen cyfalaf taliadau prydles ariannol | | (489) | (479) |
| **(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod** | 24.2 | (100,002) | 73,538 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 47 i 60 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar y cyfrifon

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2008/9 (LIAA) ac yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan y Trysorlys yn unol ag adran 4 (6)(a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y LIAA yn dilyn arferion cyfrifyddu cymeradwy cyffredinol y DU i gwmnïau i'r graddau ei fod yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus. Pan fydd y LIAA yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig y Gofrestrfa Tir ar gyfer y dibenion o roi darlun gwir a theg wedi cael ei ddewis. Mae polisïau cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir wedi cael eu defnyddio'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu i ddarparu ar gyfer ailbrisio asedau sefydlog diriaethol.

### 1.3 Incwm ffioedd

Dyma'r incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Gofrestrfa Tir. Mae'n cynnwys ffioedd, yn glir o unrhyw ad-daliadau, ar gyfer gwasanaethau statudol i gofrestru teitl a phridiannau tir gan gynnwys credydau amaethyddol. Mae incwm yn cael ei gydnabod yn y cyfrifon yn y flwyddyn ariannol pan ddarperir y gwasanaeth.

Mae rhai gwasanaethau yn gofyn am dderbyn tâl gyda'r cais sy'n golygu bod taliadau'n cael eu derbyn am wasanaethau sydd heb eu darparu eto o fewn y flwyddyn ariannol yr adroddir arni. Mae'r symiau hyn yn cael eu hadrodd fel ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw a'u dangos o fewn credydwyr.

### 1.4 Yswiriant

Codir yswiriant i'r cyfrif incwm a gwariant ar sail y premiymau gwirioneddol a dalwyd, ar gyfer eiddo, lifftiau, cerbydau, ceir, defnyddio ceir hurio a theithio dramor.

### 1.5 Pensiynau

Mae gweithwyr cyflogedig y Gofrestrfa Tir yn weision sifil ac mae hawl ganddynt fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Mae PGPGS yn gynllun buddion wedi'u diffinio aml-gyflogwr heb ei gyllido, ond nid yw'r Gofrestrfa Tir yn gallu adnabod ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Mae'r Gofrestrfa Tir yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y mae'n cael budd o wasanaethau'r gweithwyr drwy dalu i'r PGPGS symiau wedi'u cyfrifo ar sail groniadol. Mae rhwymedigaeth am dalu buddion yn y dyfodol yn dâl i'r PGPGS. Roedd actiwari'r cynllun wedi prisio'r cynllun fel ar 31 Mawrth 2007. Fe gewch fanylion yng nghyfrifon adnoddau'r Swyddfa Cabinet o dan Flwydd-dal Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Fe welwch fanylion pellach am bensiynau yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 39 i 41.

### 1.6 Asedau sefydlog diriaethol

Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliad a les-ddaliad hir yn cael eu prisio'n broffesiynol bob tair blynedd. Yn y blynyddoedd rhyngddynt, bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn darparu prisiad 'bwrdd gwaith'. Cynhaliwyd prisiad 'llawn' yn 2007/8 a chynhaliwyd prisiad 'bwrdd gwaith' y flwyddyn hon. Mae LIAA yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir ddatgelu asedau sefydlog eraill yn y fantolen ar gost hanesyddol wedi'i haddasu. Yn achos asedau heb fod yn eiddo oes fer defnyddir cost hanesyddol fel brasamcan o gost gyfredol yr ased.

Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliad a les-ddaliad hir wedi'u cynnwys ar ailbrisio llai dibrisio cronedig. Mae'r holl asedau sefydlog diriaethol eraill yn cael eu cynnwys ar gost hanesyddol llai dibrisio cronedig. Nid yw asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio. Mae'r tâl dibrisio yn cael ei gyfrifo er mwyn dyrannu'r gost neu'r swm wedi'i ailbrisio, llai gwerth gweddillol amcangyfrifedig asedau sefydlog diriaethol yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill gan ddefnyddio'r dull llinell syth. Mae oes asedau yn cael ei adolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol. Defnyddir y cyfraddau dibrisio asedau canlynol:

| | |
|---|---|
| Tir rhydd-ddaliad | dim |
| Adeiladau rhydd-ddaliad | 2 y cant |
| Tir ac adeiladau les-ddaliad | cyfnod y brydles |
| Cyfarpar telegyfathrebu | 20 y cant |
| Dodrefn, gosodion a ffitiadau | 20 y cant |
| Cyfarpar swyddfa | 20 y cant |
| Cyfrifiaduron: prif-ffrâm | 20 y cant |
| Cyfrifiaduron: mini a chyfrifiaduron personol | 33 1/3 y cant |
| Cerbydau modur | 33 1/3 y cant |
| Ceblo strwythuredig | 10 y cant |
| Offer a pheiriannau trwm | 10 y cant |

### 1.7 Amhariad o asedau sefydlog

Cynhelir adolygiadau amhariad os oes arwyddion nad oes modd adennill y gwerthoedd sy'n cario.

**1.8 Ymchwil a datblygu**
Mae'r Gofrestrfa Tir wrthi'n datblygu e-drawsgludo, system electronig i helpu gwella prosesau prynu, gwerthu a chofrestru tir ac eiddo yng Nghymru a Lloegr. Mae cost datblygu e-drawsgludo yn cael ei chyfalafu fel ased anniriaethol ar y fantolen. Mae gwariant yn cael ei nodi ar wahân drwy gyfres o brosiectau a ddelir o fewn strwythur y Rhaglen Gweddnewid Busnes. Mae holl gostau'r rhaglen, gan gynnwys costau staff y gellir eu priodoli'n uniongyrchol, sy'n gymwys o dan Ddatganiad o Arferion Cyfrifyddu Safonol 13 i'w diffinio fel gwariant datblygu, yn cael eu cyfalafu. Cânt eu hamorteiddio yn erbyn llinynnau incwm e-drawsgludo y dyfodol.

**1.9 Gwaith ar y gweill**
Caiff gwaith ar y gweill ei ddatgan ar y gost isaf a'r gwerth realeiddio net, sy'n seiliedig ar y ffi, llai costau pellach y disgwylir eu talu pan fydd yr achos wedi'i gwblhau.

**1.10 Darpariaethau**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol ac adeiladol sydd ag amseriad ansicr neu sy'n swm ar ddyddiad y fantolen, ar sail amcangyfrif gorau'r rheolwyr o'r gwariant sydd ei angen i gyflawni'r rhwymedigaeth. Os yw'n briodol ategir hyn gan gyngor proffesiynol annibynnol. Codir darpariaethau i'r cyfrif incwm a gwariant.

**1.11 Cronfa Indemniad**
Sefydlwyd y Gronfa Indemniad yn 1993. Yn 2007/8, comisiynodd y Gofrestrfa Tir Lane, Clark & Peacock i gynnal adolygiad actiwaraidd. Argymhellodd yr adroddiad fod y Gofrestrfa Tir yn cynyddu'r gronfa i £23 miliwn fel ar 31 Mawrth 2009. Bydd hawliadau a brofir ac a gwmpasir gan y gronfa, yn y lle cyntaf, yn cael eu codi yn erbyn y gronfa.

**1.12 Rhwymedigaethau amodol**
Os yw'n briodol, mae rhwymedigaethau sydd â siawns phosibl yn unig o grisialu ac nid ydynt yn bodloni meini prawf y darpariaethau wedi'u dosbarthu fel rhwymedigaethau amodol. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu, i geisiadau am golledion sy'n codi o wallau, neu dwyll mewn perthynas â chyfrifoldeb statudol y Gofrestrfa Tir fel yswiriwr teitlau yng Nghymru a Lloegr.

**1.13 Prydlesi gweithredol**
Codir costau rhentu o dan brydlesi gweithredol i'r cyfrif incwm a gwariant fel costau a gafwyd.

**1.14 Prydlesi ariannol**
Os yw'r Gofrestrfa Tir yn cadw holl risgiau a manteision perchnogaeth ased sy'n amodol ar brydles, caiff y brydles ei thrin fel prydles ariannol. Mae rhandaliadau sy'n daladwy yn y dyfodol o dan brydlesi ariannol, yn glir o daliadau ariannol, yn cael eu cynnwys yn y golofn credydwyr gyda'r gwerthoedd ased cyfatebol wedi'u cofnodi yn y golofn asedau sefydlog a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig neu eu telerau prydles, p'un bynnag yw'r byrraf. Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng yr elfen ariannol, a godir i'r cyfrif incwm a gwariant fel llog, a'r elfen cyfalaf, sy'n lleihau'r rhwymedigaeth sy'n ddyledus ar gyfer rhandaliadau yn y dyfodol.

**1.15 Grant cyfalaf y llywodraeth**
Mae gwerth asedau a gyllidir gan grant y llywodraeth ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei ddal mewn Grant Wrth Gefn y Llywodraeth. Mae'r asedau y telir amdanynt gyda'r grant yn cael eu hailbrisio a'u dibrisio yn unol â pholisi asedau sefydlog y Gofrestrfa Tir. Mae costau dibrisio a symudiadau ailbrisio ar gyfer yr asedau hyn yn cael eu codi i'r gronfa wrth gefn yn unol â chanllawiau LIAA.

**1.16 Taliadau i gyflenwyr Menter Cyllid Preifat (MCP)**
Mae trafodion MCP wedi cael eu cyfrif amdanynt yn unol â Nodyn Technegol Rhif 1 (Diwygiedig) ar *Sut i roi cyfrif am drafodion MCP*. Gan fod gweddill y risgiau a manteision perchnogaeth eiddo MCP yn cael ei ddwyn gan weithredydd y MCP, mae'r taliadau MCP yn cael eu cofnodi fel cost gweithredu.

**1.17 TAW**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn rhoi cyfrif am TAW ar ei gweithgareddau statudol o dan Gyfarwyddiadau Trethu a Chontractio Gwasanaethau Allan y Trysorlys. Ar gyfer gweithgaredd nad yw'n statudol, sy'n weithgarwch busnes, codir ac adenillir TAW yn ôl rheolau TAW masnachol. Mae TAW nad oes modd ei hadennill yn cael ei chodi i'r categori gwariant perthnasol neu ei chynnwys yng nghostau prynu wedi'u cyfalafu yr asedau sefydlog. Os yw treth allbwn yn cael ei chodi neu os oes modd adennill treth fewnbwn nodir y symiau yn glir o TAW.

**1.18 Cost cyfalaf**
Mae'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir dalu i'r Trysorlys ddifidend blynyddol sef 3.5 y cant o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'n ddigonol ym marn y Gofrestrfa Tir i gyfrifo'r ffigur hwn drwy ddefnyddio cyfartaledd blynyddol.

**1.19 Technegau amcangyfrif**
Technegau amcangyfrif yw'r dulliau a fabwysiadir i bennu'r symiau ariannol a amcangyfrifir ar gyfer incwm a gwariant yn ystod y cyfnod adrodd a phrisio asedau a rhwymedigaethau a datgelu asedau a rhwymedigaethau amodol ar ddyddiad y cyfrifon. Mae technegau amcangyfrif arwyddocaol ar gyfer y Gofrestrfa Tir yn cynnwys cydnabod a phrisio darpariaethau.

# 2 Adrodd cylchrannol

Mae'r wybodaeth yn y nodyn hwn yn bodloni dau ddiben. Y cyntaf yw cydymffurfio â chanllaw *Ffioedd a thaliadau'r* Trysorlys a'r ail yw cydymffurfio â'r Datganiad o Arferion Cyfrifyddu Safonol 25. Mae'r Gofrestrfa Tir yn cyflawni dau wasanaeth statudol ar wahân: cofrestru teitl a phridiannau tir gan gynnwys credydau amaethyddol. Yn y tabl isod nodir yr incwm ffioedd, cyfanswm cost y gwasanaeth a'r (diffyg)/gwarged ar gyfer pob un o'r gwasanaethau hyn.

| | Cofrestru teitl | | Pridiannu tir a chredydau amaethyddol | | Cyfanswm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2009 £'000** | **2008 £'000** | **2009 £'000** | **2008 £'000** | **2009 £'000** | **2008 £'000** |
| Incwm ffioedd | 302,387 | 473,901 | 5,663 | 9,043 | 308,050 | 482,944 |
| Cost y gwasanaeth | (363,553) | (387,762) | (2,651) | (2,803) | (366,204) | (390,565) |
| Costau gweinyddol | (15,061) | (20,627) | (120) | (163) | (15,181) | (20,790) |
| **(Diffyg)/gwarged gweithredu** | (76,227) | 65,512 | 2,892 | 6,077 | (73,335) | 71,589 |

Amcan ariannol y gronfa fasnachu yw talu costau'r ddau wasanaeth a gwneud enillion ar y cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd o 3.5 y cant, gan gymryd un flwyddyn gyda'r llall (gweler hefyd nodyn 27). Mae asedau net yr adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol yn cynrychioli tua 2 y cant o gyfanswm asedau net y Gofrestrfa Tir. Mae'n anaddas, felly, nodi'r wybodaeth hon ar wahân.

# 3 (Diffyg)/gwarged gweithredu

**3.1 Nodir y (diffyg)/gwarged gweithredu ar ôl codi am y canlynol**

| | **2009 £'000** | **2008 £'000** |
|---|---|---|
| Costau staff (gweler nodyn 4 a'r adroddiad tâl) | 239,970 | 247,220 |
| Darpariaethau ar gyfer costau indemniad (gweler nodyn 17) | 7,600 | 242 |
| Costau seilwaith TG (gweler nodyn 26) | 21,447 | 21,710 |
| Hurio peiriannau | 6,632 | 6,692 |
| Tâl yr archwiliwr - ffi archwilio | 70 | 70 |
| Tâl yr archwiliwr - ffi archwilio IFRS | 8 | 0 |
| Dibrisio'r flwyddyn gyfredol - asedau a berchenogir (gweler nodyn 7) | 20,246 | 21,563 |
| Dibrisio'r flwyddyn gyfredol - asedau a brydlesir (gweler nodyn 7) | 1,114 | 1,100 |
| Amhariad mewn gwerth asedau sefydlog | 2,965 | 117 |
| Gwariant datblygu a ddilëwyd | 0 | 15,008 |
| Costau ymddeoliad cynnar | 0 | 820 |
| Tâl am brydlesi gweithredu - adeiladau | 3,519 | 3,836 |
| Incwm gweithredu arall | (5,912) | (4,930) |

### 3.2 Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu

| | 2009 | | | 2008 |
|---|---|---|---|---|
| | **Ymddeoliad cynnar** | **Diswyddo cynnar** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau a gafwyd mewn blwyddyn | 2,137 | 3,294 | 5,431 | 0 |
| Costau a ddarparwyd ar eu cyfer | 26,436 | 18,386 | 44,822 | 0 |
| | 28,573 | 21,680 | 50,253 | 0 |

Yn ystod y flwyddyn roedd y Gofrestrfa Tir wedi dod â chynlluniau ailstrwythuro ac ad-drefnu ymlaen, fel y rhagwelwyd yn wreiddiol yng Nglasbrint y Gofrestrfa Tir, mewn ymateb i'r dirywiad economaidd a chynigiwyd cynlluniau ymddeoliad cynnar a diswyddo cynnar i'r staff.

Mae cost y cynlluniau hyn yn y flwyddyn wedi cael eu datgelu ar wahân ar flaen y cyfrif incwm a gwariant.

# 4 Gwybodaeth am weithwyr

### 4.1 Costau staff

| | 2009 | | | 2008 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | 188,349 | 5,366 | 193,715 | 205,203 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 13,690 | 57 | 13,747 | 14,663 |
| Costau pensiwn eraill | 36,678 | 144 | 36,822 | 36,490 |
| **Cyfanswm costau staff** | 238,717 | 5,567 | 244,284 | 256,356 |
| Costau staff wedi'u cyfalafu | (4,239) | (75) | (4,314) | (9,136) |
| **Cyfanswm costau staff net** | 234,478 | 5,492 | 239,970 | 247,220 |

Mae'r symiau a ddatgelir fel cyflogau yn cynnwys tâl cyfarwyddwyr. Mae costau staff wedi'u cyfalafu yn cyfeirio at ymchwil a datblygu e-drawsgludo (gweler nodyn 1.8). Mae costau staff eraill yn cynnwys cyflogau a chostau nawdd cymdeithasol ar gyfer staff a gyflogir fel staff dros dro neu staff ar gontractau cyfnod penodol a chostau staff asiantaeth.

### 4.2 Niferoedd staff

Roedd nifer y bobl a gyflogwyd gan y Gofrestrfa Tir ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2009 | | | 2008 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| Uwch reolwyr | 8 | 0 | 8 | 7 |
| Gweithredol | 7,313 | 10 | 7,323 | 7,598 |
| Gweinyddol | 291 | 30 | 321 | 321 |
| TG | 505 | 14 | 519 | 531 |
| | 8,117 | 54 | 8,171 | 8,457 |

Roedd nifer y bobl a gyflogwyd (cyfwerth ag amser llawn) gan y Gofrestrfa Tir ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2009 | | | 2008 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| Uwch reolwyr | 8 | 0 | 8 | 7 |
| Gweithredol | 6,521 | 10 | 6,531 | 6,828 |
| Gweinyddol | 282 | 30 | 312 | 308 |
| TG | 486 | 13 | 499 | 509 |
| | 7,297 | 53 | 7,350 | 7,652 |

**4.3 Cyflog a hawliau pensiwn y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr**
Mae cyflog a hawliau pensiwn Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr y Gofrestrfa Tir wedi'u cynnwys yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 39 i 41.

**4.4 Pensiynau**
Darperir buddion pensiwn i'r rhan fwyaf o'r staff drwy'r PGPGS. Ar gyfer 2008/9 roedd cyfraniadau gweithwyr o £36.8 miliwn (2007/8: £36.4 miliwn) yn daladwy i'r PGPGS ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 17.1 y cant a 25.5 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Gallai gweithwyr a ymunodd ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Ar gyfer 2008/9 roedd y Gofrestrfa Tir wedi gwneud cyfraniad o £56,587 (2007/8: £52,420). Fe welwch fanylion pellach am y cynlluniau pensiwn yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 39 i 41.

# 5 Llog i'w dalu a thaliadau tebyg

| | 2009 | 2008 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Taliadau ariannol | 32 | 32 |

# 6 Difidend sy'n daladwy

| | 2009 | 2008 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Difidend sy'n daladwy | 18,572 | 19,709 |

Mae'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir dalu difidend blynyddol i'r Trysorlys sy'n 3.5 y cant o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol.

# 7 Asedau sefydlog diriaethol

| | Tir ac adeiladau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhydd-ddaliad | Prydles hir | Prydles fer | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfrifiaduron, telegyfathrebu a chyfarpar swyddfa | Dodrefn, gosodion a ffitiadau a cherbydau modur | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 164,616 | 43,698 | 3,524 | 7,139 | 103,116 | 34,599 | 356,692 |
| Ychwanegiadau | (4) | 0 | 22 | 5,515 | 5,952 | 768 | 12,253 |
| Asedau'n cael eu defnyddio | 996 | 0 | 0 | (9,723) | 7,993 | 734 | 0 |
| Ailbrisiad yn y flwyddyn[1] | (12,255) | (4,296) | (32) | 0 | 0 | 0 | (16,583) |
| Amhariad[3] | (3,541) | (603) | (2) | 0 | 0 | 0 | (4,146) |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 | 0 | (8,580) | (511) | (9,091) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | 149,812 | 38,799 | 3,512 | 2,931 | 108,481 | 35,590 | 339,125 |
| **Dibrisiad** | | | | | | | |
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 9,584 | 2,852 | 1,158 | 0 | 70,256 | 23,732 | 107,582 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn[2] | 2,579 | 813 | 465 | 0 | 15,043 | 3,812 | 22,712 |
| Dibrisiad ôl-groniad | 83 | 111 | (9) | 0 | 0 | 0 | 185 |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 | 0 | (8,551) | (488) | (9,039) |
| **Ar ddiwedd y flwyddyn** | 12,246 | 3,776 | 1,614 | 0 | 76,748 | 27,056 | 121,440 |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2009** | 137,566 | 35,023 | 1,898 | 2,931 | 31,733 | 8,534 | 217,685 |
| Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2008 | 155,032 | 40,846 | 2,366 | 7,139 | 32,860 | 10,867 | 249,110 |

[1] £(0.14) miliwn (2007/8: £0.713 miliwn) wedi'i ddyrannu i asedau a gyllidir gan grant y llywodraeth (gweler nodyn 19).
[2] £1.352 miliwn (2007/8: £1.464 miliwn) wedi'i ddyrannu i asedau a gyllidir gan gant y llywodraeth (gweler nodyn 19).
[3] £(0.515) miliwn (2007/8: Dim) wedi'i ddyrannu i asedau a gyllidir gan grant y llywodraeth (gweler nodyn 19).

Mae'r polisïau cyfrifyddu yn datgan mai polisi'r Gofrestrfa Tir yw prisio tir ac adeiladau rhydd-ddaliad a phrydles hir yn broffesiynol bob tair blynedd. Cynhaliwyd prisiad llawn ar 1 Ionawr 2008. Yn y blynyddoedd rhyngddynt, mae'r ffigurau hyn yn cael eu diweddaru gan brisiad 'bwrdd gwaith'. Caiff prisiadau proffesiynol a phrisiadau 'bwrdd gwaith' eu darparu gan briswyr allanol, Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Sail y prisiad oedd defnydd presennol gyda gwerth ar y farchnad agored ar gyfer eiddo dros ben neu eiddo a isosodir. Roedd diffyg o £7.223 miliwn ar werth y farchnad agored dros werth defnydd presennol ar gyfer yr eiddo rhydd-ddaliad a les-ddaliad ar 1 Ionawr 2009.

Swm net y prydlesi ariannol ar ddiwedd y flwyddyn oedd £12.6 miliwn (2007/8: £13.2 miliwn). Yn y flwyddyn roedd £0.67 miliwn (2007/8: £0.55 miliwn) o'r dibrisiad yn ymwneud â'r asedau hyn.

Os yw gwerth eiddo yn gostwng yn is na'r gwerthoedd gwreiddiol, codir y diffygion (dros dro a pharhaol) i'r cyfrif incwm a gwariant fel amhariad.

Swm y tir rhydd-ddaliad oedd £37.42 miliwn (2007/8: £44.35 miliwn).

Roedd Durham Boldon House, eiddo rhydd-ddaliad a gafodd ei brisio am £6 miliwn, yn wag ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn dilyn uniad ffisegol y ddwy swyddfa yn Durham yn hwyr ym Mawrth 2009. Cafodd y gwerthiant, a oedd i'w gwblhau yn 2008/9, ei gwblhau ar 2 Mehefin 2009.

# 8 Ymchwil a datblygu e-drawsgludo

| | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Costau e-drawsgludo wedi'u cyfalafu | | |
| Ar 1 Ebrill | 27,452 | 26,127 |
| Ychwanegiadau | 11,814 | 16,333 |
| Gwariant datblygu a ddilëwyd | 0 | (15,008) |
| | 39,266 | 27,452 |

Mae cost datblygu e-drawsgludo yn cael ei chyfalafu fel ased anniriaethol ar y fantolen a chaiff ei hamorteiddio yn erbyn llinynnau incwm e-drawsgludo yn y dyfodol.

# 9 Gwaith ar y gweill

| | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| **Mae stociau'n cynnwys** | | |
| Gwaith ar y gweill | 1,144 | 1,653 |

# 10 Dyledwyr

**10.1 Dyledwyr sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn**

| | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnach | 7,694 | 10,052 |
| Dyledwyr eraill | 2,642 | 3,155 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 5,945 | 6,694 |
| | 16,281 | 19,901 |

**10.2 Dyledwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn**

| | | |
|---|---|---|
| Dyledwyr eraill | 842 | 884 |
| Rhagdaliadau | 713 | 957 |
| | 1,555 | 1,841 |
| **Cyfanswm dyledwyr** | 17,836 | 21,742 |

# 11 Arian yn y banc ac mewn llaw

| | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Swyddfa Tâl-feistr Gyffredinol EM | 259,217 | 372,088 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 21,112 | 8,243 |
| **Cyfanswm** | 280,329 | 380,331 |

Mae'r Gofrestrfa Tir yn dal adneuon cwsmeriaid fel rhan o'r cyfleuster taliadau cyfrif credyd. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 25 o gyfrifon (2007/8: 88) ac roedd cyfanswm o £0.93 miliwn (2007/8: £2.02 miliwn) yn cael ei ddal yng nghyfrif banc y Gofrestrfa Tir.

Ni ddangosir adneuon cwsmeriaid yn y fantolen oherwydd eu bod yn cyfeirio at arian trydydd parti (gweler nodyn 24.2).

# 12 Credydwyr

**12.1 Symiau'n ddyledus cyn pen blwyddyn**

| | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw | 3,500 | 8,667 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | 4,420 | 4,652 |
| Credydwyr masnach | 4,420 | 6,967 |
| Credydwyr eraill | 3,471 | 3,515 |
| Croniadau | 13,463 | 30,217 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi ariannol | 927 | 919 |
| Difidend i'w dalu | 18,572 | 19,709 |
| | 48,773 | 74,646 |

**12.2 Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn**

| | 2009 £'000 | 2008 £'000 |
|---|---|---|
| Ymrwymiadau prydlesi ariannol | 11,562 | 12,051 |

# 13 Gweddillion o fewn y llywodraeth

**13.1 Dyledwyr**

| | Symiau'n ddyledus cyn pen blwyddyn | | Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | |
|---|---|---|---|---|
| | 2009 | 2008 | 2009 | 2008 |
| Gweddillion gyda: | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyrff llywodraeth ganol eraill | 2,556 | 2,831 | | |
| Awdurdodau lleol | 1,136 | 404 | | |
| Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu | 2 | 0 | | |
| Gweddillion o fewn y llywodraeth | 3,694 | 3,235 | | |
| Gweddillion gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | 12,587 | 16,666 | 1,555 | 1,841 |
| **Cyfanswm dyledwyr** | 16,281 | 19,901 | 1,555 | 1,841 |

**13.2 Credydwyr**

| | Symiau'n ddyledus cyn pen blwyddyn | | Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | |
|---|---|---|---|---|
| | **2009** | **2008** | **2009** | **2008** |
| Gweddillion gyda: | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cyrff llywodraeth ganol eraill | 26,670 | 27,971 | | |
| Awdurdodau lleol | 31 | 111 | | |
| Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu | 322 | 47 | | |
| Gweddillion o fewn y llywodraeth | 27,023 | 28,129 | | |
| Gweddillion gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | 21,750 | 46,517 | 11,562 | 12,051 |
| **Cyfanswm credydwyr** | 48,773 | 74,646 | 11,562 | 12,051 |

# 14 Ymrwymiadau prydles

**14.1 Prydlesi gweithredu**

| | **2009** | **2008** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Ymrwymiadau blynyddol mewn perthynas â phrydlesi gweithredu tir ac adeiladau sy'n dod i ben cyn pen: | | |
| Blwyddyn | 0 | 0 |
| Dwy i bum mlynedd | 2,415 | 1,260 |
| Mwy na phum mlynedd | 1,104 | 2,576 |
| | 3,519 | 3,836 |

**14.2 Prydlesi ariannol**

| | **2009** | **2008** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Taliadau'n ddyledus cyn pen: | | |
| Blwyddyn | 927 | 919 |
| Dwy i bum mlynedd | 3,813 | 3,682 |
| Mwy na phum mlynedd | 7,749 | 8,369 |
| | 12,489 | 12,970 |

# 15 Benthyciadau

Nid oedd gan y Gofrestrfa Tir unrhyw fenthyciadau yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2009.

# 16 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | **2009** | | | **2008** |
|---|---|---|---|---|
| | **Ymddeoliad cynnar** | **Diswyddo cynnar** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ar 1 Ebrill | 1,435 | 0 | 1,435 | 2,557 |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 26,436 | 18,386 | 44,822 | 1,079 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (896) | 0 | (896) | (2,201) |
| **Ar 31 Mawrth** | 26,975 | 18,386 | 45,361 | 1,435 |

Mae'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar (DYC) yn rhoi buddion ymddeoliad i rai gweithwyr. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Mae'r Gofrestrfa Tir yn talu cost y buddion hyn tan oedran ymddeol arferol y gweithwyr sydd wedi ymddeol o dan y cynllun. Roedd y cyfanswm taliadau ar gyfer y flwyddyn yn £0.90 miliwn yn 2008/9, a darparwyd ar gyfer £1 miliwn ohono o fewn y ddarpariaeth DYC yng nghyfrifon 2007/8. Codir cyfanswm yr atebolrwydd pensiwn hyd at oedran ymddeol arferol mewn perthynas â phob gweithiwr i'r cyfrif incwm a gwariant yn y flwyddyn pan fydd y gweithiwr yn cymryd ymddeoliad cynnar ac mae darpariaeth ar gyfer taliadau pensiwn yn y dyfodol yn cael ei chreu. Yna mae taliadau pensiwn a budd cysylltiedig i'r gweithiwr sydd wedi ymddeol tan yr oedran ymddeol arferol yn cael eu codi bob blwyddyn yn erbyn y ddarpariaeth.

Sefydlwyd y ddarpariaeth diswyddo cynnar i ddarparu ar gyfer cost yr aelodau staff hynny fydd yn gadael y Gofrestrfa Tir yn y blynyddoedd i ddod, ond sydd wedi gwneud ymrwymiad pendant i fanteisio ar y cynnig o ddiswyddo cynnar yn 2008/9.

Mae'r Safon Adrodd Ariannol 12 *Darpariaethau, rhwymedigaethau ac asedau wrth gefn* yn mynnu: "Os yw gwerth amser arian yn sylweddol, dylai swm darpariaeth gynrychioli gwerth presennol y gwariant y disgwylir y bydd yn ofynnol i fodloni'r rhwymedigaeth." Am y rheswm hwn dim ond y ddarpariaeth ymddeoliad cynnar sydd wedi cael ei disgowntio oherwydd bydd y rhwymedigaeth diswyddo cynnar yn cael ei setlo'n bennaf yn gynnar yn 2009/10. Y ffactor disgownt a gymhwyswyd i'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar dros 10 mlynedd yw 2.2 y cant.

## 17 Cronfa Indemniad

| | 2009<br>£'000 | 2008<br>£'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | 15,400 | 15,158 |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 15,871 | 8,619 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (8,271) | (8,377) |
| **Ar 31 Mawrth** | 23,000 | 15,400 |

## 18 Cyfalaf Difidend Cyhoeddus

| | 2009<br>£'000 | 2008<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cyhoeddwyd yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Masnachu'r Llywodraeth 1990 | 61,545 | 61,545 |

## 19 Grant Wrth Gefn y Llywodraeth

Yn 2002/3, dyfarnwyd £15 miliwn i'r Gofrestrfa Tir o'r Gronfa Moderneiddio Cyfalaf i ddatblygu cyfleusterau cyfrifiadurol newydd. Ni waredwyd unrhyw asedau yn 2008/9 (2007/8:dim).

| | 2009<br>£'000 | 2008<br>£'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | 8,599 | 9,350 |
| Ailbrisio | (14) | 713 |
| Dibrisio | (1,352) | (1,464) |
| Amhariad | (515) | 0 |
| **Ar 31 Mawrth** | 6,718 | 8,599 |

## 20 Cronfa wrth gefn ailbrisio

| | 2009 | 2008 |
|---|---|---|
| Heb ei realeiddio: | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill | 82,984 | 75,402 |
| Ailbrisio (diffyg)/gwarged | (17,420) | 7,582 |
| **Ar 31 Mawrth** | 65,564 | 82,984 |

## 21 Cyfrif incwm a gwariant

| | 2009 | 2008 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill | 423,628 | 352,920 |
| (Diffyg)/gwarged a gedwir am y flwyddyn | (129,891) | 70,708 |
| **Ar 31 Mawrth** | 293,737 | 423,628 |

## 22 Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2009 | 2008 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Gwariant cyfalaf:** | | |
| Wedi contractio ar ei gyfer ond heb ei ddarparu yn y cyfrifon hyn. | 787 | 11,966 |

## 23 Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn datgan bod y Gofrestrfa Tir yn gyfreithiol atebol am indemnio colledion sy'n deillio o gamgymeriadau neu hepgoriadau ar y gofrestr teitl. Mae hyn yn cynnwys camgymeriadau sy'n deillio o dwyll gan drydydd parti. Fel yswiriwr statudol teitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau a wnaed gan y Gofrestrfa Tir. Roedd yr hawliadau sy'n aros o dan y rhwymedigaeth hon fel a ganlyn:

| | 2009 | 2008 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Mewn perthynas â chofnodion yn y Gofrestr | 4,951 | 4,199 |
| Twyll a ffugio | 10,556 | 7,502 |

# 24 Nodiadau ar y datganiad llif arian

### 24.1 Cysoni (diffyg)/gwarged gweithredu â llif arian net (allan)/i mewn o weithgareddau gweithredu

| | 2009<br>£'000 | 2008<br>£'000 |
|---|---|---|
| (Diffyg)/gwarged gweithredu | (73,335) | 71,589 |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | (50,253) | 0 |
| Taliadau dibrisiad | 21,360 | 22,663 |
| Gwariant datblygu a ddilëwyd | 0 | 15,008 |
| Amhariad mewn gwerth asedau sefydlog | 2,965 | 0 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anniriaethol | 0 | 117 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn darpariaethau | 43,926 | (139) |
| Gostyngiad mewn stociau | 509 | 748 |
| Gostyngiad mewn dyledwyr | 2,404 | 4,077 |
| Gostyngiad mewn credydwyr | (21,697) | (2,532) |
| Cynnydd yn y Gronfa Indemniad | 7,600 | 242 |
| **Llif arian net (allan)/i mewn o weithgareddau gweithredu** | (66,521) | 111,773 |

### 24.2 Cysoni'r llif arian net i mewn â'r symudiad mewn arian net

| | 2009<br>£'000<br>Cronfeydd y Gofrestrfa Tir | 2009<br>£'000<br>Adneuon cwsmeriaid | 2008<br>£'000<br>Cronfeydd y Gofrestrfa Tir | 2008<br>£'000<br>Adneuon cwsmeriaid |
|---|---|---|---|---|
| **Arian net ar ddechrau'r cyfnod** | 380,331 | 2,019 | 306,793 | 2,082 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn arian yn y cyfnod | (100,002) | (1,086) | 73,538 | (63) |
| **Arian net ar ddiwedd y cyfnod** | 280,329 | 933 | 380,331 | 2,019 |

# 25 Datgeliadau partïon cysylltiedig

Yn unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd ar 21 Mawrth 1997 gan y Trysorlys, i gydymffurfio â Safon Adrodd Ariannol 8 *Datgeliadau partïon cysylltiedig*, darperir yr wybodaeth ganlynol am drafodion partïon cysylltiedig. Mae'r Gofrestrfa Tir yn asiantaeth weithredol, yn gronfa fasnachu ac yn adran o'r llywodraeth. Yn ystod y flwyddyn, cafodd nifer o drafodion perthnasol gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganol eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda'r Arolwg Ordnans, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Swyddfa'r Post. Cytunodd y Gofrestrfa Tir ar gontract yn dechrau ar 1 Medi 2008 gyda Cartref Consultancy Cyf y mae Mr Beardsall yn Gyfarwyddwr ac yn brif gyfranddaliwr ynddo. Mae'r contract am hyd at 90 diwrnod o ymgynghori dros gyfnod o 12 mis mewn perthynas â gwaith rhyngwladol y Gofrestrfa Tir. Talwyd cyfanswm o £13,750 mewn ffioedd yn ystod y flwyddyn ariannol. Nid yw unrhyw aelodau bwrdd, aelodau staff rheoli allweddol neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â'r Gofrestrfa Tir.

## 26 Partneriaethau cyhoeddus-preifat

Dyfarnwyd contract ym mis Gorffennaf 1999 i Compaq Services (Hewlett Packard erbyn hyn) am gyfnod o hyd at 10 mlynedd o dan bartneriaeth cyhoeddus-preifat. Gwaith Hewlett Packard yw dylunio, gweithredu a rheoli'r seilwaith TG ar gyfer systemau cofrestru'r Gofrestrfa Tir. Bydd y seilwaith yn cynnal y Gofrestrfa Tir wrth iddi symud tuag at integreiddio ei chofrestri, cynlluniau teitl a gweithredoedd ategol ar gyfrifiadur. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi archwilio'r contract partneriaeth cyhoeddus-preifat a chyflwyniad y Gofrestrfa Tir ac yn cadarnhau na ddylid ei drin yn y fantolen. Mae hyn yn cydymffurfio â'r meini prawf a nodwyd yn y ddogfen *Cyllid Preifat Tasglu'r Trysorlys - Nodyn Technegol (Diwygiad)* a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 1999 a'r diwygiad i Safon Adrodd Ariannol Rhif 5 *Adrodd am sylwedd trafodion: Menter Cyllid Preifat a chontractau tebyg.*

Mae Hewlett Packard yn darparu gwasanaeth rheoledig a chyflawnir hyn gyda thîm ar y safle a fydd yn gweithio mewn partneriaeth â gweinyddwyr system leol y Gofrestrfa Tir. Gan fod y contract wedi'i seilio ar wasanaeth, mae ganddo werth cyfalaf sero. Er mwyn gwneud y defnydd mwyaf o asedau TG y Gofrestrfa Tir, mae cyfrifiaduron personol, gweinyddwyr a bothau sy'n gydnaws â'r gwasanaeth rheoledig yn cael eu cynnal gan Hewlett Packard ar ran y Gofrestrfa Tir. Gwerth cyfarpar y Gofrestrfa Tir ar ddechrau'r contract oedd £2.78 miliwn.

Mae'r contract gyda Hewlett Packard yn dod i ben yng Ngorffennaf 2009 ac mae'r contract newydd wedi cael ei ddyfarnu i Steria; yn dechrau ar 22 Gorffennaf 2009 am bum mlynedd.

Ar gyfer 2008/9 codwyd £22.36 miliwn (2007/8 £21.71 miliwn) i'r cyfrif incwm a gwariant o dan gontract Hewlett Packard. Mae taliadau'r dyfodol a ymrwymwyd o dan y ddau gontract i'w gweld isod.

| | | **£'000** |
|---|---|---|
| 2009/10 | Hewlett Packard | 7,348 |
| 2009/10 | Steria | 9,267 |
| 2010/11 – 2014/15 | Steria | 37,133 |
| | | 53,748 |

## 27 Targedau ariannol corfforaethol

| | **2009 Gwir %** | **Targed %** | **2008 Gwir %** | **Targed %** |
|---|---|---|---|---|
| Canran yr enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd | 0 | 3.5 | 16.3 | 3.5 |

O dan ganllawiau'r Gronfa Fasnachu a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM mae egwyddor o 'gymryd un flwyddyn gyda'r llall' lle mae'r enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd dros gyfnod o bum mlynedd.

Am y cyfnod o bum mlynedd yn dechrau 1 Ebrill 2004 i 31 Mawrth 2009 yr enillion cyfartalog ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yw 8.7 y cant (2007/8: 13.8 y cant).

## 28 Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol 29 *Offerynnau ariannol: datgeliadau* yn gofyn am ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'u chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau a wyneba endid wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

Nid oes gan y Gofrestrfa Tir unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar incwm o weithgareddau statudol ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Mae adneuon sylweddol yn cael eu dal ym Manc Lloegr.

Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau sylweddol wedi'u nodi mewn sterling felly nid yw'r Gofrestrfa Tir yn agored i risg cyfradd llog neu risg arian gyfred.

## 29 Digwyddiadau ôl-fantolen

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen.

Yn unol â gofynion Safon Adrodd Ariannol 21 *Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen,* mae digwyddiadau ôl-fantolen yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r cyfrifon wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi. Mae hyn yn cael ei ddehongli fel dyddiad y dystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol.

# Cofnod y Trysorlys dyddiedig 15 Rhagfyr 2003

1 Mae Adran 4(1) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 ("Deddf 1973") yn darparu y bydd cronfa fasnachu a sefydlwyd o dan y Ddeddf honno yn dod o dan reolaeth y Gweinidog cyfrifol (neu, os caiff cronfa fasnachu ei sefydlu ar gyfer gweithrediadau a gyflawnir gan y sawl a benodir yn unol ag unrhyw ymddeddfiad, yr unigolyn hwnnw, os yw'r Gorchymyn sy'n sefydlu'r gronfa fasnachu yn darparu felly yn unol ag adran 1(6)(a) o Ddeddf 1973); ac wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r gronfa bydd yn ddyletswydd arno:

(a) rheoli'r gweithrediadau a ariannir fel bod refeniw'r gronfa:

(i) yn cynnwys yn bennaf dderbyniadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y gweithrediadau a ariannir; a

(ii) heb fod yn llai na digonol, o gymryd y naill flwyddyn gyda'r llall, i dalu'r treuliau sydd i'w codi'n briodol i'r cyfrif refeniw; a

(b) cyflawni amcanion ariannol pellach y gall y Trysorlys, o bryd i'w gilydd, drwy gofnod a roddwyd gerbron Tŷ'r Cyffredin, ddatgan eu bod wedi'u pennu gan y Gweinidog cyfrifol (gyda chydsyniad y Trysorlys) fel rhai y byddai'n ddymunol eu cyflawni.

2 Sefydlwyd cronfa fasnachu ar gyfer Cofrestrfa Tir EM ar 1 Ebrill 1993 o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir 1993 (SI 1993 Rhif 938). Mae Erthygl 3(2) y Gorchymyn hwnnw yn darparu y bydd y gronfa fasnachu yn dod o dan reolaeth y Prif Gofrestrydd Tir. Roedd y gronfa fasnachu wedi cymryd meddiant ar asedau ychwanegol ar 11 Mawrth 1996 o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir (Asedau Ychwanegol) 1996 (SI 1996 Rhif 750). Ar 13 Hydref 2003, cafodd y gronfa fasnachu ei hehangu a'i diwygio o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir (Estyniad a Diwygiad) 2003 (SI 2003 Rhif 2094).

3 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y Gweinidog Cyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor, sef y Gweinidog cyfrifol at ddiben adran 4(1)(b) o Ddeddf 1973, wedi penderfynu (gyda chydsyniad y Trysorlys) mai amcan ariannol pellach y byddai'n ddymunol i Gofrestrfa Tir EM ei gyflawni yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2004 i 31 Mawrth 2009 fydd sicrhau enillion lleiaf, wedi'u cyfartalu dros y cyfnod cyfan o 3.5 y cant ar ffurf gwarged ar weithgareddau cyffredin cyn llog (yn daladwy ac i'w dderbyn) a difidendau a fynegwyd fel canran o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd. Bydd y cyfalaf a ddefnyddiwyd yn cyfateb â'r cyfanswm asedau y bydd y cyfanswm rhwymedigaethau yn cael ei ddidynnu ohono.

4 Mae'r Cofnod hwn yn disodli'r un dyddiedig 1 Ebrill 1993.

5 Bydd copi o'r Cofnod hwn yn cael ei roi gerbron Tŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 4(1)(b) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973.

# Atodiadau

# Atodiad 1

## Crynodeb o'r gwaith a dderbyniwyd 2007/8 a 2008/9

| **Crynodeb o'r gwaith a dderbyniwyd** | **2007/8** (251 diwrnod gwaith) | **2008/9** (255 diwrnod gwaith) | **Amrywiad** |
|---|---|---|---|
| **Ceisiadau** | | | |
| Cofrestriadau cyntaf | 246,742 | 319,152 | 29.3% |
| Prydlesi gwaredol cyntaf | 247,379 | 191,308 | -22.7% |
| Trosglwyddiadau o ran o dir cofrestredig | 192,656 | 138,873 | -27.9% |
| Deliadau â'r cyfan gyda thir cofrestredig (ac eithrio DSG/HA) | 4,535,398 | 3,588,315 | -20.9% |
| Diweddariadau swmpus i'r gofrestr (DSG)/hysbysiad adneuon (HA) | 3,416,302 | 1,319,067 | -61.4% |
| Gwasanaethau rhagarweiniol (OS, OC, CI, SIM, PIC) | 14,718,097 | 11,528,763 | -21.7% |
| Gohebiaeth (ac eithrio PIC, Ffurflen 313 a gweld y gofrestr) | 462,694 | 390,661 | -15.6% |
| Gwasanaethau ffôn ac ymholiadau | 3,377,296 | 2,087,340 | -38.2% |
| Gweld y gofrestr (CT Uniongyrchol, GGTC a CT Ar-lein) | 7,656,697 | 6,151,891 | -19.7% |
| Gweld cynllun teitl (CT Uniongyrchol, GGTC, CT Ar-lein) | 1,185,790 | 873,219 | -26.4% |
| Gweld dogfen (CT Uniongyrchol a GGTC) | 246,285 | 144,131 | -41.5% |
| Cyfanswm ceisiadau | 36,285,336 | 26,732,720 | -26.3% |
| | | | |
| **Gwasanaethau rhagarweiniol** | | | |
| *Copïau swyddogol* | | | |
| Drwy'r post | 1,956,513 | 906,692 | -53.7% |
| Drwy e-wasanaethau | 5,295,062 | 5,656,214 | 6.8% |
| Dros y ffôn | 500,042 | 240,735 | -51.9% |
| Cyfanswm copïau swyddogol (heb CI) | 7,751,617 | 6,803,641 | -12.2% |
| | | | |
| *Chwiliadau swyddogol* | | | |
| Drwy'r post | 559,719 | 97,614 | -82.6% |
| Drwy e-wasanaethau | 2,766,470 | 2,049,771 | -25.9% |
| Dros y ffôn | 459,102 | 176,689 | -61.5% |
| Cyfanswm chwiliadau swyddogol (OS1+OS2-HR3) | 3,785,291 | 2,324,074 | -38.6% |
| | | | |
| *Chwiliadau swyddogol o'r map mynegai* | | | |
| Drwy'r post | 1,708,753 | 1,352,516 | -20.8% |
| Drwy e-wasanaethau | 861,697 | 650,818 | -24.5% |
| Dros y ffôn | 342,112 | 137,816 | -59.7% |
| Cyfanswm chwiliadau swyddogol o'r map mynegai | 2,912,562 | 2,141,150 | -26.5% |
| | | | |
| Tystysgrif archwilio cynllun teitl (CI) | 12,786 | 7,715 | -39.7% |
| Chwiliadau cartrefi priodasol (Ffurflen HR3) | 257,998 | 248,880 | -3.5% |
| Gweld y gofrestr (CT Uniongyrchol, GGTC a CT Ar-lein) | 7,656,697 | 6,151,891 | -19.7% |
| Gweld cynllun wedi'i ffeilio (CT Uniongyrchol, GGTC a CT Ar-lein) | 1,185,790 | 873,219 | -26.4% |
| Gweld dogfen (CT Uniongyrchol a GGTC) | 246,285 | 144,131 | -41.5% |
| Chwiliadau personol o'r gofrestr (PIC) | 7,843 | 3,303 | -57.9% |
| Cyfanswm gwasanaethau rhagarweiniol | 23,809,026 | 18,694,701 | -21.5% |
| | | | |
| **Gwasanaethau eraill** | | | |
| Ffurflen 313 | 30,166 | 37,029 | 22.8% |
| Adroddiadau pwrpasol prisiau eiddo | 594 | 1,044 | 75.8% |
| Cyfanswm gwasanaethau eraill | 30,760 | 38,073 | 23.8% |

# Atodiad 2

## Datganiad recriwtio

Mae'r wybodaeth ganlynol yn disgrifio gwaith y Gofrestrfa Tir ym maes recriwtio yn ystod 2008/9.

Mae gweithgarwch recriwtio'r Gofrestrfa Tir wedi cael ei gyfyngu yn unol â'r lleihad ym maint y sefydliad yn gyffredinol. Mae wedi canolbwyntio ar feysydd lle y bu angen gael arbenigedd o'r tu allan i'r sefydliad, megis Adnoddau Dynol a Systemau Gwybodaeth. O ganlyniad ceir cymysgedd o staff newydd a staff presennol y Gofrestrfa Tir o fewn y meysydd hynny.

Yn ystod 2008/9 gwnaethpwyd un penodiad i swydd Cyfarwyddwr Anweithredol.

Fel rhan o Weddnewid AD, mae gweinyddu'r prosesau recriwtio wedi cael eu dwyn o dan un tîm yn y Ganolfan Gwasanaeth AD.

Mae gweithdrefnau recriwtio'r Gofrestrfa Tir yn cael eu cynnal ar sail cystadleuaeth deg ac agored, yn unol â'r Cod Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil (wedi'i ddisodli gan Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil o 1 Ebrill 2009) ac maent yn cael eu monitro'n fewnol.

Gwnaethpwyd y penodiadau recriwtio allanol canlynol yn ystod 2008/9:

| Gradd | Nifer a benodwyd |
|---|---|
| Uwch Was Sifil | 0 |
| Cyfarwyddwr Anweithredol | 1 |
| Uwch Weinyddydd Cofrestru | 3 |
| Uwch Swyddog Gweithredol Cofrestru | 1 |
| Swyddog Gweithredol Cofrestru 1 | 6 |
| Swyddog Gweithredol Cofrestru 2 | 26 |
| Swyddog Cofrestru | 6 |
| Cynorthwy-ydd Cofrestru | 0 |
| **Cyfanswm** | **43** |

Mae ymrwymiad parhaus y Gofrestrfa Tir at amrywiaeth a chyfle cyfartal yn cael ei adlewyrchu yn ei gweithdrefnau recriwtio, sy'n cael eu monitro a'u gwerthuso'n gyson. Mae'r ystadegau canlynol yn ymwneud â'r staff a ddangosir yn y tabl uchod.

| Gradd | Gwryw | Benyw | Lleiafrifoedd ethnig | Anabl |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Anweithredol | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Uwch Weinyddydd Cofrestru (SRA) | 0 | 3 | 0 | 0 |
| Uwch Swyddog Gweithredol Cofrestru | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Swyddog Gweithredol Cofrestru 1 | 3 | 3 | 2 | 0 |
| Swyddog Gweithredol Cofrestru 2 | 14 | 12 | 2 | 0 |
| Swyddog Cofrestru | 4 | 2 | 3 | 0 |
| **Cyfanswm** | **22** | **21** | **7**[1] | **0** |

1 Sylwer: Nid oedd pob gweithiwr wedi datgan ei dras ethnig neu ei statws anabledd.

Gwnaethpwyd un ar ddeg penodiad o dan yr eithriadau i'r egwyddorion recriwtio a ganiateir gan Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

# Swyddfeydd ac is-swyddfeydd y Gofrestrfa Tir




Argraffwyd yn y DU ar gyfer y Llyfrfa Cyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi
ID6183642 07/09
Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys lleiafswm o 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Land Registry

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill ar gais. Os hoffech chi neu gydweithiwr gael fformat arall cysylltwch ag Ian MacEachern trwy ffôn: 020 7166 4496 neu e-bost: ian.maceachern@landregistry.gsi.gov.uk

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael:

**Ar-lein**
www.tsoshop.co.uk

**Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost**
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebu trwy Linell Lo-Call y Senedd 0845 7 023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

**Siopau'r Llyfrfa**
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
71 Lothian Road, Caeredin EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

**Siop Lyfrau'r Senedd**
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX

**TSO@Blackwell and other Accredited Agents**

ISBN 978-0-10-296147-8

9 780102 961478